Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sicrhau Cyfiawnder i Gymru

Mai 2022

# Rhagair y Gweinidogion



**Jane Hutt AS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



**Mick Antoniw AS**
Y Cwnsler Cyffredinol

Mae'r ffordd y caiff gwasanaethau cyfiawnder eu darparu – eu hygyrchedd, eu heffeithiolrwydd, eu ffocws, a'u gwerthoedd craidd – yn gwneud gwahaniaeth sylfaenol i lawer iawn o agweddau ar fywydau pobl Cymru.

Mae'n effeithio ar bŵer pobl i orfodi eu hawliau sylfaenol, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac i sicrhau iawn a chymorth pan fydd trosedd yn cael ei chyflawni yn eu herbyn. Mae'n effeithio ar gydlyniant cymunedol a pha mor ddiogel y mae pobl yn teimlo yn eu cartrefi a phan fyddant yn cerdded ar y stryd.

Dyna pam y mae darpariaeth  gwasanaethau cyfiawnder o bwys sylfaenol i Lywodraeth Cymru.

Fel mewn meysydd eraill o waith y llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r canlyniadau gorau. Rydym yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau datganoledig a'r rhai sydd heb eu datganoli, a chydag ystod o staff ar draws sectorau; o swyddogion heddlu a staff gwasanaethau llysoedd, i wasanaethau cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r dull hwn o weithio mewn partneriaeth yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol mewn sawl maes yng Nghymru, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, cyswllt yr heddlu, a'r ymateb i bandemig y coronafeirws a'r ôl-groniadau o achosion llysoedd troseddol a ddaeth yn ei sgil.

Rydym hefyd yn credu ym mhŵer camau gweithredu ataliol, ac mai dim ond drwy sicrhau cyfiawnder cymdeithasol y gallwn ni ddelio o ddifrif â throseddu a'i atal, lleihau nifer y teuluoedd sy'n chwalu, goresgyn casineb a rhagfarn, neu fynd i'r afael â holl achosion eraill y pwysau enfawr ar ein system gyfiawnder. Fel llywodraeth sy'n gyfrifol am ddarparu addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, a thai, rydym yn defnyddio'r pwerau sydd gennym i ymyrryd yn gynnar a chymryd camau pendant i arwain pobl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r ddogfen hon yn nodi rhai o'r ffyrdd arloesol niferus y mae cyfiawnder yn cael ei ddarparu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mewn llawer o agweddau, mae Cymru yn batrwm ar gyfer sut y gallai gwasanaethau gael eu darparu'n well ledled y DU.

Yn gyd-destun i hyn i gyd y mae heriau digynsail i'r system gyfiawnder. Mae'r pandemig wedi newid yn sylfaenol y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu.

Serch hynny, polisïau Llywodraeth y DU ers 2010 sydd wedi cyfyngu ar fynediad i gyfiawnder, bygwth hawliau ac amddiffyniadau sylfaenol, a thorri'r cyllid hanfodol y mae gwasanaethau'n dibynnu arno.

Ein cred ni yw y dylid datganoli'r maes cyfiawnder i Gymru. Nodwyd hyn yn ein maniffesto ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021, ac mae bellach yn rhan bwysig o'n rhaglen lywodraethu. Roedd hefyd yn un o argymhellion sylfaenol comisiwn annibynnol, y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd.

Nid mater cyfansoddiadol cul yw pwy sy'n rhedeg y system gyfiawnder. Yn hytrach, fel y canfu'r Comisiwn, dim ond drwy wneud penderfyniadau ynglŷn â chyfiawnder yma yng Nghymru y gallwn ni sicrhau gwasanaethau gwell drwy gysoni pethau â'n gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg sy'n unigryw ac sy'n datblygu, a chorff cynyddol cyfraith Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut rydym yn ymateb i'r argymhellion hynny gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru sydd yn nwylo Llywodraeth Cymru, ac yn amlinellu glasbrint ar gyfer system ddatganoledig yn y dyfodol.

Yn benodol, o fewn y meysydd y mae gennym ni gyfrifoldeb ynddynt, rydym yn canolbwyntio ar fynd i'r afael, gorau y gallwn ni, â'r argyfwng o ran mynediad i gyfiawnder; ar gefnogi sector cyfreithiol Cymru fel elfen allweddol o ddarparu'r mynediad hwnnw i gyfiawnder, yn ogystal â chyfrannwr sylweddol at economi Cymru; ac ar sicrhau bod yr elfennau datganoledig o'r system gyfiawnder yn batrwm ar gyfer yr hyn y gall Cymru ei gyflawni.

Yn hanfodol i'r uchelgais olaf hwnnw y mae bwrw ymlaen â gwaith pwysig Comisiwn y Gyfraith i greu gwasanaeth tribiwnlysoedd unedig, annibynnol i Gymru. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein hymateb i'r adroddiad hwnnw a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

# Cynnwys


Pennod 1: Cyflwyniad ..... 11
1.1 Hanes diweddar ..... 11
1.2 Datblygiadau ers Adroddiad Thomas ..... 12
1.3 Pam rydym wedi llunio'r ddogfen hon ..... 14
1.4 Yr hyn y mae'r papur hwn yn ei gynnwys ..... 15
Pennod 2: Ein Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol ..... 17
2.1 Dwyn cyfiawnder yn agosach at y bobl ..... 17
2.2 Ymateb Llywodraeth y DU ..... 20
2.3 Creu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ..... 22
2.4 Rhannu barn am ein gweledigaeth ..... 27
2.5 Dull seiliedig ar dystiolaeth ..... 27
Pennod 3: Gwaith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar ..... 32
3.1 Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ..... 35
3.2 Dull ystyriol o drawma ..... 39
3.3 Diogelu hawliau plant ..... 40
3.4 Gweithgareddau yn y system addysg ..... 42
3.5 Casgliadau ..... 46
Pennod 4: Cydraddoldeb a Chyfiawnder ..... 48
4.1 Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ..... 49
4.2 Creu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol ..... 53
4.3 Troseddau casineb a chydlyniant cymunedol ..... 56
4.4 Cydraddoldeb a diogelu hawliau ..... 58
4.5 Y Gymraeg ..... 59
Pennod 5: Cyfiawnder Teuluol ..... 62
5.1 Y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol ..... 64
5.2 Cafcass Cymru ..... 65
5.3 Cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal ..... 66
5.4 Gwasanaethau Reflect ..... 68
5.5 Cefnogaeth i rieni a Chyfraith Breifat ..... 69

5.6 Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol ........ 72
Pennod 6: Plismona yng Nghymru: creu cymunedau mwy diogel ........ 74
6.1 Datblygu trefniadau partneriaeth cryf ........ 76
6.2 Plismona a’r Pandemig ........ 80
6.3 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ........ 81
6.4 Gweithio mewn partneriaeth i amddiffyn plant a chefnogi teuluoedd ........ 82
6.5 Caethwasiaeth fodern yng Nghymru ........ 84
6.6 Plismona a thrafnidiaeth ........ 85
6.7 Troseddau cefn gwlad ........ 86
6.8 Strwythurau partneriaethau a phrif sefydliadau galluogi Cymru ........ 88
Pennod 7: Cyfiawnder Troseddol - Swyddogaethau Datganoledig ........ 91
7.1. Llety a chymorth ar ôl rhyddhau carcharorion yng Nghymru ........ 92
7.2 Diogelu iechyd mewn carchardai ........ 94
7.3 Addysg a dysgu mewn carchardai yng Nghymru ........ 99
7.4 Cyflogaeth ........ 99
7.5 Gwasanaethau plant ........ 102
Pennod 8: Rhaglenni Diwygio Cyfiawnder Troseddol ........ 108
8.1 Glasbrint Cyfiawnder Menywod ........ 110
8.2 Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid ........ 112
8.3 Llysoedd Troseddol Datrys Problemau ........ 115
Pennod 9: Cyfiawnder Sifil a Gweinyddol: gosod y sylfeini ........ 117
9.1 Diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig ........ 118
9.2 Creu system unedig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig ........ 120
9.3 Ehangu cwmpas y gwasanaeth tribiwnlys ........ 121
9.4 Creu Tribiwnlys Apêl ........ 123
9.5 Ehangu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ........ 123
9.6 Diogelu annibyniaeth ........ 124
9.7 Penodiadau, cwynion a disgyblaeth ........ 125
9.8 Diwygio tribiwnlysoedd – y camau nesaf ........ 126
9.9 Cyfiawnder sifil a gweinyddol y tu hwnt i'r tribiwnlysoedd datganoledig ........ 127
Pennod 10: Mynediad at Gyfiawnder ........ 129
10.1 Mynediad corfforol i lysoedd a thribiwnlysoedd ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir wyneb yn wyneb ........ 130

10.2 Y gallu i gymryd rhan mewn gwrandawiadau ar-lein a defnyddio gwasanaethau ar-lein eraill ..... 131
10.3 Argaeledd cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol fforddiadwy ac amserol sydd o ansawdd uchel ..... 133
10.4 Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ..... 136
10.5 Cyfiawnder teg a chyflym ..... 139
10.6 Hygyrchedd Cyfraith Cymru ..... 141
10.7 Addysg gyfreithiol gyhoeddus a gwaith Pro Bono ..... 145
10.8 Hyrwyddo a diogelu hawliau dynol ..... 147
Pennod 11: Sector cyfreithiol ac economi Cymru ..... 150
11.1 Cyd-destun ..... 150
11.2 Cyngor Cyfraith Cymru ..... 151
11.3 Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol ..... 152
Pennod 12: Llywodraethu, materion cyfansoddiadol a chyfraith Cymru ..... 156
12.1 Arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru ..... 156
12.2 Cydweithio ag elfennau eraill o'r system gyfiawnder ..... 158
12.3 Arweinyddiaeth farnwrol a llywodraethu barnwrol ..... 159
Atodiad – Ein rhaglen waith ..... 162

# Crynodeb Gweithredol

## Diben y cyhoeddiad hwn

> **"[nid] yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru"**
>
> **Yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd**

Mae system gyfiawnder deg ac effeithiol yn hanfodol i unrhyw wlad. Hebddi, gellir anwybyddu cyfreithiau, ac ni fyddai neb yn ddiogel. Mae'r cyhoeddiad hwn yn ymwneud â chreu'r system gyfiawnder gryfaf posibl i Gymru. Nid yw'n dechrau drwy ofyn pwy ddylai redeg y system gyfiawnder, ond yn hytrach pa ddiwygiadau y mae angen eu gwneud er mwyn inni allu cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

### Mae ein dull o ymdrin â chyfiawnder yng Nghymru wedi'i seilio ar weithio mewn partneriaeth yn llwyddiannus.

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid mewn meysydd datganoledig a phartneriaid mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli fel rhan o ddull system gyfan, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer cyfiawnder. Mae meysydd datganoledig fel tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn hanfodol i alluogi dinasyddion Cymru i fyw bywydau iach, di-drosedd. Rydym yn chwarae rhan weithredol yn y system bresennol, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Dangosir hyn yn arbennig gan waith ar y Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid a Chyfiawnder Menywod, yn ogystal â'n gwaith ar y cyd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

### Er hyn, rydym yn gwybod y gallai ein system gyfiawnder fod gymaint yn well.

Mae ein partneriaethau llwyddiannus yn gweithredu yng nghyd-destun ehangach system sy'n ddigyswllt, lle mae gwasanaethau a ddylai fod ynghlwm wrth ei gilydd yn hytrach wedi'u gwasgaru ar draws cyrff datganoledig a chyrff nad ydynt wedi'u datganoli. Felly, mae effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth hyn a'u gallu i wneud gwelliannau yn sylfaenol gyfyngedig – gan effeithio ar ein gallu cyfunol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.

Dywedodd cyn Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, "nad yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru". Mae'r geiriau hyn wedi'u cynnwys yn adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Gyfiawnder yng Nghymru, a gadeiriwyd ganddo, yn dilyn yr archwiliad mwyaf erioed o gyflwr y system gyfiawnder yng Nghymru, yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig gan fwy na 200 o unigolion, sefydliadau a chyrff, a thros 150 o sesiynau tystiolaeth lafar ar draws holl sbectrwm y system gyfiawnder.

Roedd casgliadau'r Comisiwn yn glir. Er mwyn diwygio'r system gyfiawnder o ddifrif, mae angen i bolisïau a phenderfyniadau ynghylch cyfiawnder gael eu gwneud a'u cyflawni yng Nghymru, fel y gallant gael eu cysoni â'r polisïau a'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder cymdeithasol ac addysg sy'n unigryw ac yn datblygu yng Nghymru, a chorff cynyddol cyfraith Cymru. **Dylid datblygu polisi cyfiawnder a dyrannu cyllid er mwyn diwallu anghenion pobl Cymru, a darparu mwy o fuddion iddynt.** Nid oes sail resymegol dros drin Cymru yn wahanol i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gallwn weithio – ac rydym yn gweithio – i sicrhau'r gweithio mewn partneriaeth mwyaf effeithiol y gallwn ni o fewn cyfyngiadau'r setliad datganoli presennol, ac rydym yn aml yn gweld canlyniadau cadarnhaol i bobl Cymru. Serch hynny, dim ond drwy gysylltu'r system gyfiawnder â gweddill y llywodraeth y gallwn ni wir ganfod ffyrdd effeithiol o leihau troseddu – neu yn wir leihau nifer y teuluoedd sy'n chwalu, neu'r holl faterion eraill sy'n rhoi pwysau aruthrol ar ein system gyfiawnder.

**Dangosodd y profiad yn ystod pandemig Covid-19 gryfderau a gwendidau'r trefniadau presennol. Roedd y system gyfiawnder yn gallu ymdopi â gwahaniaethau sylweddol mewn cyfraith trosedd rhwng Cymru a Lloegr. Cafodd y gwaith cydweithredol a wnaed yng Nghymru i sicrhau bod y llysoedd yn weithredol ac yn ddiogel o ran Covid ei amlygu dro ar ôl tro fel rhywbeth arbennig. Ond sail y llwyddiant oedd camau gweithredu gwirfoddol a chysylltiadau yn hytrach na bod y system gywir ar waith, tra oedd gweithio gydag asiantaethau yn Lloegr yn ychwanegu cymhlethdod diangen at y broses benderfynu.**

# Cynllunio ar gyfer y tymor hwy

Ar sail canfyddiadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas) a'r profiad yn ystod pandemig Covid-19 y cafodd yr ymrwymiad i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlismona ei gynnwys yn ein **Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2021-26**. Roedd y cynnig hwnnw i'w weld mewn nifer o faniffestos pleidiau, ac felly cafodd ei gymeradwyo gan fwyafrif helaeth o bleidleiswyr Cymru. Credwn fod yr achos dros ddatganoli cyfiawnder yng Nghymru bellach wedi'i brofi.

Credwn hefyd ei bod yn anochel y bydd yn digwydd – felly mae gennym ddyletswydd i baratoi ar ei gyfer. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr – yn academyddion ac yn ymarferwyr – i adeiladu ar argymhellion Comisiwn Thomas ac i ddatblygu a nodi sut y gallem sicrhau canlyniadau gwell i Gymru pe bai pwerau, a'r lefelau priodol o gyllid, yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau democrataidd Cymru.

Mae'n bwysig bod ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cyfiawnder yng Nghymru yn cael ei llunio ar y cyd ag arbenigwyr a'r rhai sydd â phrofiadau bywyd o gysylltiad â'r system gyfiawnder; yn enwedig y rhai a glywir leiaf aml. Felly nid yw'r cyhoeddiad hwn yn ceisio cyfleu'r weledigaeth honno nawr. Yn hytrach, dyma'r cam diweddaraf mewn sgwrs.

I helpu i gynnal datblygiad y sgwrs hon, rydym wedi mynd ati i nodi rhai o elfennau craidd ein dull o ddylunio system gyfiawnder ddatganoledig – yn y crynodeb hwn ac yn y ddogfen.

Croesawn unrhyw sylwadau ysgrifenedig ar yr elfennau craidd hyn o system gyfiawnder ddatganoledig – gan gynnwys a oes elfennau ychwanegol pwysig y dylid eu cynnwys, a beth allai rhai o'u goblygiadau ymarferol fod. Ond ein prif fwriad yw ysgogi trafodaeth mewn amrywiaeth o wahanol fforymau am oblygiadau ymarferol pob un o'r elfennau a nodir, er mwyn cynyddu ein parodrwydd.

# Elfennau craidd system gyfiawnder ddatganoledig

**Wrth oruchwylio system gyfiawnder ddatganoledig i Gymru, byddem yn:**

- Cynnal Rheolaeth y Gyfraith bob amser, gan sicrhau nad oes neb uwchlaw'r gyfraith.
- Gwarantu mynediad at gyfiawnder a diogelu hawliau unigol dinasyddion, gan gynnwys sicrhau iawn ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr troseddau.
- Gweithio i wella profiad dioddefwyr, tystion a goroeswyr pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, gan gynnwys drwy adeiladu ar y profiad o ddarparu safleoedd tystiolaeth o bell.
- Cefnogi cymunedau mwy diogel a sicrhau bod mynediad at gyfiawnder ar gael i bawb, gan gynnwys drwy roi llais amlwg o fewn y system gyfiawnder i bobl hŷn ac i bobl anabl.
- Gweithio gyda'r bobl ddewr, ymroddedig a gweithgar sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, a'u cefnogi.
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddeddfu a llunio polisïau, a mynd ati i ehangu'r gwaith o ymgorffori safonau hawliau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig.
- Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i fynd i'r afael â'r argyfwng cenedlaethol o drais gan ddynion yn erbyn menywod, a'r lefelau syfrdanol o isel o euogfarnau am dreisio ac ymosodiadau rhywiol.
- Parhau i weithio dros Gymru sy'n wrth-hiliol ac ymdrechu i ddileu'r profiadau a'r canlyniadau anghyfartal rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol ac ethnig yn y system cyfiawnder troseddol.
- Mabwysiadu dull rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth lunio polisïau, ar y cyd ag arbenigwyr, ymarferwyr a'r rhai yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau arfaethedig.
- Canolbwyntio ar atal, a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth mai dim ond drwy sicrhau cyfiawnder cymdeithasol y gallwn fynd i'r afael o ddifrif â'r rhesymau sylfaenol dros y pwysau sydd ar y system gyfiawnder.
- Gweithio i leihau maint poblogaeth carchardai drwy leihau'n sylweddol y defnydd o ddedfrydau byr, y dangoswyd eu bod yn wrthgynhyrchiol, a mynd ar drywydd dewisiadau eraill yn lle carchar pan fo'n briodol, megis rhaglenni i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a chymorth gyda thriniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.
- Sicrhau bod yr holl arferion ar draws y system yn ystyriol o drawma, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o effaith bosibl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ddyfodol unigolyn.
- Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y system gyfiawnder, gan weithio i sicrhau y gellir cynnal yr holl weithgarwch o fewn y system gyfiawnder yn Gymraeg.
- Hyrwyddo Cymru fel lle i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol fyw a gweithio ynddo, a gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cyfraith Cymru i gefnogi cynaliadwyedd proffesiynau cyfreithiol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol.
- Parhau i gyfranogi mewn trefniadau Cymru a Lloegr, Prydain gyfan, y DU gyfan, trefniadau Ewropeaidd a threfniadau rhyngwladol, pan fo hynny er budd pawb.

# Gwneud newid nawr

Rydym wedi dadlau'n gyson dros yr achos am newid wrth Lywodraeth bresennol y DU, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Ar adeg ysgrifennu, fodd bynnag, er gwaethaf casgliadau digamsyniol Comisiwn Thomas, ac er gwaethaf mandad clir gan bobl Cymru, mae Llywodraeth y DU yn parhau i fod yn erbyn unrhyw newid sylweddol.

Mae'r ddogfen hon felly'n nodi sut rydym wedi bod yn ceisio ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y diwygiadau sydd eu hangen i wella'r ffordd y caiff cyfiawnder ei ddarparu yng Nghymru yn y dyfodol. Ond, yn hollbwysig, mae hefyd yn nodi'r hyn yr ydym yn ei wneud yng Nghymru nawr i gefnogi'r ffordd orau posibl o sicrhau cyfiawnder o dan y trefniadau presennol, a beth arall y bwriadwn ei wneud yn y tymor byr. Fel Llywodraeth Cymru, rydym yn deall na fydd dadlau'r achos dros ddatganoli yn cael ei wneud drwy siarad amdano'n unig. Yn hytrach, mae angen inni fynd ar drywydd yr achos drwy ddangos ein gwerthoedd drwy'r camau yr ydym yn eu cymryd.

Mae'r cyhoeddiad hwn felly'n dangos sut rydym yn ymateb i'r argymhellion hynny gan Gomisiwn Thomas sydd yn nwylo Llywodraeth Cymru, ac yn amlinellu bwriad ar gyfer system ddatganoledig yn y dyfodol.

---

**Yn benodol, o fewn y meysydd y mae gennym ni gyfrifoldeb ynddynt, rydym yn canolbwyntio ar y canlynol:**

- rheoli'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau nad ydynt wedi'u datganoli, a datblygu gwaith ar y cyd ar draws llywodraethau pan fo cyfle am gytundeb;
- mynd i'r afael â'r argyfwng o ran mynediad at gyfiawnder, gan ddefnyddio unrhyw ysgogiadau sydd gennym i wneud hynny;
- cefnogi sector cyfreithiol Cymru fel elfen allweddol o ddarparu mynediad at gyfiawnder, yn ogystal â chyfrannwr sylweddol at economi Cymru;
- sicrhau bod yr elfennau datganoledig o'r system gyfiawnder yn batrwm ar gyfer yr hyn y gall Cymru ei gyflawni.

---

Rhan fawr o'r uchelgais olaf hwn yw ein hymateb i waith pwysig Comisiwn y Gyfraith i greu gwasanaeth tribiwnlysoedd unedig, annibynnol i Gymru.

**Y gwasanaeth tribiwnlysoedd newydd hwnnw fydd un o sylfeini cyntaf system gyfiawnder yn y dyfodol sy'n cael ei rhedeg o Gymru.**

Mae'r cyhoeddiad hefyd yn nodi'r meysydd pwysig eraill hynny lle mae ein dull cydweithredol yng Nghymru *eisoes* yn sicrhau newid cadarnhaol – megis ym maes cyfiawnder ieuenctid, cyswllt yr heddlu a mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. O bell ffordd, nid Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am y gwaith partneriaeth cryf ym mhob un o'r meysydd hynny; ond yr hyn sydd ganddynt yn gyffredin yw bod asiantaethau a phobl wedi gallu dod at ei gilydd yn wirfoddol, gan weithio o fewn cyfyngiadau'r system bresennol i sicrhau canlyniadau trawiadol.

Yn bwysicaf oll efallai, mae'r cyhoeddiad hwn yn ceisio nodi nad oes modd cyflawni'r amcan o wella'r system gyfiawnder draddodiadol heb ddarparu cyfiawnder cymdeithasol. Nid oes ffordd gynaliadwy arall o leihau'r pwysau ar y system gyfiawnder. Mae sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn golygu mynd i'r afael â

heriau mwyaf cymdeithas, gan gynnwys tlodi, anghydraddoldeb rhwng y cenedlaethau ac adeiladu cymunedau cydlynol a goddefgar. Mae'n golygu mynd i'r afael â chasineb, casineb at fenywod a gwahaniaethu, nid yn unig pan fyddant yn golygu troseddu neu achosion eraill o dorri'r gyfraith, ond drwy addysg, esboniadau ac adeiladu cymdeithas lle gall pawb ffynnu waeth beth fo'u cefndir.

Yn benodol, mae cyfiawnder cymdeithasol yn golygu canolbwyntio ar flynyddoedd mwyaf ffurfiannol bywydau pobl, sef y blynyddoedd cynnar, drwy ymyrraeth gynnar; mae'n golygu cymryd camau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cymdeithasol a strwythurol a all arwain at adfyd a gwahaniaethu; ac mae'n golygu ymateb yn gyflym, yn gynhwysfawr ac yn dosturiol lle bynnag y bo modd i drawma plentyndod a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Felly, er y byddwn yn parhau i ddadlau'r achos dros newid radical, byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o'r system gyfiawnder sy'n cael ei gorweithio, ei thanariannu a'i llethu, ac i leihau'r pwysau arni drwy gyflawni ein cenhadaeth i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.

Ar ddiwedd y ddogfen hon, fe welwch grynodeb o'r holl waith sydd ynddi. Wrth bennu'r rhaglen waith hon, gobeithiwn unwaith eto ysgogi sgwrs ar beth arall y gellir ei wneud.

**Fodd bynnag, rydym hefyd yn gobeithio y bydd y cyhoeddiad hwn yn rhoi syniad o faint sy'n cael ei wneud eisoes, a sut mae'r cyfan yn plethu i'w gilydd – wedi'i seilio ar y gwerthoedd Cymreig penodol hynny, sef cydweithio, ysbryd cymunedol a'r awydd i adeiladu cymdeithas gyfiawn a theg.**

# Pennod 1: Cyflwyniad

**1.1 Hanes diweddar**

Cymru yw'r unig wlad ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig sydd heb ei system gyfiawnder ei hun. Tra bo'r Alban a Gogledd Iwerddon yn gallu creu cyfreithiau a phenderfynu sut i'w gorfodi, dim ond creu cyfreithiau y gall Cymru ei wneud. Eto i gyd, mae ystyriaethau sy'n ymwneud â chyfiawnder yn rhan o bob agwedd ar benderfyniadau llywodraethol yng Nghymru fel sy'n wir am holl wledydd y DU. Mae hyn yn arbennig o wir am benderfyniadau ynghylch deddfwriaeth, a hefyd mewn meysydd datganoledig sydd â chydberthynas agos â chyfiawnder, megis addysg, tai ac iechyd. Mae'r 'ffin amrwd' hon mewn datganoli yn atal cyfiawnder rhag dod yn rhan annatod o'r broses gyffredinol o lunio polisïau, ac yn aml mae'n arwain at gymhlethdodau ymarferol a chanlyniadau gwaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi hir gydnabod bod y sefyllfa hon yn broblem, ac mae wedi ceisio pledio achos newid cyfansoddiadol ers cryn amser. Yn y degawd diwethaf mae'r achos wedi cael ei ystyried gan ddau gomisiwn annibynnol – sefydlwyd y cyntaf gan Lywodraeth y DU, a sefydlwyd yr ail gan Lywodraeth Cymru.

Ym mis Hydref 2011, sefydlodd Llywodraeth y DU Gomisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk) i ystyried y trefniadau ariannol a deddfwriaethol yng Nghymru. Gwnaeth Comisiwn Silk ei waith mewn dwy ran. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddwyd ail ran yr adroddiad, a oedd yn ymwneud â phwerau'r Cynulliad, fel yr oedd ar y pryd. Roedd yn cynnwys 12 o argymhellion ar gyfer cyfiawnder a phlismona, gan gynnwys datganoli plismona a chyfiawnder ieuenctid erbyn 2017, ac ystyried a ddylid gweithredu ar y "dadl gref o blaid datganoli'r gwasanaeth carchardai, yn ogystal â'r gwasanaethau prawf". Hefyd, argymhellodd Comisiwn Silk adolygiad pellach i ystyried yr achos dros ddatganoli'r system gyfiawnder yn ei chyfanrwydd; yr awgrym oedd y dylai'r adolygiad hwn gael ei gwblhau *a'i roi ar waith* erbyn 2025.

Yn sgil y methiant i weithredu ar argymhellion Silk, nid aed i'r afael â phryderon Llywodraeth Cymru nac eraill ar y cyfan. Manylwyd ar y problemau roedd y rhain yn parhau i'w hachosi mewn modd cynhwysfawr yn yr adroddiad nodedig Cyfiawnder

yng Nghymru dros Bobl Cymru, gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas), a gadeiriwyd gan yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019.

Cafodd Comisiwn Thomas, a oedd yn cynnwys grŵp neilltuol o arbenigwyr mewn gwahanol agweddau ar y system gyfiawnder, ei sefydlu yn 2017 ac aeth ati i gynnal yr ymarfer mwyaf erioed yn arolygu cyflwr y system gyfiawnder yng Nghymru. Gwrandawodd ar gorff o dystiolaeth ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen a chyflwynodd 78 o argymhellion ffurfiol, yn ogystal â sawl sylw arall ynghylch sut y gellid gwella canlyniadau i bobl Cymru. O'r rhain, yr un mwyaf pellgyrhaeddol oedd galw am ddatganoli'r broses o weithredu'r system gyfiawnder, a pholisïau cysylltiedig, i Gymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys argymhellion ynghylch sut y gallai system ddatganoledig gael ei rhoi ar waith, a hefyd newidiadau a allai gael eu gwneud cyn datganoli neu ni waeth a yw datganoli yn digwydd ai peidio.

**1.2 Datblygiadau ers Adroddiad Thomas**

Wrth groesawu'r adroddiad, nododd y Prif Weinidog wrth annerch y Senedd ein bod yn “wynebu tair tasg hanfodol:

- deddfu'r argymhellion hynny sy'n uniongyrchol berthnasol i Lywodraeth Cymru
- darparu arweiniad cydweithredol yn y meysydd hynny lle mae cynigion yr adroddiad yn dibynnu ar weithredwyr eraill yng Nghymru
- goruchwylio trafodaethau gyda Llywodraeth newydd y DU ar gynigion Thomas”.

Aeth Llywodraeth Cymru ati ar unwaith i sefydlu Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder i ymateb i argymhellion Comisiwn Thomas, a darparu arweiniad strategol ar faterion cyfiawnder. Yn arbennig, mae Is-bwyllgor y Cabinet yn gyfrifol am y canlynol:

- darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer swyddogaethau cyfiawnder sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd
- llywio holl weithgarwch y llywodraeth mewn ymateb i adroddiad Comisiwn Thomas
- sicrhau synergedd ar draws portffolios er mwyn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ymdrin â materion cyfiawnder

- arwain trafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddatganoli cyfiawnder.

Ym mis Chwefror 2020 cefnogodd y Senedd y dull o fynd i'r afael ag adroddiad Comisiwn Thomas a nodwyd gan y Prif Weinidog, gan bleidleisio o 38 i 15 o blaid cynnig ei fod:

1. Yn cydnabod adroddiad hanesyddol y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a'r corff o dystiolaeth na welwyd mo'i debyg o'r blaen a gynhyrchwyd ganddo, ac yn diolch i aelodau a staff y Comisiwn am eu gwaith
2. Yn cydnabod ymroddiad yr unigolion a'r sefydliadau lawer sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, a'u hymrwymiad i wasanaethu'r cyhoedd, ond yn nodi hefyd y siom bod y Comisiwn wedi dod i'r casgliad canolog nad yw eu system gyfiawnder yn diwallu anghenion pobl Cymru yn ddigonol
3. Yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i weithredu ar yr argymhellion hynny sydd o fewn ei chymhwysedd ar hyn o bryd a gweithio gyda chyrff eraill i weithredu ar argymhellion sy'n gyfrifoldeb arnynt hwythau
4. Yn nodi prif ganfyddiad y Comisiwn fod rhaid penderfynu ynghylch polisi a'i oruchwylio, yng Nghymru, os dymunir gweld gwahaniaeth parhaus yn y modd y cyflawnir cyfiawnder yng Nghymru
5. Yn gefnogol o ddatganoli cyfiawnder a phlismona, wedi'u cyllido'n llawn er mwyn sicrhau bod gweithrediaeth y system gyfiawnder yn cyd-fynd â'r amcanion polisi ehangach i Gymru y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad hwn

Fodd bynnag, yn fuan ar ôl hyn cafwyd pandemig Covid-19. Yn sgil yr angen dybryd i ailflaenoriaethu adnoddau er mwyn mynd i'r afael ag ef, o fewn Llywodraeth Cymru ac yn achos yr holl brif asiantaethau bron yn y system gyfiawnder, bu'n rhaid rhoi'r gorau i gryn dipyn o'r gwaith o fynd ati i gyflawni argymhellion yr adroddiad.

Er yr aed ati i gyflawni rhai argymhellion unigol yn ystod y pandemig, ailddechreuodd y gwaith yn dilyn ailethol llywodraeth Lafur ym mis Mai 2021, gydag ymrwymiad maniffesto clir i fynd ar drywydd datganoli plismona a chyfiawnder. Gydag ymrwymiadau tebyg ym maniffestos Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol, bu'n fandad etholiadol cryf i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Felly, ailsefydlwyd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder a gwnaethom gysylltu â Llywodraeth y DU ar gam cynnar i ailgychwyn trafodaethau y bu'n rhaid rhoi'r gorau iddynt dros dro.

### 1.3 Pam rydym wedi llunio'r ddogfen hon

Yn sgil Covid-19 ni wnaeth Llywodraeth Cymru ymateb yn uniongyrchol i Adroddiad Thomas yn 2020, fel y byddai wedi'i wneud fel arall hwyrach. Felly, rhan o ddiben y ddogfen hon yw dangos beth sydd wedi digwydd i argymhellion y Comisiwn hyd yn hyn, a nodi ein barn ynghylch argymhellion eraill nad ydynt wedi datblygu.

Serch hynny, mae'n bwysig cydnabod y graddau y mae'r gwaith o gyflawni cyfiawnder wedi newid ers 2019 – adeg pan oedd, er enghraifft, y gwasanaethau prawf wedi'u rhannu o hyd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Yn bwysicaf oll, mae'r pandemig wedi newid y ffordd y mae rhannau o'r system gyfiawnder yn gweithio, gyda chryn dipyn o'r system llysoedd a thribiwnlysoedd yn arbennig yn defnyddio technoleg i weithredu o bell yn hytrach na chynnal gwrandawiadau wyneb yn wyneb. Hefyd gwnaeth marwolaeth George Floyd arwain at wrthlef gymunedol ynghylch plismona ledled y byd a ffocws ar hiliaeth sefydliadol o fewn y system gyfiawnder, ac yn y DU mae llofruddiaeth Sarah Everard wedi arwain at ffocws cenedlaethol yr un mor graff ar y cyfraddau rhy uchel o lawer o drais a chamdriniaeth tuag at fenywod. Felly, mae digwyddiadau wedi golygu nad yw rhai o argymhellion Comisiwn Thomas mor berthnasol, ac felly ni chânt eu trafod yn fanwl yn y papur hwn.

Mae adroddiad pwysig iawn arall wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar, sef adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae'n dechrau o argymhellion Comisiwn Thomas ond mae'n rhoi mwy o fanylion ynghylch ffordd ymlaen, ar ôl ymgynghori manwl pellach â'r sector ac arbenigwyr eraill. Felly mae pennod 9 yn canolbwyntio ar yr adroddiad hwnnw ac yn amlinellu ein hymateb a sut rydym yn bwriadu mynd ati i'w roi ar waith, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar argymhellion lefel uwch Comisiwn Thomas.

Yn olaf, mae'r papur hwn yn adeiladu ymhellach ar y dadansoddiad yn adroddiad Comisiwn Thomas wrth ddangos y meysydd niferus lle mae asiantaethau yng Nghymru wedi gallu cydweithio i gyflawni gwelliannau pwysig i gyfiawnder dros bobl Cymru. Caiff peth o'r gwaith hwnnw ei arwain gan Lywodraeth Cymru, ond nid yw hynny'n wir am gryn dipyn ohono. Mae'r gweithgarwch hwn yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni, hyd yn oed o dan drefniadau cyfansoddiadol diffygiol, ond mae hefyd yn

awgrymu beth yn rhagor y gellid ei gyflawni petai'r system gyfan yn gallu gweithredu yn un.

### 1.4 Yr hyn y mae'r papur hwn yn ei gynnwys

Yn unol â'r uchod, mae'r papur hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Ym mhennod 2, nodwn ein barn ynghylch argymhelliad craidd Comisiwn Thomas, y dylai cyfiawnder gael ei ddatganoli i Gymru, a'r camau rydym wedi eu cymryd ac y byddwn yn eu cymryd i fynd ati i gyflawni'r uchelgais hwnnw'n uniongyrchol.

- Ym mhenodau 3 a 4, canolbwyntiwn ar yr elfen hirdymor bwysicaf i wella cyfiawnder – camau ataliol i atal troseddau, teuluoedd yn chwalu, anghydraddoldeb, a ffactorau eraill sy'n rhoi pwysau ar y system gyfiawnder. Er na allwn nodi'r holl weithgarwch yn gynhwysfawr, mae'r penodau hyn yn cynnwys rhai enghreifftiau pwysig o weithgarwch a fydd yn lleihau'r pwysau ar y system gyfiawnder, gan ganolbwyntio ar feysydd cefnogi plant a theuluoedd, addysg a chydraddoldebau.

- Ym mhenodau 5-9, edrychwn ar yr hyn sy'n digwydd pan fydd angen i bobl ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder. Mae'r penodau’n edrych ar y system cyfiawnder teuluol, plismona a diogelwch cymunedol, y ffordd y mae elfennau datganoledig o'r system cyfiawnder troseddol yn gweithredu, gwaith partneriaeth ehangach i wella canlyniadau cyfiawnder troseddol, a chyfiawnder sifil a gweinyddol. Ym mhob maes, rhown enghreifftiau o waith sydd wedi mynd rhagddo ac sy'n mynd rhagddo yng Nghymru i wella canlyniadau o dan y setliad presennol, gan ddangos cyfraniad Llywodraeth Cymru at y gwaith hwnnw lle bo'n berthnasol.

- Ym mhenodau 10 ac 11 edrychwn ar ddwy her sylfaenol sy'n berthnasol i holl elfennau'r system gyfiawnder – diogelu mynediad at gyfiawnder a sicrhau bod gan Gymru y sector cyfreithiol y mae ei angen arni.

- Yn olaf, ym mhennod 12, edrychwn ar argymhellion Comisiwn Thomas ynghylch diwygio cyfansoddiadol a llywodraethu'r system gyfiawnder, sut rydym wedi mynd i'r afael â’r rhai hynny sydd o fewn ein maes cyfrifoldeb ein hunain, a sut rydym yn gobeithio mynd i'r afael â'r gweddill drwy drafodaethau â Llywodraeth y DU ac eraill.

# Pennod 2: Ein Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

### 2.1 Dwyn cyfiawnder yn agosach at y bobl

Yn y papur hwn, amlinellwn bethau y gellir eu cyflawni yn ein barn ni hyd yn oed o fewn cyfyngiadau'r fframwaith cyfiawnder presennol. Dyma ein man cychwyn, oherwydd gellir eu cyflawni yn gyflymach nag unrhyw beth sy'n gofyn am newid cyfansoddiadol. Gyda'i gilydd, maent yn gwneud cyfraniad sylweddol at wella'r system gyfiawnder yng Nghymru. At hynny, mae pob un o'r mentrau hyn yn helpu i ddiffinio ac ymgorffori dull penodol o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru – dull sy'n canolbwyntio ar leihau troseddau, hyrwyddo adsefydlu, sicrhau bod mwy yn ufuddhau i'r gyfraith, gwella profiad dioddefwyr a thystion, helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd, hyrwyddo hawliau unigolion, ennyn mwy o hyder yn y system gyfiawnder, lleihau pwysau ar rannau o'r system gyfiawnder, a chyfrannu at system gyfiawnder decach, fwy hygyrch a mwy effeithlon. Mae'r ffordd Gymreig benodol honno o wneud pethau wedi'i hymgorffori fwyfwy ar draws y gwasanaethau gwahanol sy'n cael eu darparu yng Nghymru.

Eto i gyd bydd yr heriau mwyaf yn parhau. Tra bydd San Steffan yn parhau i reoli meysydd polisi cyfiawnder troseddol a'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o'r system gyfiawnder yn gweithredu, ni fydd byth yn gwbl gydnaws â'r ffordd y mae gwasanaethau datganoledig yn gweithredu. Bydd polisïau yn parhau i gael eu datblygu gan weinidogion sy'n canolbwyntio ar Loegr yn bennaf ac na fyddant yn gweddu i gyd-destun Cymru (yn groes i egwyddor sybsidiaredd, sy'n nodi y dylai penderfyniadau gael eu gwneud mor agos â phosibl i'r bobl y maent yn effeithio arnynt). Mae eisoes yn anodd ac yn llafurus i asiantaethau yng Nghymru ganfod ffyrdd o gysoni cyfarwyddiadau a pholisïau wedi'u cynllunio ar gyfer Lloegr â'r ffordd Gymreig o wneud pethau a drafodir uchod. Bydd hyn hyd yn oed yn anos dros amser, wrth i'r gyfraith ac ymarfer ddilyn trywydd fwyfwy gwahanol yn y ddwy wlad – canlyniad naturiol, dymunol ac anochel datganoli.

Disgwyliwn i'r materion hyn gael eu hystyried gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, fel rhan o'r sgwrs â'r genedl a ddechreuodd ar 31 Mawrth 2022.

Yn bwysicach na hynny, y gellid ei ddadlau, dangosodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas) yn ddiamau fod diffygion y cyfansoddiad yn cael canlyniadau ymarferol difrifol. Mae'r rheini yn amrywio o boblogaeth carchardai sy'n rhy fawr ac sy'n cynyddu, a'r costau cysylltiedig, i'r gostyngiadau sylweddol mewn cymorth cyfreithiol, y cyfraddau euogfarnu isel iawn mewn perthynas â throseddau rhywiol a'r oedi annerbyniol cyn bod rhai achosion yn cyrraedd y llys – mae hyn oll yn deillio i ryw raddau o'r diffyg sbardunau angenrheidiol yng Nghymru i fynd i'r afael â nhw. Ni allai casgliadau Comisiwn Thomas fod wedi bod yn gliriach:

- "Dylai polisi cyfiawnder, a gwariant ar gyfiawnder, fod yn gyson â pholisïau eraill, yn enwedig y rhai sydd wedi'u datganoli i Gymru, fel iechyd, addysg a lles cymdeithasol".
- "Dylai cyfiawnder gael ei bennu a'i gyflwyno yng Nghymru, er mwyn iddo fod yn gyson â'i pholisïau a'i gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg nodedig, sy'n datblygu, a'r swm cynyddol o gyfraith Cymru. Byddai gwaith polisi yn cael ei ddatblygu a byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i ddiwallu anghenion pobl Cymru, a sicrhau eu bod yn cael mwy o fudd."
- "Rydym yn fodlon y byddai'r gwaith o bennu polisi cyfiawnder, a'i gyflwyno, yng Nghymru, ar sail arweinyddiaeth dda ac atebolrwydd priodol, yn darparu system gyfiawnder lawer gwell sy'n canolbwyntio ar anghenion pobl Cymru. Byddai hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol at Gymru fwy cyfiawn, teg a ffyniannus."

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r dadansoddiad hwn. Mae er budd cyfiawnder, penderfyniadau da a chymunedau wedi'u grymuso bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan lunwyr polisi yng Nghymru, gan ystyried safbwyntiau a buddiannau trigolion a chymunedau Cymru. Am yr holl resymau hyn, mae'n anochel y caiff cyfiawnder ei ddatganoli i Gymru, a'r unig gwestiynau yw pryd a sut y bydd hynny'n digwydd. Nodwn hefyd y sylw gan Gomisiwn Thomas, "Wrth i gyfiawnder gael ei ddatganoli, mae'n rhaid i adnoddau ariannol ... gael eu trosglwyddo'n llawn", ac rydym yn ei gymeradwyo'n gryf. [1] Nodwn y pwysigrwydd a roddwyd ar hyn gan

[1]Argymhelliad 60 Comisiwn Thomas

Gymdeithas y Cyfreithwyr, a hynny'n gwbl gywir. [2]

## Covid-19, Cyfiawnder a Datganoli

Wrth i'r pandemig ddatblygu, gwelwyd gwahaniaethau rhwng polisïau a chyfreithiau Cymru a Lloegr. Adlewyrchodd hyn wahanol lefelau trosglwyddo yn y gymuned a ffactorau lleol eraill, megis cadernid y GIG. Wrth ddilyn trywydd a oedd yn benodol i Gymru er mwyn mynd i'r afael â'r pandemig, roedd y cyfyngiadau a'r cosbau cyfreithiol yn amrywio rhwng Cymru a Lloegr. I rai, roedd y graddau roedd y gyfraith yn amrywio yn annisgwyl.

Yn gryno, roedd gan Gymru gyfundrefn reoliadol wahanol â gwahanol droseddau a gwahanol gosbau. Hebddi, ni fyddai Llywodraeth Cymru wedi gallu cadw pobl Cymru mor ddiogel, drwy ymateb i amgylchiadau lleol.

Mae rhai wedi dadlau'n flaenorol na fyddai'r heddlu na'r cyhoedd yn gallu deall unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y gyfraith droseddol rhwng Cymru a Lloegr – y byddai'n rhy ddryslyd, ac na fyddai pobl yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol yng Nghymru yn unig. Os oedd y ddadl hon byth yn ddichonadwy, nid yw mwyach yn sgil Covid-19.

Drwy gydberthnasau gwaith cryf â heddluoedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru ac eraill, bu modd inni sicrhau bod swyddogion a oedd allan yn y gymuned yn gallu cael gafael ar ganllawiau clir ar reoliadau Cymru, a bod y broses o lunio polisïau, deddfwriaeth a chanllawiau wedi'i llywio gan brofiad yr heddlu. Aeth swyddogion yr heddlu ati i ymgysylltu â'r cyhoedd, egluro'r rheolau, ac annog cydymffurfiaeth, gyda gorfodi yn gam olaf pan fetho popeth arall. Rhoddir rhagor o fanylion am y ffordd y gwnaeth plismona a'r llywodraeth gydweithio ym mhennod 6.

Hefyd, bu'n rhaid i Wasanaeth Erlyn y Goron reoli'r broses o erlyn sawl trosedd wedi'i chreu o dan gyfraith Cymru, a bu angen i amddiffynwyr, Ynadon a'u cynghorwyr cyfreithiol i gyd fynd ati'n rheolaidd i ymgyfarwyddo â chyfreithiau wedi'u gwneud yng Nghymru – a gwnaethant lwyddo i wneud hynny'n amlwg.

Yn y cyfamser, bu'n rhaid i garchardai, llysoedd a lleoliadau eraill dod yn gyfarwydd â dilyn rheolau a chanllawiau Cymru ynghylch cadw pobl yn ddiogel ar eu safleoedd, wrth barhau i fod yn rhan o wasanaeth wedi'i redeg o Lundain ac yn gweithredu yn Lloegr yn bennaf.

Fodd bynnag, gwnaeth Covid-19 hefyd ddangos pa mor ddibynnol yw'r system ar gydberthnasau unigol. Er y lefel uchel o gyllid o ffynonellau yng Nghymru a'r angen amlwg, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol na strwythurol i'r heddlu nac asiantaethau'r system gyfiawnder gydweithio â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol na gwasanaethau iechyd, na chyfrannu at lunio polisïau i Gymru na chymryd rhan mewn unrhyw fforymau gweithredol yng Nghymru. Yn wir, mewn gwirionedd, nid oedd unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol ar lysoedd na charchardai Cymru i ddilyn y rheolau a oedd yn gymwys i bron pob cyflogwr a man cyhoeddus arall. Roeddem yn ffodus o ran y

### 2.2 Ymateb Llywodraeth y DU

Gwnaeth casgliadau pendant Comisiwn Thomas lywio'r maniffestos a luniwyd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021. Cafwyd mandad cryf i'r llywodraeth newydd fynd ar drywydd datganoli cyfiawnder a phlismona, a chafodd mwyafrif sylweddol o bleidleisiau eu bwrw dros ymgeiswyr a phleidiau a oedd o blaid datganoli. Felly, roedd ein rhaglen lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad clir i wneud hynny. [3]

Mae'n siomedig bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod prif argymhelliad Comisiwn Thomas, a hynny heb fawr ddim ystyriaeth i bob golwg. Fodd bynnag, ar ddechrau 2020, dywedodd y gweinidog cyfiawnder ar y pryd, Chris Philp, wrth Dŷ'r Cyffredin nad oedd Llywodraeth y DU yn bwriadu ymateb i adroddiad Comisiwn Thomas yn ffurfiol, ac “[it did] not agree with the conclusion that we should wholly devolve justice and create a Welsh jurisdiction”, ond “[it was] of course going to discuss in detail with the Welsh Government in Cardiff the issues that it raises”.[4] Er i drafodaethau o'r fath gael eu gohirio wedyn gan bandemig Covid-19, cafodd yr ymrwymiad hwnnw ei ailadrodd ar lafar ac yna'n ysgrifenedig gan yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd, Robert Buckland, a ysgrifennodd ym mis Gorffennaf 2021 “while the UK Government does not accept the report’s main recommendation of devolving justice to Wales, there are elements of the recommendations that I am keen to explore”.

Mae hefyd yn rhwystredig bod yr ymrwymiadau hyn i drafodaethau wedi bod yn araf i ddwyn ffrwyth. Ymatebodd y Prif Weinidog ym mis Awst 2021 yn croesawu'r ymrwymiad ac yn gofyn am gychwyn sgwrs. Hefyd amlinellodd fan cychwyn posibl ar gyfer trafodaethau a oedd yn parchu safbwynt Llywodraeth y DU ac, ar yr un pryd, yn ceisio sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru o waith trwyadl Comisiwn Thomas:

> “It is of course disappointing to us that before conversations have begun, you should reject the report’s central recommendation. Not only does that negate the evidence-led process which led to the recommendations being adopted, it also neglects to recognise that this government was recently re-elected on a manifesto which explicitly committed to pursuing the case for devolution of policing and justice; and indeed that there is a large majority in the Senedd,

[3] Y rhaglen lywodraethu

[4] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru - Hansard - Senedd y DU

as there was in the last Senedd, who support such devolution. We will of course continue to pursue that case, as our Programme for Government makes clear.

“Nevertheless, we have always recognised that this was likely to be your government’s position, and I hope this will not preclude us from having constructive and evidence-led discussions about individual recommendations within the report that include some elements of devolution without transferring responsibility for justice in its entirety. For example, the youth justice systemrequires reserved agencies to work so closely with devolved services, and the operating environment in Wales is so distinct, that irrespective of your broader position we would suggest it is hard to make any continuing case for it to be reserved. Devolution of youth justice was of course a recommendation of the Silk Commission.

“Probation services are another area where activities need to be closely aligned with devolved services, and in which the operating environment and applicable laws are very distinct. So while we believe the greatest benefits to Wales could be delivered by the wholesale devolution of justice and policing, and the opportunities that would afford for a fully joined-up approach, we would also see value in more focused discussions on particular elements of the system. I hope that you will feel able to engage in discussions along these lines, alongside conversations about improvements under the current settlement.”

Er gwaethaf pob cais gennym, ni ddechreuodd trafodaethau gweinidogol rhwng y ddwy lywodraeth tan 13 Rhagfyr 2021. Ar y dyddiad hwnnw gwnaeth y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol gyfarfod â'r Arglwydd Wolfson o Dredegar CF, sef Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cyfiawnder yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar y pryd. Yn y cyfarfod hwnnw cytunwyd y dylai swyddogion o'r ddwy lywodraeth edrych ar holl argymhellion Comisiwn Thomas nad oeddent yn ymwneud â throsglwyddo'r holl gyfrifoldeb am y system gyfiawnder, gyda'r nod o nodi'r argymhellion y gellid eu datblygu ar y cyd.

Bu trafodaethau rhwng swyddogion ers hynny, a chaiff rhai ohonynt eu hadlewyrchu mewn rhannau eraill o'r cyhoeddiad hwn (er enghraifft ar lunio data wedi'u dadgyfuno). Ymhlith y meysydd rydym wedi eu codi yn y trafodaethau hyn mae'r ffordd y mae'r system cyfiawnder ieuenctid yn gweithredu, oedran cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru, argymhellion ynghylch gwasanaethau crwneriaid, sefyllfa'r Gymraeg, a Llys Datrys Problemau peilot yng Nghymru. Cyfarfu gweinidogion o bryd i'w gilydd yn ystod y cyfnod hwn, hyd at ymddiswyddiad yr Arglwydd Wolfson ym mis Ebrill 2022. Ein gobaith o hyd yw y byddwn yn gallu gwneud ychydig o gynnydd drwy sgyrsiau ar lefel swyddogion a lefel gweinidogion, a thrwy gydymgysylltu â rhanddeiliaid. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu nid oes unrhyw beth wedi deillio o'r trafodaethau hyn – yn wir, rydym yn dal i aros i rywun gael ei benodi yn lle'r Arglwydd Wolfson.

### 2.3 Creu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

Fel y nodir uchod, rydym yn aros am ganlyniad trafodaethau â Llywodraeth y DU a byddwn yn dadlau o blaid trosglwyddo rhai swyddogaethau i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n ddigon ceisio sicrhau bod y trafodaethau hynny'n ailddechrau; rhaid inni hefyd baratoi'n fwy ar gyfer y newidiadau sydd i ddod. Byddwn yn gweithio gydag arbenigwyr, yn academyddion ac yn ymarferwyr, i adeiladu ar argymhellion Comisiwn Thomas a datblygu ac amlinellu sut y gallem sicrhau gwell canlyniadau i Gymru petai pwerau, a'r lefelau priodol o gyllid, yn cael eu trosglwyddo i sefydliadau democrataidd Cymru.

Fel y mae Comisiwn Thomas yn ei gydnabod, **mae'n bwysig bod ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cyfiawnder yn cael ei chydgynhyrchu ag arbenigwyr a'r rhai â phrofiadau bywyd; yn enwedig y rhai a gaiff eu clywed leiaf yn aml**. Nid oes gan weinidogion na swyddogion llywodraeth fonopoli o ran arbenigedd byth, ond mae hyn yn arbennig o wir wrth fynd ati i ddarparu gwasanaethau a ddarparwyd gan eraill gynt. Felly rydym yn bwriadu mynd ati i greu'r weledigaeth hon ar y cyd. Mae hyn yn gyson â'r dull a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy sy'n rhan hanfodol o sut y disgwylir i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithredu. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio a byddem yn eu dilyn wrth gynllunio unrhyw newidiadau i weinyddu cyfiawnder.




Bydd y broses o greu'r weledigaeth hefyd yn digwydd fesul cam. O ystyried nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn cyllid am weinyddu cyfiawnder, mae ein gallu i ystyried sut y byddai pob agwedd ar y system yn gweithio'n ddelfrydol yn gyfyngedig. Hefyd, ni allwn ddisgwyl i randdeiliaid ymgysylltu ar bob cwestiwn ar yr un pryd. Felly, yn ein barn ni, nid un digwyddiad fydd diwygio'r system gyfiawnder yng Nghymru; yn hytrach, bydd yn broses o newid dros amser, gan flaenoriaethu'r meysydd hynny lle gallwn wella canlyniadau i bobl Cymru fwyaf.

Ar hyn o bryd, serch hynny, gallwn amlinellu rhai o elfennau craidd ein dull o gynllunio system gyfiawnder ddatganoledig. Caiff y rhain eu llywio gan nifer o ddarnau blaenorol pwysig o waith, megis gwaith cyn-Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru; gwaith Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd; ac wrth gwrs Gomisiwn Thomas a nododd gyfres o egwyddorion yn sail i'w waith yn ei gais cychwynnol am dystiolaeth gan ddefnyddio

hyn wedyn yn ei adroddiad.[5] [6]

Wrth oruchwylio system gyfiawnder ddatganoledig i Gymru, byddem yn:

1. Cynnal Rheolaeth y Gyfraith bob amser, gan sicrhau nad oes neb uwchlaw'r gyfraith
2. Gwarantu mynediad i gyfiawnder a diogelu hawliau unigol dinasyddion, gan gynnwys sicrhau iawn ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr troseddau
3. Gweithio i wella profiad dioddefwyr, tystion a goroeswyr pan fyddant yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder, gan gynnwys drwy adeiladu ar y profiad o ddarparu safleoedd tystiolaeth o bell
4. Cefnogi cymunedau mwy diogel a sicrhau bod mynediad i gyfiawnder ar gael i bawb, gan gynnwys drwy roi llais amlwg o fewn y system gyfiawnder i bobl hŷn ac i bobl anabl
5. Gweithio gyda’r bobl ddewr, ymroddedig a gweithgar sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, a’u cefnogi
6. Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau wrth ddeddfu a llunio polisïau, a mynd ati i ehangu'r gwaith o ymgorffori safonau hawliau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol mewn cyfraith ddomestig
7. Rhoi'r flaenoriaeth uchaf i fynd i'r afael â'r argyfwng cenedlaethol o drais gan ddynion yn erbyn menywod, a'r lefelau syfrdanol o isel o euogfarnau am dreisio ac ymosodiadau rhywiol
8. Parhau i weithio dros Gymru sy’n wrth-hiliol ac ymdrechu i ddileu'r profiadau a'r canlyniadau anghyfartal rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol ac ethnig yn y system cyfiawnder troseddol

[5] Administrative justice: A cornerstone of social justice in Wales, t45

[6] Gweler er enghraifft Justice in Wales: Principles, progress and next steps

Wrth oruchwylio system gyfiawnder ddatganoledig i Gymru, byddem yn:

9. Mabwysiadu dull rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth lunio polisïau, ar y cyd ag arbenigwyr, ymarferwyr a'r rhai yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau arfaethedig

10. Canolbwyntio ar atal, a hynny'n seiliedig ar ein dealltwriaeth mai dim ond drwy sicrhau cyfiawnder cymdeithasol y gallwn fynd i'r afael o ddifrif â'r rhesymau sylfaenol dros y pwysau sydd ar y system gyfiawnder

11. Gweithio i leihau maint poblogaeth carchardai drwy leihau'n sylweddol y defnydd o ddedfrydau byr, y dangoswyd eu bod yn wrthgynhyrchiol, a mynd ar drywydd dewisiadau eraill yn lle carchar pan fo'n briodol, megis rhaglenni i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a chymorth gyda thriniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol

12. Sicrhau bod yr holl arferion ar draws y system yn ystyriol o drawma, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o effaith bosibl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ddyfodol unigolyn

13. Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y system gyfiawnder, gan weithio i sicrhau y gellir cynnal yr holl weithgarwch o fewn y system gyfiawnder yn Gymraeg

14. Hyrwyddo Cymru fel lle i ddarparwyr gwasanaethau cyfreithiol fyw a gweithio ynddo, a gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cyfraith Cymru i gefnogi cynaliadwyedd proffesiynau cyfreithiol Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ôl-ddiwydiannol

15. Parhau i gyfranogi mewn trefniadau Cymru a Lloegr, Prydain gyfan, y DU gyfan, trefniadau Ewropeaidd a threfniadau rhyngwladol, pan fo hynny er budd pawb

***ENGHRAIFFT 1:*** "Byddwn yn parhau i gyfranogi mewn trefniadau Cymru a Lloegr, Prydain gyfan, y DU gyfan, trefniadau Ewropeaidd a threfniadau rhyngwladol, pan fo hynny er budd pawb."

Mewn system gyfiawnder ddatganoledig, mae meysydd amlwg lle mae er budd pawb i weithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, argymhellodd Comisiwn Thomas y dylai'r system bresennol, lle y gall ymarferwyr cyfreithiol ymarfer yng Nghymru a Lloegr a lle mae'r proffesiynau cyfreithiol yn cael eu rheoleiddio ar y cyd, barhau.

Cytunwn â hyn. Nid oes rheswm da dros ei gwneud yn ofynnol i gyfreithwyr ennill cymwysterau gwahanol i ymarfer yng Nghymru, na chreu cyrff rheoleiddio newydd.

Yn yr un modd, pe bai awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru â llysoedd i Gymru, ni fyddai angen – ac ni fyddai'n ymarferol – recriwtio barnwriaeth newydd i Gymru, nac ei gwneud yn ofynnol i bob barnwr presennol weithio yn llysoedd Lloegr neu yn llysoedd Cymru yn unig. Byddai'r barnwyr presennol yn dod yn farnwyr Llysoedd Cymru a Llysoedd Lloegr, a byddent yn eistedd fel un neu'r llall yn dibynnu ar darddiad yr achos dan sylw.

Yn yr un modd, nid oes rheswm egwyddorol pam y dylai datganoli atal Cymru rhag optio i mewn i gyrff y DU neu Brydain Fawr, megis yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol neu'r Swyddfa Twyll Difrifol. Ymhlith buddiannau posibl gwneud hynny mae arbedion maint, natur drawsffiniol rhai heriau, a chael gafael ar arbenigwyr na fyddent ar gael yng Nghymru yn unig o bosibl. Fodd bynnag, gall buddiannau gweithredu ar sail Cymru yn unig gynnwys cysondeb â meysydd polisi eraill yng Nghymru, y gallu i ystyried ffactorau lleol, ac atebolrwydd.

Yn olaf, ni fyddai datganoli yn atal Cymru rhag bod yn rhan o fecanweithiau cydweithredu Ewropeaidd na rhyngwladol, fel y mae'r Alban yn ei wneud nawr er enghraifft.

Mae'r rhain yn enghreifftiau o'r mathau o faterion rydym yn gobeithio eu hystyried mewn partneriaeth ag arbenigwyr yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

### 2.4 Rhannu barn am ein gweledigaeth

Croesawn unrhyw sylwadau ysgrifenedig am yr elfennau craidd hyn o system gyfiawnder ddatganoledig, gan gynnwys:

- a ydynt wedi cael eu llunio'n gywir
- a oes elfennau ychwanegol pwysig a ddylai gael eu hadlewyrchu
- beth yw rhai o'u goblygiadau ymarferol posibl

Fodd bynnag, dim ond y cam diweddaraf yw hwn mewn sgwrs a fydd angen parhau i ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, wrth i sefydliadau datganoledig yng Nghymru gael mwy a mwy o gyfrifoldebau. Yn arbennig, rydym yn bwriadu ysgogi trafodaeth mewn amrywiaeth o wahanol fforymau ynghylch goblygiadau ymarferol pob elfen sydd wedi'i nodi, er mwyn sicrhau ein bod yn fwy parod. Byddwn yn defnyddio fforymau sy'n bodoli eisoes i gynnal trafodaethau, ond rydym hefyd yn bwriadu trefnu digwyddiadau bord gron a defnyddio dulliau eraill i gyrraedd y grŵp mawr ac amrywiol o bobl y mae diwygiadau yn effeithio arnynt, fel bod eu profiadau bywyd yn rhan o'r system gyfiawnder.

Croesawn eich sylwadau ynghylch elfennau arfaethedig system gyfiawnder ddatganoledig a nodir uchod drwy:

**E-bost:** justicepolicy@llyw.cymru

**Post:** Yr Adran Polisi Cyfiawnder
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol â neb arall.
Gweler Hysbysiad Preifatrwydd Llywodraeth Cymru am ragor o wybodaeth.

### 2.5 Dull seiliedig ar dystiolaeth

Fel y nodwyd yn ein helfennau craidd o system gyfiawnder ddatganoledig, mae'n hanfodol bod y gwaith o lunio polisïau yn cael ei lywio gan dystiolaeth, ynghyd â phrofiadau bywyd pobl y mae polisi yn debygol o effeithio arnynt neu wedi effeithio

arnynt. Mae hynny yn ei dro yn gofyn am weithio'n agos gydag arbenigwyr (gan gynnwys academyddion ac ymarferwyr), ac mae hefyd yn gofyn am y data diweddaraf, asesiad effaith a gwerthusiad.

### Asesiad effaith a gwerthusiad

Mae asesiad effaith yn ffordd strwythuredig o ystyried y ffactorau sy'n golygu bod ein polisïau yn effeithio ar fywydau gwahanol bobl mewn ffyrdd gwahanol. O'i wneud yn dda, mae asesiad effaith yn helpu llunwyr polisi i lunio gwell polisïau, a'u rhoi ar waith yn well, ac mae'n dynodi meysydd na fyddent wedi eu hystyried fel arall o bosibl. Mae hefyd yn annog ac yn helpu llunwyr polisi i gasglu tystiolaeth sy'n bodoli eisoes ac, os oes angen, geisio rhagor o dystiolaeth, er mwyn gwella'r gwaith o ddatblygu polisi neu gynllun cyflawni, neu lywio newid cyfeiriad o ran polisi neu'r ffordd y caiff ei roi ar waith.

Ystyriwn fod arfarnu effaith – boed yn gadarnhaol neu'n negyddol – yn rhan hanfodol o ddatblygu polisi neu lunio cynlluniau cyflawni sy'n cael yr effaith fwyaf posibl. O'r camau cynharaf, cânt eu datblygu gyda'r nod o sicrhau'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol mwyaf posibl – nid dim ond nawr, ond yn yr hirdymor. Mae asesiad effaith yn ein helpu i dargedu adnoddau fwyfwy prin at y camau gweithredu a gaiff yr effaith fwyaf ar lesiant.

Mae asesiad effaith da hefyd yn cynnwys gwrando ar ddinasyddion a dangos yn glir eu bod wedi cael eu clywed. Gwyddom fod gan rai cymunedau amheuon am asesiadau effaith ac a ydynt yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisïau mewn gwirionedd, y mae angen inni ei ddangos. Hefyd, mae nifer o argymhellion sy'n ymwneud ag atgyfnerthu asesiadau effaith yn yr adroddiad a arweiniwyd gan Brifysgol Abertawe ar Gryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, a drafodir ym mhennod 4.

Nid oes gan y papur hwn ei hun Asesiad Effaith Integredig atodedig. Fodd bynnag, mae'n adlewyrchu synthesis o feysydd polisi ar wahân, a ystyrir gan weinidogion drwy'r Cabinet a'i is-bwyllgorau, a chaiff effeithiau eu hasesu ar y camau priodol. Er enghraifft, nododd Asesiad Effaith Integredig Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 y digwyddiadau cyn ymgynghori ac ymgynghori ffurfiol a gynhaliwyd a'r effaith ddisgwyliedig, yn ogystal â sut y byddai

cynnydd yn cael ei fonitro a'i werthuso.  Enghraifft arall yw'r Asesiad Effaith Integredig a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol drafft.

Yn ystod y cylch oes polisi, mae hefyd yn bwysig mesur effeithiau wrth iddynt ddigwydd, a myfyrio ar y gwersi y gellir eu dysgu. Felly mae ymgorffori proses myfyrio ac adolygu barhaus, yn ogystal â gwerthusiad terfynol, wrth gynllunio polisïau o'r dechrau'n deg yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y seilwaith ar waith i'n galluogi i fesur effeithlonrwydd y broses o roi polisi ar waith a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud. Unwaith eto, ceir enghreifftiau o gynnal gwerthusiadau yn y meysydd polisi unigol a drafodir yn y papur hwn. Er enghraifft, gwnaeth y gwerthusiad tair blynedd o raglen Teuluoedd yn Gyntaf lywio'r broses o barhau i'w chyflwyno drwy edrych ar y gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â'i rhoi ar waith a'r hyn sy'n gweithio orau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i deuluoedd, ac mae disgwyl i adroddiad ar werthusiad o gynllun peilot Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd gael ei gyflwyno ym mis Awst 2022.

### Data

Fodd bynnag, mae set benodol o heriau sydd ynghlwm wrth asesiadau effaith a gwerthusiadau yng nghyd-destun cyfiawnder, sy'n deillio o natur gymhleth y system gyfiawnder yn gyffredinol, a rhannu cyfrifoldebau rhwng awdurdodau datganoledig ac awdurdodau a gedwir yn ôl yng Nghymru yn arbennig.

Mae'n hanfodol gweld data cyfiawnder wedi'u dadgyfuno ar gyfer Cymru wrth asesu perfformiad y system gyfiawnder, cynllunio polisïau a darparu gwasanaethau datganoledig effeithiol. Mae cael darlun tryloyw ac amserol o sut mae'r system gyfiawnder yn gweithio yng Nghymru yn amlwg er budd y cyhoedd, fel sy'n wir am ymddiriedaeth yn y data a'r patrymau sy'n dod i'r amlwg.

Mae elfennau o ddata cyfiawnder ar gael drwy borth Llywodraeth y DU , ond nid yw'r holl ddata hyn wedi'u dadgyfuno i Gymru. Croesawn y fersiwn gyntaf o gardiau sgorio Cyfiawnder Troseddol newydd Llywodraeth y DU sy'n rhoi gwybodaeth ar lefel ardaloedd heddlu unigol, a chytundeb Cymru gyfan ynghylch set ddata ar achosion o dreisio a throseddau rhywiol difrifol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n sefydliadau partner, gan gynnwys y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i hasiantaethau, i ddatblygu ein hanghenion data pellach, ac rydym yn parhau'n ddiolchgar am eu cydweithrediad

adeiladol parhaus. Hefyd, rydym yn adolygu'r data a gesglir gan awdurdodau datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Rydym yn awr yn ceisio creu darlun canolog a systematig o'r data ar gyfiawnder sydd eu hangen arnom yn Llywodraeth Cymru, fel ein bod yn gallu llunio cais cydlynol a chynhwysfawr i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU. Rydym wedi nodi dau angen cyffredinol o ran data:

- data sydd eu hangen ar adrannau polisi Llywodraeth Cymru i gynllunio a darparu gwasanaethau, a datblygu polisïau o dan y trefniadau presennol
- data sydd eu hangen i feithrin gwell dealltwriaeth o'r system a galluogi pobl Cymru, y Senedd, academyddion a chymdeithas sifil i ddeall yr angen a datblygu'r achos dros welliannau a diwygiadau pellach

Mae swyddogion yn cynnal ymarfer mapio sy'n cwmpasu'r ddau faes, ond sydd eto'n glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng y ddau.Bydd hyn yn heriol ac rydym yn ymrwymedig i weithio ar draws meysydd i lunio map hollgynhwysfawr o'n hanghenion data. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu yn ystod 2022/2023 a disgwyliwn adeiladu arno dros amser wrth i anghenion newydd gael eu nodi.

Wrth inni weithio i wella'r setiau data a ddefnyddiwn at ddibenion llunio polisïau, byddwn hefyd yn ceisio sicrhau bod data sy'n bodoli eisoes ar y system gyfiawnder yng Nghymru yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Rydym yn ystyried y ffyrdd gorau o dynnu sylw at yr wybodaeth hon, megis cyhoeddi ein dangosfyrddau mewnol a dwyn ynghyd wybodaeth am ffynonellau sy'n bodoli eisoes mewn un man cyfleus. Bydd hyn yn galluogi pobl Cymru i graffu ar Lywodraeth Cymru a'r elfennau eraill o'r system gyfiawnder o ran y ffordd y maent yn gweithio ar wahân a chyda'i gilydd.

Hefyd, rydym yn cryfhau ein gallu mewnol mewn meysydd allweddol. Ym mis Ionawr 2022, gwnaethom sefydlu tair uned wahanol, sydd â'u rhaglen dystiolaeth a'u harweinydd eu hunain.

- Yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil
- Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd

Bydd yr unedau yn gweithio ar draws pob maes polisi, gan gynnwys cyfiawnder, er mwyn gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth cydraddoldeb. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall yn llawn y lefelau a'r mathau o anghydraddoldebau a geir ledled Cymru, a bydd yn galluogi'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau i ddatblygu polisïau mwy cadarn ac asesu a mesur eu heffaith.

Yn olaf, er ei bod yn bwysig asesu effaith a gwerthuso rhaglenni polisi unigol, mae hefyd yn bwysig mesur effeithiolrwydd systemau cyfiawnder o ran cyflawni eu hamcanion yn gyffredinol. Ym mis Rhagfyr 2021 gwnaethom gyhoeddi set fwy diweddar o ddangosyddion cenedlaethol a ddefnyddir gennym i fesur hynt Cymru tuag at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig – yn arbennig Nod 16 sy'n ymwneud â “Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf” – yn cydnabod bod mynediad teg at gyfiawnder yn agwedd bwysig ar lesiant. Yn unol â hynny, byddwn bellach yn mesur yn erbyn dangosydd cenedlaethol ynghylch hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Ceir rhagor o fanylion am y broses o fesur hyn maes o law, ond bydd yn darparu meincnod inni geisio sicrhau gwelliannau.

# Pennod 3: Gwaith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Rhaid lleihau'r pwysau ar y system gyfiawnder. Heb newid y broses gyllido'n sylweddol, nid oes ffordd amgen o gyflawni'r gwelliannau cynaliadwy sydd eu hangen ar y system. Ond yn bwysicach na hynny, a bron yn anochel pan ddaw unigolyn i gysylltiad â'r system gyfiawnder, mae'n adlewyrchu bod rhywbeth wedi mynd o'i le (boed hynny'n cyflawni trosedd, teulu yn chwalu, achos o droi allan, neu anghydfod na ellir ei gyfryngu). Yna gall dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder ei hun achosi straen ychwanegol, aildrawmateiddio a niwed i unigolion a'u teuluoedd. Gallai'r fath straen gael effeithiau hirdymor na ellir eu gwrthdroi.

Ni waeth ym mha ran o'r system gyfiawnder y maent yn gweithio, mae llunwyr polisi yn aml (ac yn gywir) yn gofyn sut i leddfu'r pwysau ar y rhan honno o'r system. Mae sawl menter ar waith i leihau achosion uniongyrchol y fath bwysau, a nodir ambell un mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon. Ymhlith yr enghreifftiau mae hyrwyddo gwasanaethau cyfryngu neu gyflafareddu fel nad yw anghydfodau yn cyrraedd y llysoedd sifil, cymryd camau i gefnogi rhieni sy'n gwahanu a lleihau llwyth gwaith y llys teulu, neu ddiwygio'r system rhybuddiadau er mwyn lleihau'r pwysau ar lysoedd troseddol, erlynwyr, carchardai a gwasanaethau prawf.

Mae'r mesurau hyn yn werth chweil: ond mae'r llwybr tuag at leihau troseddau mewn ffordd gynaliadwy, ynghyd â'r pwysau eraill ar y system gyfiawnder, yn dechrau yn llawer ymhellach yn ôl ym mywydau pobl.

Ein cenhadaeth yw gweinyddu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru. Mae a wnelo gweinyddu cyfiawnder cymdeithasol â mynd i'r afael â heriau mwyaf cymdeithas, gan gynnwys tlodi, anghydraddoldeb rhwng cenedlaethau, a chreu cymunedau cydlynus a goddefol. Mae'n golygu trechu casineb, casineb at fenywod a gwahaniaethu, nid dim ond pan fyddant yn arwain at droseddu neu'n achosion eraill o dorri'r gyfraith, ond drwy addysg, esboniadau a chreu cymdeithas lle gall pawb ffynnu ni waeth beth fo'u cefndir.

Yn arbennig, mae cyfiawnder cymdeithasol yn golygu canolbwyntio ar flynyddoedd mwyaf ffurfiannol bywydau pobl, sef y blynyddoedd cynnar, drwy ymyrryd yn gynnar;

mae'n golygu cymryd camau i drechu'r anghydraddoldebau cymdeithasol a strwythurol a all esgor ar adfyd a gwahaniaethu; ac mae'n golygu ymateb yn gyflym ac yn gynhwysfawr lle bynnag y bo modd i drawma yn ystod plentyndod a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc diweddar yn amlinellu ein blaenoriaethau trawslywodraethol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc.

Yn y bennod hon ceir rhai enghreifftiau o'r gweithgareddau rydym ni a'n partneriaid wedi'u cyflawni, ac y byddwn yn parhau i'w cyflawni, er mwyn cymryd camau ymyrryd yn gynnar effeithiol a chreu gwasanaethau cyhoeddus ymatebol sy’n ystyriol o drawma. Eto i gyd, ni all roi darlun cynhwysfawr o'r gweithgareddau sy'n lleihau pwysau ar y system gyfiawnder, oherwydd dylai cynifer o weithgareddau gyfrannu at hyn, o ystyried ein ffocws cyffredinol ar drechu anghyfiawnder economaidd-gymdeithasol sy'n llywio ein dull o ymdrin â gofal iechyd, addysg, tai a gofal cymdeithasol, ymhlith llawer o feysydd eraill o gyfrifoldeb.

Am y rhesymau hyn, ni chredwn ei bod yn bosibl nac yn ddymunol i wahanu elfen o waith fel “gweithgareddau atal”; yn hytrach, mae mynd i'r afael ag achosion sylfaenol y pwysau sydd ar y system gyfiawnder wrth wraidd popeth a wnawn. Dros ddau ddegawd datganoli, rydym wedi ceisio creu amgylchedd lle mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn cydweithio i ateb yr heriau mawr hirdymor hynny – dull a fydd, rydym yn gobeithio ac yn credu, yn talu ar ei ganfed mewn degawdau i ddod.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. Cafodd ei chyflwyno i lywio dyfodol Cymru, a gwella ei hiechyd a'i llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf yn cydnabod y ffaith bod Cymru yn wynebu nifer o heriau anodd nawr ac yn y dyfodol, megis mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, tlodi ac anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol. Mae'n rhoi diben cyffredin cyfreithiol rwymol – y saith nod llesiant – i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Mae hefyd yn nodi'r ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a chydweithio, er mwyn gwella llesiant Cymru, yn ogystal â chreu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i oruchwylio cynnydd.

Mae athroniaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn amlwg wrth weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2021. Nod cyffredinol y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gyda'i gilydd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau rhag codi, gan gynnwys cyswllt â'r system gyfiawnder yng Nghymru, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig. Mae'r gweithgareddau a amlinellir yn y rhan hon yn enghreifftiau o'r ffordd y mae'r dull hwn wedi'i adlewyrchu'n ymarferol.




**3.1 Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod**

Mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn cyfeirio at brofiadau neu amgylchiadau llawn straen yn ystod plentyndod, a all gael effaith niweidiol ar ganlyniadau iechyd a chanlyniadau cymdeithasol drwy gydol bywyd. Ymhlith y profiadau hyn mae camdriniaeth (cam-drin corfforol, rhywiol a geiriol ac esgeulustod corfforol ac emosiynol) a phrofiadau ehangach aelwyd sydd ar chwâl (tyfu i fyny ar aelwyd lle ceir trais domestig, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, neu lle mae'r rhieni wedi gwahanu neu lle mae rhiant yn y carchar).

Nododd yr astudiaeth gyntaf o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yng Nghymru fod tua hanner yr oedolion yng Nghymru (47%) wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentyndod, a bod un o bob saith (14%) wedi cael pedwar neu ragor, yn

2015.[7] Fodd bynnag, mae hefyd yn dangos y gall nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fod yn llawer uwch mewn rhai rhannau o gymdeithas, megis y rhai sydd wedi cael profiad uniongyrchol o fod yn ddigartref neu sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.[8] [9] Er enghraifft, nododd ymchwil â charcharorion yng ngharchar Parc fod bron hanner wedi cael pedwar neu ragor o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ac roedd trais domestig yn arbennig yn gyffredin iawn adeg plentyndod. Dengys yr ymchwil fod y rhai â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o wynebu risg o ddatblygu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd ac sy'n wrthgymdeithasol yn ystod y glasoed. Yn ogystal â'r gost gymdeithasol i'r unigolyn a'i deulu, mae ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod hefyd yn cynyddu'r baich ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn y system gyfiawnder.

Gall tyfu i fyny yn wyneb gwahaniaethu, trais yn y gymuned, a thlodi hefyd gynyddu'r risg o adfyd yn ystod plentyndod – yn enwedig yn absenoldeb ffactorau amddiffynnol sicr megis cymuned gynhwysol, oedolyn yr ymddiriedir ynddo, cefnogaeth emosiynol, a gallu rheoli eich ffawd i blant. Fodd bynnag, mae'r gydberthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau gwaeth yn gysylltiol, nid yn benderfyniaethol. Nid yw canlyniadau gwaeth yn anochel, a gellir lliniaru'r risgiau os darperir y cymorth iawn a bod ffactorau amddiffynnol ar waith, ac y caiff y rhain eu darparu cyn gynted â phosibl.

Yn ystod tymor diwethaf y Senedd gwnaethom flaenoriaethu camau gweithredu i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac i liniaru eu heffaith drwy ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Nid yw'r papur hwn yn ceisio rhestru'r holl gamau gweithredu a allai atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a ffynonellau eraill o adfyd yn ystod plentyndod, ond ceir sawl elfen yn ein Cynllun Plant a Phobl Ifanc diweddar.

[7] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2016) – Astudiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod

[8] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) - Lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau personol o ddigartrefedd a niwed yng Nghymru: llywio gwaith atal ac ymateb

[9] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) – Deall cyfraddau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) ymysg poblogaeth o droseddwyr gwrywaidd yng Nghymru: Arolwg ACEs Carcharorion

Wrth geisio dysgu mwy am bwysigrwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod drwy liniaru eu heffeithiau lle bynnag y bo modd, gwnaethom gefnogi'r gwaith o sefydlu Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod i Gymru, fel canolfan gwybodaeth ac arbenigedd a allai helpu gwasanaethau yng Nghymru i ddod yn ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn ystyriol o drawma. Ers 2017 rydym wedi darparu £2.6 miliwn o gyllid i gynorthwyo Canolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Cymru i gyflawni ei raglen. Mae'r Ganolfan wedi datblygu ac wedi cyflawni rhaglen eang o hyfforddiant ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac mae wedi gweithio gydag amrywiaeth o sectorau i gyd-gynhyrchu deunyddiau sy'n benodol i'w gwasanaethau. Yn eu plith mae addysg, iechyd a gwasanaethau tai, yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Gan adeiladu ar y profiad sector-benodol hwn, mae'r Ganolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod hefyd bellach wedi creu adnodd hunanasesu ar gyfer sefydliadau sy’n ystyriol o drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, sef Pecyn cymorth TrACE. Ei nod yw helpu sefydliadau i ymgorffori ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ymarfer sy’n ystyriol o drawma.

Rydym wedi cytuno i barhau i ariannu'r Ganolfan tan o leiaf 2025.

## Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf

Cafodd Dechrau'n Deg ei lansio yn 2006. Nod y rhaglen blynyddoedd cynnar hon sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol yw gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant 4 oed neu'n iau mewn ardaloedd difreintiedig o Gymru. Mae'n cynnwys pedair elfen graidd: gofal plant o ansawdd uchel a ariennir yn llawn; cymorth rhianta; cymorth dwys gan ymwelydd iechyd; a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Er na chafodd Dechrau'n Deg ei thargedu'n benodol at atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, dyma un o fuddiannau cymorth i rieni. Mae mynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn plentyndod cynnar hefyd yn enghraifft o weithgarwch sy'n debygol o gael effaith gadarnhaol ar y system gyfiawnder, oherwydd mae astudiaethau wedi awgrymu y gall fod gan hyd at 60% o'r bobl ifanc yn yr Ystad Cyfiawnder Ieuenctid anghenion o'r fath.

Ar hyn o bryd, mae 36,000 o blant o dan bedair oed sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn cael budd o'r rhaglen. O fis Medi 2022, defnyddir £20 miliwn ychwanegol o gyllid i ehangu rhaglen Dechrau'n Deg er mwyn cyrraedd hyd at 25,000 yn rhagor o blant.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen ar wahân a gynlluniwyd i ddatblygu cylchoedd rhyng-genedlaethol o rianta, cydberthnasau ac ymddygiad cadarnhaol. Mae'r rhaglen yn hyrwyddo gwaith amlasiantaethol er mwyn sicrhau bod teuluoedd yn cael cymorth di-dor pan fo ei angen arnynt, sef dull 'Tîm o Amgylch y Teulu'. Bwriad y rhaglen yw darparu gwasanaethau sy'n helpu i atal Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ogystal â helpu i liniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y rhai sydd eisoes wedi wynebu hynny.

Disgwylir i awdurdodau lleol gomisiynu nifer bach o brosiectau strategol sydd â chyswllt clir ac amlwg ag asesiadau o anghenion yn seiliedig ar gymunedau, ac sydd â ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae awdurdodau lleol yn amrywio o ran y mathau o gymorth y maent yn eu comisiynu a faint o arian a fuddsoddir yn elfennau amrywiol rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf.

Cyn cyflwyno'r Grant Plant a Chymunedau ym mis Ebrill 2019, cafodd Teuluoedd yn Gyntaf swm blynyddol penodedig o £37.6 miliwn yn 2018-19.

Ers mis Ebrill 2019, mae Teuluoedd yn Gyntaf wedi bod yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau ehangach, sef cronfa hyblyg sy'n cwmpasu saith rhaglen atal ac ymyrryd yn gynnar. Roedd y grant hwn yn werth £150 miliwn yn 2021-22.

### 3.2 Dull ystyriol o drawma

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer ein polisi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Roedd yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ochr yn ochr â fframwaith ymarfer cenedlaethol newydd sy’n ystyriol o drawma, wedi'i lunio ar y cyd gan Ganolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Straen Trawmatig Cymru. Disgwylir i'r ddau gael eu cyhoeddi yn haf 2022. Rydym hefyd yn ymrwymedig i ddysgu o'r astudiaeth wedi'i harwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o'r hyn sy'n gweithio ar lefel gymunedol i leihau nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a lliniaru eu heffaith.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gwneud gwaith i ddilyn trywydd sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac yn ystyriol o drawma mewn perthynas â pholisïau newydd a pholisïau sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys datblygu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a Glasbrint Troseddwyr Benywaidd, a drafodir ym mhennod 8. Mae'r ddau lasbrint yn ceisio mabwysiadu dull ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ac ystyriol o drawma, ac maent yn rhoi pwyslais ar yr angen i wasanaethau ganolbwyntio ar wasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar, a all helpu i leihau nifer y troseddwyr ifanc a'r menywod sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu'r system Rheoli Achosion Uwch ar gyfer troseddwyr ifanc yn helpu i deilwra a dilyniannu ymyriadau yn fwy effeithiol, yn unol ag anghenion datblygiadol ac iechyd meddwl pobl ifanc unigol, a chan gydnabod digwyddiadau trawmatig ac andwyol y maent wedi'u profi. Mae'r dull hwn wedi esgor ar ganlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc sy'n troseddu. Defnyddir gwersi a ddysgwyd o'r system Rheoli Achosion Uwch i helpu i lywio gwasanaethau o dan y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd, gyda phwyslais ar ddulliau ystyriol o drawma a chamau atal ac ymyrryd yn gynnar ar gyfer y rhai y nodir eu bod yn wynebu risg o ddod yn rhan o'r system gyfiawnder.[10]

---

[10]Caiff gwerthusiad 2017 o'r system Rheoli Achosion Uwch ei gymharu â gwerthusiad 2021 er mwyn helpu i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

Hefyd rydym wedi gweithio'n agos gyda gwasanaethau sy'n gweithio yn y system gyfiawnder, er mwyn helpu i gyflwyno'r Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd. Ceisiodd y rhaglen hon newid y ffordd o blismona bod yn agored i niwed yng Nghymru drwy gymhwyso "safbwynt profiadau niweidiol yn ystod plentyndod". Mabwysiadodd ddull amlasiantaethol, gyda'r pedwar heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, y trydydd sector ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydweithredu (ac yn defnyddio cyllid y Swyddfa Gartref) i ddatblygu a chymryd camau iechyd y cyhoedd i blismona bod yn agored i niwed.

Mae'r rhaglen hon wedi torri tir newydd wrth gymhwyso egwyddorion iechyd y cyhoedd at blismona a chyfiawnder troseddol. Erbyn i'r rhaglen ddod i ben ym mis Mawrth 2020, roedd bron 6,500 o swyddogion yr heddlu a staff o sefydliadau partner wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Wrth werthuso'r rhaglen nodwyd bod mwy o gydweithredu ac integreiddio ar draws gwasanaethau, gyda llwybrau cliriach i rannu gwybodaeth. Mae gwaith yn parhau i sicrhau gwaddol y rhaglen.

**3.3 Diogelu hawliau plant**

Mae diogelu hawliau plant yn un arall o gonglfeini cyflawni cyfiawnder cymdeithasol. Fel llywodraeth credwn y dylai plant a phobl ifanc gael eu trin yn wahanol i oedolion. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb hyd at 18 oed yn cael yr hawliau sylfaenol i fod yn ddiogel, i chwarae, i gael addysg, i fod yn iach ac i fod yn hapus.

Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisïau. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod pobl yng Nghymru yn gwybod am hawliau plant a phobl ifanc, yn eu deall ac yn eu parchu fel y'u hamlinellir yn Erthygl 42 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Er mwyn sicrhau bod gweinidogion yn cael cefnogaeth i gyflawni'r ddyletswydd hon, rydym wedi datblygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a ddylai gael ei ddefnyddio i gefnogi pob penderfyniad a allai neu a fydd yn effeithio ar blant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd sefydlu swydd Comisiynydd Plant Cymru i gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau ac edrych ar sut mae penderfyniadau cyrff

cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar hawliau plant.

Amlinellir rhai o gymwysiadau ymarferol dull plant yn gyntaf seiliedig ar hawliau o'r fath ym mhenodau 4 a 7 wrth ystyried y systemau cyfiawnder teuluol a chyfiawnder ieuenctid. Yn y bôn, mae'r dull yn golygu cydnabod yr ymddygiadau niweidiol a welir ymhlith rhai plant, a derbyn y dylai plant gael eu trin yn wahanol o ran cyfiawnder. Yn achos plant ag ymddygiadau niweidiol, mae'n hollbwysig eu trin fel plant yn gyntaf a bod eu hanghenion nhw yn cael eu diwallu ochr yn ochr â'r plant y maent wedi eu niweidio. Rhaid i ymateb i blant ag ymddygiadau niweidiol fod ar gontinwwm, gan amrywio o gamau adnabod a chefnogi cynnar yn y gymuned i asesiadau, ymyriadau a gwaith dwys gyda'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf ac sydd â'r angen mwyaf.

Roedd hawliau plant hefyd wrth wraidd diddymu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru. Ar 21 Mawrth 2022, ni all neb yng Nghymru ddibynnu ar yr amddiffyniad hwn i gyfiawnhau cosbi eu plant yn gorfforol. Rhydd hyn yr un diogelwch cyfreithiol rhag ymosodiad i blant ag sydd gan oedolion.

Mae gwahardd cosbi plant yn gorfforol yn unol ag erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - amddiffyn rhag pob math o drais. Bydd y newid deddfwriaethol hefyd yn cefnogi ein nod o gefnogi rhieni i ddefnyddio dulliau mwy cadarnhaol o ddarparu arweiniad i'w plant a'u disgyblu.

Effaith fwriadedig Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020, ar y cyd ag ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau lleihad pellach yn nifer yr achosion o gosbi plant yn gorfforol, a'r graddau y caiff hynny ei oddef.[11] Nododd adolygiad o astudiaethau hydredol nad yw cosb gorfforol yn gysylltiedig â chanlyniadau cadarnhaol dros amser, ei bod yn cynyddu'r cysylltiad â gwasanaethau amddiffynnol plant, a'i bod yn rhagfynegi ymddygiad gwaethygol. Daeth yr awduron i'r casgliad fod "physical punishment is harmful to children and that policy remedies are warranted".[12] Ymhellach, nododd astudiaeth ecolegol o 88 o

[11] Deddf Plant (diddymu amddiffyniad cosb resymol) (Cymru) – Memorandwm Esboniadol

[12] Physical punishment and child outcomes: a narrative review of prospective studies

wledydd fod “an association between national bans of corporal punishment in all settings and less frequent physical fighting in male and female adolescents”.[13]

Trafodir y broses o roi'r Ddeddf ar waith, a'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r system gyfiawnder, yn ddiweddarach yn y ddogfen hon; ond mae'n bwysig yma oherwydd disgwyliwn i hyn arwain at gymdeithas lle mae trais wedi'i normaleiddio'n llai o'r blynyddoedd ffurfiannol hollbwysig.

**3.4 Gweithgareddau yn y system addysg**

Daw'r holl elfennau a geir yn y bennod hon – yr angen i fynd i'r afael â phrofiadau gwahanol, yr angen i fod yn ystyriol o drawma, a'r angen i drin plant fel plant yn gyntaf oll – ynghyd yn y system addysg. Rhaid i ysgolion a lleoliadau addysgol eraill reoli ymddygiadau heriol iawn ar adegau - ond ni ddylent byth golli golwg ar eu cenhadaeth i gynorthwyo pob plentyn i gyfrannu at gymdeithas mewn modd cynhyrchiol. Wrth wneud hynny byddant yn helpu i leihau galw ar y system gyfiawnder yn y dyfodol, a chreu cylch rhinweddol.

Ym mis Mawrth 2021 cyhoeddwyd ein Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith yn rhoi pwyslais ar waith atal ac adnabod yn gynnar er mwyn diwallu anghenion llesiant dysgwyr. Mae hefyd yn cydnabod bod rhai dysgwyr yn wynebu mwy o risg o lesiant gwael a chanlyniadau andwyol, a bod angen inni fynd ati mewn ffordd gynhwysol nad yw’n stigmateiddio o sicrhau llesiant da i bob un o’n dysgwyr, ni waeth beth fo’u hamgylchiadau. Credwn ei bod yn bwysig cydnabod y gall fod angen i rai dysgwyr gael cymorth ychwanegol ar wahanol adegau, ac ymyriadau cynnar sydd wedi'u targedu'n fwy er mwyn atal profiadau negyddol.

Ymhlith yr enghreifftiau o gymorth ychwanegol mae sicrhau bod cwnselwyr a seicolegwyr addysg ychwanegol ar gael i drefnu a darparu sesiynau cwnsela ychwanegol ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn 2021-22, gwnaethom ddyrannu ychydig dros £2 miliwn mewn cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i ehangu eu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned. Gwnaethant amcangyfrif y byddai hyn yn eu galluogi i ddarparu cymorth cwnsela mawr ei angen

[13] Corporal punishment bans and physical fighting in adolescents: an ecological study of 88 countries

ar gyfer 5,800 ychwanegol o blant a phobl ifanc. Hefyd gwnaethom ddyrannu cyllid ychwanegol o tua £750,000 er mwyn helpu awdurdodau lleol i gynnig cyfleoedd hyfforddi ychwanegol i athrawon ac aelodau eraill o'r staff mewn ysgolion i'w helpu i gefnogi plant a phobl ifanc ag anawsterau iechyd meddwl a llesiant yn well. Ymhlith yr enghreifftiau o'r math o hyfforddiant ac ymyriadau penodol mae Rhaglen *Seasons for Growth*, Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a llawer mwy.

Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae yn cefnogi llesiant dysgwyr a bydd angen i uwch-dimau arwain ysgolion ystyried eu poblogaeth o ddysgwyr a rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu cynlluniau llesiant neu wella. Bydd angen iddynt ddiwallu anghenion unrhyw ddysgwyr sy'n rhan o un neu ragor o grwpiau agored i niwed neu sydd wedi bod ar y cyrion yn hanesyddol, gan gynnwys plant a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Gall y cyllid hwn hefyd gael ei ddefnyddio i ddarparu cymorth wedi'i dargedu i nodi ar gam cynnar bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg ac sy'n fwy agored i ddod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Ymhlith y rhaglenni blaenoriaeth penodol mae Ystafell Ddosbarth Cylch Diogelwch, Coetsio Emosiwn, Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, sesiynau Tynnu Lluniau a Siarad, gwaith Lab Empathi, ymarfer ystyriol o drawma a mentrau tebyg eraill.

Rydym hefyd yn buddsoddi tua £2 miliwn y flwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru, ac mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn darparu cyllid cyfatebol. Mae'r rhaglen yn darparu gwersi a chymorth ar bynciau yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, a materion diogelwch personol ac yn y gymuned ehangach. Mae'r rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer disgyblion o'r flwyddyn dderbyn i flwyddyn 13, ac mae'n galluogi plant i fynegi a thrafod materion a phroblemau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac yn eu cefnogi i ymdrin â throseddau sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau sy'n wynebu pobl ifanc. Yn ogystal â chanolbwyntio ar ddull seiliedig ar wersi, mae'r rhaglen hefyd yn mabwysiadu dull “ysgol gyfan”, gyda Swyddogion Heddlu Ysgolion yn cyflawni rôl fugeiliol ehangach sy'n diwallu anghenion penodol ysgolion neu unedau arbennig.

Enghraifft olaf o waith ataliol yn y system addysg yw darparu addysg heblaw yn yr ysgol. Mae gan awdurdodau addysg lleol gyfrifoldeb i wneud trefniadau i ddarparu

addysg addas ar gyfer plant oedran gorfodol a all, oherwydd salwch, gwahardd o'r ysgol neu fel arall, fynd heb addysg addas am gyfnod oni wneir y fath drefniadau ar eu cyfer.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol a chyhoeddodd Fframwaith Gweithredu yn 2017 i sicrhau bod darpariaeth gyson o ansawdd uchel ar gael ledled Cymru.Er mwyn cefnogi hyn gwnaethom gomisiynu ymchwil ar faterion eraill oedd â chysylltiad agos ag addysg heblaw yn yr ysgol, er mwyn deall yn well eu heffaith, gan gynnwys symudiadau wedi'u rheoli, tynnu disgyblion oddi ar gofrestr yr ysgol, ac ymwneud â throseddau a'r system cyfiawnder troseddol (gan gynnwys effaith llinellau cyffuriau).

Rydym bellach yn gweithio mewn partneriaeth â'r Uned Atal Trais, a drafodir ym mhennod 6, ar brosiect cysylltu data, er mwyn deall yn well y cysylltiadau rhwng ffactorau risg addysgol a gweithgarwch troseddol. Nod y prosiect troseddau a bod yn agored i niwed yn addysgol yw cysylltu data addysg a throseddau er mwyn nodi newidynnau sy'n dynodi bod plentyn neu berson ifanc yn wynebu mwy o risg na'i gyfoedion o fod ynghlwm wrth droseddu neu fod gangiau troseddol cyfundrefnol yn camfanteisio arnynt. Bydd y prosiect yn defnyddio proses cronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) er mwyn cysylltu'r data rhwng yr Uned Atal Trais a setiau data addysg. Y rheswm dros hyn yw bod cronfa ddata SAIL yn darparu proses ddiogel ar gyfer creu setiau data cysylltiedig dienw. Yna dim ond ymchwilwyr achrededig h.y. ymchwilwyr sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio microdata yn ddiogel a fyddai'n gwneud gwaith dadansoddi ac ymchwil.

## Gwaharddiadau o'r Ysgol

Mae gwahardd plentyn o'r ysgol yn benderfyniad sy'n debygol o gael effaith fawr ar gyfleoedd mewn bywyd y plentyn hwnnw, a cheir cysylltiadau cryf rhwng y rhai sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol a'r rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Felly, mae'n arbennig o bwysig bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd deg ac mewn ffordd sy'n meithrin cymaint o hyder â phosibl o du'r plentyn a'i rieni neu'i warcheidwaid.

Ar hyn o bryd, os bydd ysgol wedi penderfynu gwahardd plentyn a bod y penderfyniad hwnnw yn destun apêl, bydd yr awdurdod lleol perthnasol yn sefydlu panel i ystyried a ddylai'r apêl gael ei chadarnhau. Mae mesurau ar waith i sicrhau bod y paneli hyn yn annibynnol ar yr ysgol neu'r awdurdod lleol.

Serch hynny, yn ei adolygiad o'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru (gweler **pennod 9,** nododd Comisiwn y Gyfraith rai pryderon ymhlith rhieni bod paneli apelio yn cael eu sefydlu gan yr awdurdodau lleol lle gwnaed y penderfyniadau ynghylch gwahardd disgyblion, a chwestiynwyd a allai rhieni byth fod yn hyderus ynghylch annibyniaeth paneli o'r fath hyd yn oed lle roedd yr awdurdod perthnasol wedi cymryd bod cam posibl. Yr hyn sy'n peri mwy o bryder byth yw bod rhai o aelodau'r paneli eu hunain yn amau a oedd y paneli'n gweithredu'n annibynnol, ac nad oedd rhai awdurdodau lleol (yn enwedig y rhai a oedd yn cael nifer bach o apeliadau) yn siŵr a oedd ganddynt yr arbenigedd i gynnal gwrandawiadau mewn ffordd deg ac yn gyson â phenderfyniadau mewn mannau eraill.

Felly argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai apeliadau yn sgil gwahardd disgyblion fynd at Siambr Addysg Tribiwnlys newydd arfaethedig Haen Gyntaf Cymru. Byddai hyn yn rhannol yn sicrhau cysondeb wrth ymdrin ag apeliadau ac yn rhannol yn sicrhau ac yn cael ei weld yn sicrhau annibyniaeth yn y broses gwneud penderfyniadau hollbwysig hon.

Yn ein barn ni, ymddengys fod dadl gref dros wneud hyn, ac felly rydym yn bwriadu derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, nid oedd rhai awdurdodau lleol yn cyd-weld, gan sôn yn arbennig am bwysigrwydd gwybodaeth leol – felly mae'n bwysig ein bod yn ystyried y gwrthwynebiadau a godwyd ac a oes modd dilyn trywydd sy'n rhoi hyder i bob awdurdod lleol yn ogystal â phartneriaid eraill yn y broses. Felly byddwn yn ymgynghori â'r rhai y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn effeithio arnynt wrth inni weithio drwy'r manylion ac ystyried sut i fwrw ymlaen.

### 3.5 Casgliadau

Yn y bennod hon ceir sawl enghraifft o weithgareddau y disgwylir iddynt leihau'r galw ar y system gyfiawnder, neu mewn rhai achosion sydd wedi dangos hynny. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, nid dyma brif ddiben y gweithgareddau; mae'n sgil-effaith gweithgareddau sy'n cynyddu i'r eithaf y siawns y bydd plant o ba gefndir bynnag yn mynd ymlaen i fyw bywydau iach a bodlon, ac y bydd oedolion yn gallu byw â'r trawma a achoswyd gan eu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gellid bod wedi rhoi llawer mwy o enghreifftiau o weithgareddau o'r fath sy'n cael effaith ataliol bwysig – megis ym meysydd mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau neu iechyd meddwl. Gall mentrau newydd, megis cynllun peilot Incwm Sylfaenol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal yng Nghymru, a gyflwynir yn ystod y tymor Senedd hwn fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, hefyd feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r ffordd y mae pobl ifanc yn ymgysylltu â chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae tystiolaeth ryngwladol ynghylch incwm sylfaenol yn awgrymu bod y rhai sy'n ei gael yn torri'r gyfraith i raddau llai na'u cymheiriaid.

Caiff rhai o'r enghreifftiau pellach hynny o weithgareddau ataliol eu trafod yn ddiweddarach yn y ddogfen, megis gweithgareddau i fynd i'r afael â chasineb at fenywod a lleihau trais yn erbyn menywod a merched, neu waith i atal teulu rhag chwalu a diogelu plant rhag yr effeithiau.

Er bod gormod o weithgarwch o'r fath i'w restru'n gynhwysfawr, bwriedir i'r bennod hon ddangos bod elfennau cyson sy'n cysylltu gweithgareddau Llywodraeth Cymru, a bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu fwyfwy mewn trefniadau gweithio ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill a phartneriaid yn y trydydd sector. Mewn rhai achosion, gwelir sefydliadau partner o fewn y system gyfiawnder yn y trefniadau gwaith hynny, er eu bod yn atebol yn gyfansoddiadol i San Steffan yn hytrach nag i sefydliadau datganoledig.

Fodd bynnag, bydd angen i'r sefydliadau partner hynny yn y system gyfiawnder bob amser reoli gofynion gan weinidogion llywodraeth y DU sy'n peri risg o fynd yn groes i'r hyn sydd ar waith yng Nghymru – yn arbennig pan fyddant yn dilyn trywydd mwy cosbol, fel y gwelwyd er enghraifft gyda hawliau plant neu gamddefnyddio sylweddau. Galluogi asiantaethau'r system gyfiawnder i weithio gyda gwasanaethau

cyhoeddus eraill yn ddirwystr, ar sail gyson, yw un o fanteision systemig sylweddol datganoli cyfiawnder.

Yn olaf, un o'r gwendidau strwythurol mwyaf yn nhrefniadau cyfansoddiadol cyfredol y DU yw nad yw'r buddsoddiad hwn gan Lywodraeth Cymru sy'n creu arbedion i'r system gyfiawnder yn esgor ar ailfuddsoddi'r arbedion hynny yng Nghymru. Serch hynny, nes i'r sefyllfa hon gael ei hunioni, byddwn yn parhau i fynd ati i geisio cyfiawnder cymdeithasol, hyd yn oed os nad yw Cymru, yn hyn o beth, yn cael cymaint o fudd ag y dylai.

# Pennod 4: Cydraddoldeb a Chyfiawnder

Fel y nodir ym mhennod 3, er mwyn creu Cymru fwy diogel rhaid mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau cymdeithasol a strwythurol a all arwain at adfyd a gwahaniaethu – mewn geiriau eraill, rhaid wrth gyfiawnder cymdeithasol. Ni fydd pob unigolyn sy'n profi anghydraddoldeb, casineb a gwahaniaethu yn profi canlyniadau gwaeth mewn bywyd, heb sôn am ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, ond ar lefel y boblogaeth, mae cysylltiad clir a chadarn rhwng cyffredinrwydd y ffactorau hyn a phwysau ar y system gyfiawnder.

Ond yn bwysicach na hynny, mae pob achos o gasineb a gwahaniaethu yn mynd yn groes i'r gwerthoedd sydd mor bwysig i'r mwyafrif o bobl Cymru, ac yn dwyn anfri ar Gymru. I'r unigolyn neu'r unigolion a all ei brofi, gall effaith hynny fod yn anferthol; er trista'r sôn, mae gormod o lawer wedi dod yn gyfarwydd â chael eu trin yn annheg dim ond oherwydd pwy ydynt. Felly rydym yn ymrwymedig i ddileu casineb a gwahaniaethu er ei fwyn ei hun – ond fel un o sgil-effeithiau creu cymdeithas decach dylid gweld llai o achosion lle mae angen i bobl ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Nid dim ond y system cyfiawnder troseddol sy'n ymwneud â chanlyniadau rhagfarn a chasineb. Gwahaniaethu yw un o’r rhesymau mwyaf cyffredin dros gynnal tribiwnlys cyflogaeth. Rhaid i lysoedd teulu ymdrin â chanlyniadau teuluoedd yn chwalu lle mae cam-drin domestig yn ffactor yn rhy aml. Ond, yn ôl eu diffiniad, gweithredoedd troseddol yw'r achosion gwaethaf o dorri hawliau sylfaenol pobl, ac felly mae angen inni ddilyn trywydd sydd nid yn unig yn mynd i'r afael â sbardunau hirdymor gwahaniaethu a chasineb ond sydd hefyd yn eu gwneud yn llai cyffredin yn awr.

Gall sawl grŵp o bobl brofi rhagfarn a chasineb, gan gynnwys pobl anabl, pobl LHDTC+, pobl hŷn, pobl sy'n arfer crefydd benodol, mewnfudwyr neu'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ymhlith sawl un arall. Gall fod rhai pethau yn gyffredin rhwng profiadau pobl o'r grwpiau gwahanol hyn, ond mae pob profiad yn wahanol ac mae angen i'r llywodraeth a'r system gyfiawnder ymdrin â phob un yn ofalus ac yn briodol. Mae hefyd yn bwysig peidio â cholli golwg ar groestoriadedd – nid yw profiad

menyw ddu yr un peth â phrofiad menyw wyn. Mae hunaniaeth pob unigolyn yn gymysgedd cymhleth o ffactorau a all gynnwys rhywedd, hil, dosbarth a rhywioldeb ymysg llawer o rai eraill. Golyga hyn y bydd gan bawb eu profiadau unigryw eu hunain o wahaniaethu a gormes.

Er y gall fod yn anodd, yn enwedig gydag unigolion nad ydynt yn ymddiried mewn awdurdod, a hynny'n ddealladwy, credwn mai dyletswydd llywodraeth yw gwrando ar ei holl ddinasyddion, ac yn arbennig y rhai sydd fwyaf agored i gasineb a rhagfarn. Felly mae ein dull o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn seiliedig ar fynd ati i wrando ar bobl sy'n profi gwahaniaethu a'i effaith, a deall eu profiadau bywyd; a sicrhau bod holl gymunedau gwahanol Cymru, ond yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed, yn chwarae eu rhan yn y gwaith o lunio'r polisïau rydym yn eu mabwysiadu.

Ni all y cyhoeddiad hwn gydnabod yr holl waith a wna sefydliadau ac unigolion ledled Cymru i drechu casineb a gwahaniaethu. Rhaid iddo ganolbwyntio ar y mathau hynny o ragfarn sy'n cael yr effaith uniongyrchol fwyaf ar weithredu'r system gyfiawnder. Ceir rhagor o fanylion am feysydd gwaith nas cwmpesir yn y papur hwn mewn cyhoeddiadau eraill. Ond yn y pen draw, gwyddom y bydd unigolion a grwpiau o hyd nad ydym wedi llwyddo i'w cyrraedd, a byddem yn croesawu cael gwybod am unrhyw waith arall y gallwn ei wneud i gyrraedd y bobl hynny a deall yr heriau y maent yn eu hwynebu yn well.

### 4.1 Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae trais yn erbyn menywod – yn enwedig trais gan bartner personol a thrais rhywiol – yn broblem fawr ym maes iechyd y cyhoedd. Mae amcangyfrifon sydd wedi'u cyhoeddi gan y WHO yn nodi “globally about 1 in 3 (30%) of women worldwide have been subjected to either physical and/or sexual intimate partner violence or non-partner sexual violence in their lifetime”.[14]

Nid ydym am dderbyn y fath achosion sylfaenol o dorri hawliau dynol yma yng Nghymru ac mae ein Rhaglen Lywodraethu yn gwneud ymrwymiad cadarn i ddileu

---

[14] Violence against women (World Health Organisation)

ac atal unrhyw ymddygiad o'r fath. Mae'n ofyniad statudol o dan a3(1) o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n ddeddf nodedig, i baratoi a chyhoeddi Strategaeth Genedlaethol i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac i amddiffyn a chynorthwyo dioddefwyr.[15] Ynghyd â phartneriaid allweddol, rydym wedi bod yn datblygu ein fersiwn nesaf o'r Strategaeth Genedlaethol drwy ymgynghoriad cyhoeddus ac mae ar fin cael ei chyhoeddi.

Y Strategaeth Genedlaethol yw'r cyfrwng a ddefnyddiwn i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i sicrhau mai Cymru yw'r man mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw, gan gynnwys drwy:

- roi pwyslais newydd ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal ag yn y cartref
- ehangu hyfforddiant ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ‘Gofyn a Gweithredu’ a ‘Paid Cadw'n Dawel’

Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu ochr yn ochr â grŵp o sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys yr heddlu a'r sector arbenigol. Wrth ei gwraidd y mae cydnabod mai drwy fynd i'r afael â thrais a gyflawnir gan ddynion, a'r casineb at fenywod a'r anghydraddoldeb rhywiol sy'n sail iddo, y gwnawn dorri'r cylch ac ymdrin ag achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiadau'r rhai sy'n ymddwyn yn gamdriniol. Ni ddylai menywod orfod ymddwyn yn wahanol; y sawl sy'n eu cam-drin a ddylai wneud hynny, a bwriad gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru yw sicrhau bod y ddealltwriaeth hon wedi'i hymgorffori'n gyson ym mhob rhan o'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft yn amlinellu pwysigrwydd dealltwriaeth gynhwysfawr o VAWDASV er mwyn mynd i'r afael â'r broblem i bawb yng Nghymru, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl a chymunedau LHDTC+. Nid yw VAWDASV yn cael yr un effaith ar bawb, gan effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd, felly byddwn yn sicrhau bod y

[15] Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Strategaeth Genedlaethol yn cyd-fynd â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+ a Chynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl wrth iddynt gael eu datblygu.

Mae'r materion hyn hefyd yn gysylltiedig â diogelu. Er na chaiff VAWDASV ei gwmpasu gan ddyletswyddau na chanllawiau diogelu statudol, mae'n hanfodol bod ein hymateb yn cael ei gydgysylltu â chamau gweithredu i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin.

Caiff y Strategaeth Genedlaethol ei chyflawni ar ffurf Glasbrint – strwythur cyflawni a chynllun gweithredu a gydberchenogir gan sefydliadau datganoledig ac annatganoledig. Mae hyn yn adeiladu ar lwyddiant y ddau Lasbrint Cyfiawnder Troseddol a drafodir ym mhennod 8. Mantais Glasbrint yw ei fod yn creu'r ymdeimlad o gydberchenogaeth o ran cyflawni'r strategaeth ac mae'n annog atebolrwydd, yn ogystal â chymorth a her gan gymheiriaid. Cyflawnir hyn drwy'r strwythur llywodraethu sydd â Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd a arweinir gan weinidogion ac a gadeirir ar y cyd ar y brig.

Bydd aelodaeth y bwrdd yn adlewyrchu'r cyrff hynny sydd â dyletswyddau allweddol o ran mynd i'r afael â VAWDASV a bydd yn cynnwys yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (EM) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Bydd lleisiau goroeswyr a'r sector arbenigol yn cael eu cynnwys ar bob lefel. Bydd y bwrdd yn goruchwylio gwaith y byrddau rhanbarthol a hefyd is-grwpiau y disgwylir iddynt ymdrin ag achosion o aflonyddu a cham-drin ar y stryd ac achosion o aflonyddu a cham-drin yn y gweithle, a mynd i'r afael â chyflawnwyr, comisiynu mewn ffordd gynaliadwy ac ymgysylltu â defnyddwyr.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido rhanbarthau a gwasanaethau arbenigol VAWDASV er mwyn rhoi cymorth amhrisiadwy sy'n achub bywydau i holl ddioddefwyr VAWDASV. Mae hyn yn cynnwys ymyriadau cynnar, cymorth ataliol ac addysgol, rhaglenni ymyrryd i gyflawnwyr, Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol ar gyfer dioddefwyr risg uchel, ac ymyriadau gwellhad therapiwtig ar gyfer rhoi cymorth parhaus i'r rhai y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt. Mae'r cyllid hwn yn sicrhau,

ni waeth ble mae dioddefwr yn byw yng Nghymru, fod gwasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cadarn ar gael i'w helpu.

Yn ystod 2020/2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd roi dros £420,000 i ranbarthau VAWDASV er mwyn gwella cyfleusterau gwrandawiadau llys o bell ledled Cymru. Mae'r grant wedi galluogi rhanbarthau i brynu cyfarpar i helpu dioddefwyr i roi tystiolaeth mewn achosion troseddol yn ddiogel drwy gyswllt fideo. Ym mis Chwefror 2022 roedd naw safle eisoes ar waith, a bwriedir cyflwyno pedwar safle arall dros yr ychydig fisoedd nesaf.

Bydd y 13 o gyfleusterau newydd yn galluogi dioddefwyr VAWDASV i sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed mewn ffordd sy'n lleihau'r ofn, y straen a'r gorbryder sydd mor aml yn gysylltiedig â rhoi tystiolaeth mewn llys agored. Mae'r safleoedd i gyd yn rhan o wasanaethau VAWDASV ledled Cymru, sy'n golygu y gellir darparu cymorth arbenigol ar y safle mewn amgylchedd cefnogol a brafiach. Mae hyn yn gwneud y safleoedd hyn yn unigryw i Gymru o gymharu â safleoedd tystiolaeth o bell ledled y DU. Bydd hefyd yn helpu i gael y dystiolaeth orau a gall ostwng cyfraddau tynnu'n ôl ymhlith dioddefwyr. Gobeithio y bydd y cyfleusterau arbenigol hyn yn gwella profiad goroeswyr, yn lleihau nifer y tystion sy'n rhoi'r gorau i'r broses gyfiawnder ac, yn y pen draw, yn cynyddu nifer yr euogfarnau.

Gwnaeth llwyddiant cychwynnol y safleoedd greu awydd i ehangu'r mathau o achosion lle gall tystiolaeth gan ddioddefwyr VAWDASV gael ei gwrando ar y safleoedd, ac rydym nawr wedi cytuno y gall y safleoedd gael eu defnyddio mewn achosion teulu ac achosion sifil eraill unwaith y bydd newidiadau arfaethedig i reolau gweithdrefnol perthnasol y llysoedd wedi dod i rym. Mae ymgyrch codi ymwybyddiaeth fewnol ac ymgyrch cyfathrebu â'r cyhoedd wedi cael eu cynnal hefyd i ategu'r gwaith hwn. Disgwylir cwblhau gwerthusiad o'r gwaith hwn yn 2022.

**Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol**

Un maes penodol lle mae Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r GIG, yr Heddlu a'r trydydd sector yw darparu mynediad i Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yng Nghymru. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau y gellir cael gafael ar weithwyr proffesiynol hyfforddedig a phrofiadol am gymorth a chefnogaeth, ac i roi cyngor i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol.

Mae trefniadau cydweithio ar waith i sicrhau bod ymateb amlasiantaethol i ddioddefwyr ymosodiadau rhywiol drwy Fwrdd Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol. Caiff Bwrdd y Rhaglen ei oruchwylio a'i lywio gan Gyfarwyddwr newydd, sy'n rhan o Gydweithfa'r GIG. Y nod yw gwella canlyniadau iechyd i ddioddefwyr a goroeswyr ymosodiadau rhywiol. Mae pob partner wedi cytuno ar fodel darparu gwasanaethau newydd, mwy integredig ar gyfer gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yng Nghymru, ac maent yn gweithio tuag at hynny.

Rydym hefyd wedi sefydlu Straen Trawmatig Cymru i wella'r cymorth sydd ar gael yn dilyn digwyddiad trawmatig. Mae hyn yn cynnwys ffrwd waith arbenigol sy'n canolbwyntio ar wella'r cymorth a roddir i bobl sydd wedi profi ymosodiad rhywiol.

O fewn y rhaglen gwasanaethau ymosodiadau rhywiol, mae ymrwymiad i ddatblygu gwasanaeth meddygol fforensig a arweinir gan y GIG. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, canolbwyntir ar ddefnyddio sbardunau polisi a chaffael sy'n bodoli eisoes – yn hytrach na newid deddfwriaethol – gyda Llywodraeth Cymru a Chydweithfa'r GIG yn cydweithio â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r byrddau iechyd yng Nghymru.

### 4.2 Creu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol

Ni ellir gwadu nad yw hiliaeth yn broblem sefydliadol ddifrifol o fewn systemau cyfiawnder troseddol ledled y byd. Plismona – plismona milain a hiliol ddidaro – a wnaeth ysgogi protestiadau Mae Bywydau Du o Bwys yn 2020. Trasiedi lladd George Floyd oedd iddo atseinio nid am ei fod yn beth anghyffredin, ond am ei fod mor gyffredin, mewn sawl man ledled y byd, nid dim ond yn UDA.

Yn y DU, caiff pobl o leiafrifoedd ethnig – pobl ddu yn anad neb – eu gorgynrychioli o dipyn ar bob lefel o'r system cyfiawnder troseddol, heblaw am y gwaith o'i

gweinyddu. Mae pobl ddu yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio, eu harestio, eu cael yn euog, eu dedfrydu i garchar, a marw yn nalfa'r heddlu. Maent yn llai tebygol o fod yn swyddogion heddlu, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, ynadon neu farnwyr. Lle bynnag y ceir ystadegau, dangosir bod y pethau hyn mor wir yng Nghymru ag ydynt mewn mannau eraill.

Er enghraifft, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 yng Nghymru, roedd pobl Ddu tua phedair gwaith yn fwy tebygol o gael eu harestio na phobl Wyn – roedd 53 o arestiadau am bob 1,000 o bobl Ddu, ac roedd 13 o arestiadau am bob 1,000 o bobl Wyn (yn ôl ethnigrwydd hunanddiffiniedig). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r cyfraddau ar gyfer Cymru a Lloegr gyda'i gilydd, sydd eisoes yn achos pryder ynddynt eu hunain (29 o arestiadau am bob 1,000 o bobl Ddu, o gymharu â 9 arestiad am bob 1,000 o bobl Wyn).

Yn yr un modd, rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021 yng Nghymru, roedd wyth achos o stopio a chwilio am bob 1,000 o bobl Wyn, o gymharu â 56 am bob 1,000 o bobl Ddu.[16]

Er na allwn ddarparu’r holl ystadegau angenrheidiol ar gyfer Cymru ar ei phen ei hun ar hyn o bryd, gwyddom ei bod yn hynod bwysig bod modd gwneud hynny. Fel y nodir yn gynharach yn y papur, ym mis Ionawr 2022, gwnaethom sefydlu Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb ac Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil i weithio ar draws pob maes polisi, gan gynnwys cyfiawnder, er mwyn gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth cydraddoldeb. Fodd bynnag, rydym eisoes yn gwybod digon i wybod bod angen gweithredu nawr.

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gymryd camau gweithredu gyda'i phartneriaid, er mwyn gwneud newidiadau fel bod bywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol gymaint yn well ym mhob rhan o gymdeithas.

Mae'r Cynllun wedi cael ei lunio ar y cyd â chyrff cyflawni allweddol, a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Caiff ei lywio gan brofiadau bywyd, data a chanfyddiadau ymchwil sy'n tynnu sylw at wahaniaethau ar sail hil, ynghyd â'r holl dystiolaeth sydd

[16] Police powers and procedures: Stop and search and arrests, England and Wales, year ending 31 March 2021

ar gael ar ffurf adroddiadau blaenorol, ymchwiliadau cyhoeddus ac argymhellion eraill ar gyfer newid.

Wrth ddatblygu ac ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, nodwyd bod cyfiawnder troseddol yn faes lle bu achosion amlwg a chynyddol o anghyfiawnder ar sail hil. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad feysydd lle mae angen i newid gwirioneddol ac ystyrlon ddigwydd:

- gwella cyfraddau cofnodi troseddau casineb ac ymatebion cyfiawnder troseddol
- archwilio ac atgyfnerthu ymatebion cychwynnol yr heddlu, a rolau rhannau eraill o'r system gyfiawner o ran ymdrin â throseddau casineb a digwyddiadau casineb
- mynd i'r afael â phrinder gwasanaethau cymorth gwahaniaethu
- gwella adnoddau hyfforddiant, addysg a chyllid

Gwyddom na allwn gyflawni newid gwirioneddol yn y maes hwn heb ein partneriaid, felly rydym yn defnyddio ein cydberthnasau cryf â phartneriaid cyfiawnder yng Nghymru i fynd i'r afael â gwahaniaethu a cheisio sicrhau bod gwrth-hiliaeth wrth wraidd system cyfiawnder troseddol Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gan gynnwys Plismona yng Nghymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, i ddatblygu Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ym maes Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Bydd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cyfiawnder Troseddol i Gymru yn amlinellu'r camau cadarn, gwirioneddol a gymerwn gyda'n partneriaid cyfiawnder i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a cheisio creu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol, sy'n mynd law yn llaw â'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru Wrth-hiliol. Bydd yn glir bod angen trawsnewid yr hyn a wneir, a bod partneriaid ym mhob rhan o'r system yn ymrwymedig i system wrth-hiliol yng Nghymru. Mae'r Cynllun yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru sydd wedi chwarae rhan bwysig. Mae hefyd yn ystyried profiadau pobl o'r system gyfiawnder, sydd wedi bod yn ddi-flewyn-ar-dafod wrth drafod y gwahaniaethu y maent wedi'i wynebu.

Mae gwaith ar y Cynllun yn mynd rhagddo o hyd, ond mae'n debygol o gyflwyno cyfres o gamau i'w cymryd i roi system gyfiawnder wrth-hiliol ar waith. Mae hyn yn debygol o gynnwys:

- herio hiliaeth, cefnogi dioddefwyr ac ennyn ymddiriedaeth
- cynrychiolaeth a chyfranogiad amrywiol ethnig yn y gweithlu ac ymhlith arweinwyr
- gwell data ar wahaniaethau ar sail hil i gefnogi gwell polisïau a phenderfyniadau
- gwaith atal, ymyrryd yn gynnar ac adsefydlu
- dileu agweddau atgas a chefnogi dioddefwyr troseddau casineb seiliedig ar hil
- mynd i'r afael ag islamoffobia a gwrth-Semitiaeth
- cynnwys, gwrando a gweithredu

Hefyd, lle mae gennym sbardunau uniongyrchol, byddwn yn parhau i'w defnyddio. Er enghraifft, fel rhan o delerau'r cyllid rydym yn ei roi ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, rhaid i heddluoedd ddilyn polisi cyfle cyfartal wrth gyflogi pobl ni waeth beth fo'u hil, rhyw/hunaniaeth rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran nac anabledd. Unwaith eto, bydd rhagor o fanylion am y camau rydym yn eu cymryd ar gael yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

**4.3 Troseddau casineb a chydlyniant cymunedol**

Diffiniad yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron o drosedd casineb yw “any criminal offence which is perceived by the victim, or any other person, to be motivated by hostility or prejudice, based on a person's disability or perceived disability; race or perceived race; or religion or perceived religion; or sexual orientation or perceived sexual orientation or transgender identity or perceived transgender identity”. Bydd profi trosedd casineb, fel dioddefwr neu dyst, yn gadael ei ôl, felly ymdrechwn i'w ddileu yn gyfan gwbl.

Mae Bwrdd Casineb a Thensiynau Cymunedol Cymru yn grŵp sefydlog sy'n cynghori Gweinidogion Cymru a llunwyr polisi ar droseddau casineb a thensiynau cymunedol, ac yn rhoi arweinyddiaeth i asiantaethau cyfiawnder troseddol yng

Nghymru. Mae'r aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cymorth i Ddioddefwyr Cymru a sefydliadau o'r trydydd sector.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i archwilio ymyriadau cadarnhaol i gefnogi dioddefwyr a rhwystro cyflawnwyr; rhannu a thrafod data a gwybodaeth mewn perthynas â thueddiadau presennol troseddau casineb ledled Cymru; rhannu arferion gorau drwy archwilio astudiaethau achos gan aelodau; ac ymateb yn hyblyg i faterion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag agweddau atgas a throseddau casineb.

Drwy'r Bwrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi meithrin cydberthnasau cryf ag arweinwyr casineb ym mhob heddlu yng Nghymru. Bu hyn yn amhrisiadwy fel rhan o'n hymateb ar y cyd i fynd i'r afael â throseddau casineb ar ddechrau pandemig Covid-19, pan oedd swyddogion yn cyfarfod â chynrychiolwyr yr heddlu bob wythnos i drafod tueddiadau a oedd yn dod i'r amlwg a thensiynau cymunedol, a sut i fynd i'r afael â nhw.

Mae heddluoedd Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda phrosiectau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn, megis y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, drwy atgyfeiriadau at ei wasanaethau cymorth, a thrwy hyfforddiant a gweithgarwch ymgysylltu. Mae heddluoedd Cymru hefyd wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru drwy rannu negeseuon i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau, megis ymgyrch Mae Casineb yn Brifo Cymru, a lansiwyd yn 2021.

Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn ariannu wyth Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol i gyflawni amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys monitro a lliniaru tensiynau cymunedol, a hyfforddiant a gweithgarwch codi ymwybyddiaeth. Mae Swyddogion Rhanbarthol Cydlyniant Cymunedol yn mynychu cyfarfodydd monitro tensiynau mewn partneriaeth â heddluoedd Cymru, ac yn cyfrannu atynt, gan helpu i sicrhau y dilynir yr un trywydd a chynnig ymyriadau a datrysiadau i faterion wrth iddynt godi.

Gwyddom fod llawer mwy i'w wneud o hyd yn y maes hwn. Er enghraifft, gwyddom nad yw pobl LHDTC+ mor barod i roi gwybod am droseddau casineb. Lluniwyd cyhoeddiad 2017 Stonewall *LGBT in Britain – Hate Crime* ar sail arolwg o 5,000 o bobl LHDT yn y DU. Nododd nad oedd pedwar o bob pump o bobl LHDTC (81%) a oedd wedi profi trosedd casineb neu ddigwyddiad casineb wedi rhoi gwybod amdano i'r heddlu. Yn yr un modd nododd adroddiad *Hate Crime Report 2021* Gallup mai dim ond un o bob wyth o'r 523 o ymatebwyr (13%)a roddodd wybod i'r heddlu am eu profiadau. Mae sawl rheswm posibl am hyn, gan gynnwys diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu, profiad gwael blaenorol o'r system cyfiawnder troseddol, ddim yn gwybod beth yw trosedd casineb, ac ofn dial.

Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft yn cynnwys cam gweithredu i "weithio gyda Phrif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, ynghyd â phartneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol eraill, i adolygu pam nad oes digon o droseddau casineb LHDTC+ yn cael eu cofnodi, gyda'r nod o weithredu i wella lefelau adrodd ymhellach."

Yn dilyn ymateb sylweddol i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft, cynhaliwyd dadansoddiad llawn a ddefnyddir i ddatblygu'r gwaith er mwyn gwneud y cynllun yn gryfach. Mae ein holl gymunedau LHDTC+ yng Nghymru wedi chwarae rhan flaenllaw hyd yn hyn, a bydd hynny'n parhau wrth inni ddatblygu fersiwn derfynol y cynllun – gan gynnwys drwy ailsefydlu ein Panel LHDTC+ Arbenigol annibynnol.

**4.4 Cydraddoldeb a diogelu hawliau**

Mae'r bennod hon wedi canolbwyntio'n bennaf ar yr achosion mwyaf dybryd o gamdriniaeth a thrais seiliedig ar gasineb, sy'n peri'r her fwyaf uniongyrchol i'r system cyfiawnder troseddol yn arbennig. Fodd bynnag, nid dim ond er mwyn mynd i'r afael â throseddoldeb y defnyddir y gyfraith a'r system gyfiawnder; mae ganddynt rôl i'w chwarae mewn sawl rhan arall o fywydau pobl, a gallant fod yn bwerus wrth greu gwell cymdeithas. Enghraifft wych o hyn yw cyfreithiau sydd wedi'u cynllunio i ddiogelu hawliau.

Bwriadwn gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru. O dan y Rhaglen Lywodraethu rydym yn ymrwymo i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd

Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod yng nghyfraith Cymru.  Rydym yn ystyried datblygu'r rhain ar wahân neu ddilyn trywydd mwy cyfannol, megis Bil Hawliau Dynol i Gymru, a allai hefyd ein galluogi i ymgorffori Confensiynau eraill y Cenhedloedd Unedig a chytundebau rhyngwladol eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail hil, hawliau pobl hŷn, a hawliau cymdeithasol ac economaidd, yn ogystal ag adeiladu ar Fesur Hawliau Plant 2011 er mwyn ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru ymhellach.

Mae ein hymchwil i Gryfhau a Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru hefyd wedi ystyried amrywiaeth o faterion cysylltiedig, megis canllawiau ar hawliau dynol, addysg gyfreithiol gyhoeddus, asesiad effaith a gweithredu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Cafodd yr ymchwil hon, a gomisiynwyd yn 2020, ei harwain gan Brifysgol Abertawe, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, Diverse Cymru a Cymru Ifanc. Cafodd eu hadroddiad ei gyhoeddi ym mis Awst 2021 ac mae'n arwain y ffordd o ran diogelu a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol unigolion a chymunedau yng Nghymru.

Mae'r argymhellion yn yr ymchwil wedi cael eu rhannu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, yng nghyd-destun ein hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu, i ystyried sut y gellir eu cynnwys mewn gwaith sy'n mynd rhagddo a gwaith wedi'i gynllunio at y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei oruchwylio gan ein Grŵp Llywio Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (SAEHR), a gadeirir gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, gyda'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn mynychu cyfarfodydd. Cafodd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad SAEHR ei ystyried gan y Grŵp Llywio ym mis Ebrill 2022, a chaiff cynllun gweithredu ei ddatblygu er mwyn cymryd y camau y cytunwyd arnynt.  Byddem yn ymgynghori ar unrhyw fodelau deddfwriaethol a all ddod i'r amlwg.

### 4.5 Y Gymraeg

Miliwn o siaradwyr Cymraeg yw strategaeth Gweinidogion Cymru i hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, a baratowyd yn unol ag adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Wrth i'r strategaeth hon gynyddu'r defnydd o Gymraeg llafar, felly hefyd y galw am wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Felly, mae'n amlwg yn elfen hanfodol o gydraddoldeb bod y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.

Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion llys, lle gwneir penderfyniadau sy'n cael effaith ar ryddid, bywoliaeth neu ddyfodol pobl. Mae'n anodd dirnad y risgiau os na all pawb dan sylw gyfathrebu mor glir â phosibl. O dan adran 22 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae gan unrhyw barti, tyst neu berson arall hawl statudol i siarad Cymraeg mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru. Mae'n cwmpasu pob math o achos, boed yn achos mewn llys neu dribiwnlys troseddol neu sifil, a ph'un a yw'n ddatganoledig ai peidio. Mae'n cwmpasu unrhyw un sy'n rhan o'r achosion, boed hwy'n aelodau o'r cyhoedd, cyfreithwyr, barnwyr neu staff llysoedd.

Er mwyn i'r hawl hon fod yn ystyrlon, mae angen i'r awdurdodau perthnasol gymryd camau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb. Mae gan ei Gynllun Iaith Gymraeg sail statudol drwy'r gyfundrefn reoleiddiol i gyrff y Goron yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cynhaliodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ymgynghoriad ym mis Mawrth 2022 ar ddarparu ei wasanaethau yn y Gymraeg.[17] Wrth lansio'r ymgynghoriad, dywedodd Hywel Hughes, Pennaeth Gwasanaethau Cymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi:

“Ar draws y sector gyhoeddus yng Nghymru rydym yn gweld y galw am wasanaethau Cymraeg yn cynyddu. Mae ein profiad ni yn y llysoedd a’r tribiwnlysoedd yn dangos yn glir bod Cymry Cymraeg yn gwerthfawrogi defnyddio’r iaith wrth iddynt gysylltu â ni neu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau. Mae’r iaith yn rhan annatod o’u hunaniaeth ac os na allent ei defnyddio mae’n bosibl iddynt deimlo’n anghyflawn neu o fod wedi eu dieithrio. Mae’r newidiadau arfaethedig i’n Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig yn cryfhau ein hymroddiad i roi mynediad cyfartal i gyfiawnder i siaradwyr Cymraeg.”

---

[17] GLITEM yn lansio ymgynghoriad ar ei Gynllun Iaith

Mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol yn ei gwneud yn glir nad yw'r gyfraith bresennol yn caniatáu dewis aelodau rheithgor mewn ffordd sy'n galluogi'r llys i wybod a yw rheithiwr yn siarad Cymraeg ai peidio.[18] Nid yw'r gyfraith ychwaith yn caniatáu sefydlu rheithgor ag aelodau dwyieithog ar gyfer achos lle gellir defnyddio'r Gymraeg. Felly mae'n ddigon posibl, ac yn gynyddol debygol, y bydd y mwyafrif o aelodau rheithgor mewn rhai llysoedd yng Nghymru, lle mae'r defnydd o'r Gymraeg ar ei fwyaf, yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth ystyried achos ond na fyddant yn gallu gwneud hynny. Y rheswm dros hyn yw nad yw natur gyfrinachol trafodaethau rheithgor yn caniatáu i gyfieithwyr fod yn bresennol i'r aelodau rheithgor hynny na allant siarad na deall Cymraeg. Mae hyn yn fater rydym wedi'i godi mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

[18] Practice direction relating to the use of the Welsh language in cases in the civil courts in, or having a connection with, Wales

# Pennod 5: Cyfiawnder Teuluol

Mae'r system cyfiawnder teuluol yng Nghymru yn cyflawni rôl hollbwysig o ran amddiffyn plant agored i niwed yng Nghymru. Mae'r llysoedd teulu yn fodd i ystyried buddiannau pennaf plant mewn perthynas â'r holl gwestiynau pwysig megis cyflawni cyfrifoldeb rhiant a gwarcheidiaeth. Pan allant weithredu yn ôl y bwriad, mae'r llysoedd, a gwasanaethau eiriolaeth a chymorth hollbwysig cysylltiedig, yn cynnig mesurau diogelu hanfodol i blant a all fel arall wynebu risg fawr iawn, yn ogystal â darparu llwybr i oedolion gael cyfiawnder mewn perthynas â materion megis ysgariad neu arfer cyfrifoldebau rhiant.

Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas) fod y 'sefyllfa o ran cyfiawnder teuluol, ac yn benodol y gyfraith, y llysoedd, arfer a threfniadaeth sy'n ymwneud â phlant, yng Nghymru yn gymhleth. Mae hyn i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith ei fod yn rhychwantu'r "ffin amrwd" rhwng materion annatganoledig a datganoledig o dan y drefn ddatganoli bresennol'.[19] Argymhellodd Comisiwn Thomas y dylai peth o'r cymhlethdod hwnnw gael ei ddileu o weithredu cyfiawnder teuluol drwy ddatganoli ei weithrediad, fel bod y system yn atebol i'r un sefydliadau â chyfrifoldeb am y prif wasanaethau y daw i gysylltiad rheolaidd â nhw, megis iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac wrth gwrs Cafcass Cymru.

Cytunwn ag argymhelliad Comisiwn Thomas y gellid cyflawni gwell canlyniadau i blant a theuluoedd yng Nghymru petai'r system cyfiawnder teuluol yn cael ei datganoli. Fodd bynnag, fel gyda sawl rhan arall o'r system gyfiawnder, cydnabyddwn nad yw Llywodraeth y DU hyd yn hyn wedi dangos unrhyw arwydd ei bod yn barod i ystyried datganoli. Sut bynnag, ein cyfrifoldeb ni yw cyflawni ein swyddogaethau ni'n hunain o dan y setliad diffygiol presennol hyd eithaf ein gallu, ac felly dyma a barhawn i'w wneud.

Felly, mae cryn dipyn o'r gwaith sy'n mynd rhagddo gennym yn gweld Llywodraeth Cymru a phartneriaid yng Nghymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a

---

[19] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, t.301

rhanddeiliaid ar sail Cymru a Lloegr er mwyn helpu i sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei ystyried wrth ddatblygu, cyflwyno a chyflawni polisïau/gwaith newydd a pharhaus yn ymwneud â chyfiawnder teuluol.

Fel rhannau eraill o'r system gyfiawnder, mae'r system cyfiawnder teuluol wedi gweld ei gwariant yn lleihau cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hefyd wedi gorfod mynd i'r afael â heriau penodol Covid-19. Mae cryn dipyn o'n gwaith ers cyhoeddiad Comisiwn Thomas wedi bod yn ymateb i'r heriau hyn, ac yn gweithio i sicrhau bod safbwynt Cymru yn ganolog i'r holl benderfyniadau ar weithredu'r system yn y dyfodol.

Fodd bynnag, rydym hefyd wedi parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, sef prif ffocws arall Comisiwn Thomas o ran cyfiawnder teuluol. Tanlinellodd y Comisiwn gostau rhoi plentyn mewn gofal i awdurdodau lleol a'r system gyfiawnder, gan nodi ‘byddai'n well o lawer gwario arian ar gynorthwyo plant a'u teuluoedd er mwyn atal problemau rhag codi’.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein Rhaglen Lywodraethu bresennol sydd â phwyslais penodol ar helpu plant i aros gyda'u teuluoedd. Ein polisi yn fras yw targedu cymorth ac ymyrraeth gynnar. Mae angen arweinyddiaeth gref er mwyn mynd i'r afael ag achosion o osgoi risg wrth wneud penderfyniadau, a hyrwyddo dulliau ymarfer adferol sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar gadw teuluoedd gyda'i gilydd, drwy wasanaethau ataliol a chymorth cynnar.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu hefyd yn cynnwys pecyn o ymrwymiadau yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sydd ar gyrion gofal, gan gynnwys:

- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal
- Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd

Bydd y gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn helpu i lywio'r broses o ddiwygio gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar gyrion gofal dros y blynyddoedd i ddod, a'r gobaith yw gwella eu cyfleoedd mewn bywyd.

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dirwedd weinyddol bresennol ar gyfer cyfiawnder teuluol yng Nghymru, cyn trafod sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o wella'r ffordd y mae'r system cyfiawnder teuluol yn gweithredu, ac yn arbennig o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

**5.1 Y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol**

Cafodd y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol ei greu gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad a gweithrediad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Fe'i hwylusir gan swyddogion o Lywodraeth Cymru ac fe'i cadeirir gan Brif Swyddog Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r holl brif sefydliadau o fewn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru yn rhan ohono, sef: y farnwriaeth; Cafcass Cymru; Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM; Llywodraeth Cymru; ac awdurdodau lleol.

Rhydd y rhwydwaith wybodaeth werthfawr i helpu i ddatblygu mentrau polisi, cynnal safonau a cheisio gwelliannau parhaus i gyfiawnder teuluol yng Nghymru. Mae'n cefnogi ac yn llywio gwaith Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Cymru a Lloegr sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth y DU, drwy gynghori ar gyd-destun Cymru a sicrhau bod y Bwrdd yn ystyried safbwyntiau Cymru ar faterion nad ydynt yn ddatganoledig o ran y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi'n ffurfiol y gwaith o ymgysylltu â Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol gan ddarparu fforwm pellach lle gall polisi cyfiawnder teuluol (er enghraifft lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a gwella canlyniadau) gael ei lywio gan brofiad gweithredol Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol.

Datblygwyd Cynllun Strategol ar gyfer y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol sy'n amlinellu rôl y Rhwydwaith i gefnogi'r rhaglen ddiwygio sylweddol sydd ar waith ar draws y system Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Cynllun yn cwmpasu'r cyfnod 2020-23 ac mae'n cynnwys prif feysydd ffocws y Rhwydwaith. Er mai Llywodraeth y DU sy'n bennaf cyfrifol am ddiwygio cyfiawnder teuluol, mae'r Cynllun yn helpu i ganolbwyntio ar y meysydd lle gellid gweithredu yng Nghymru, gan weithio gyda Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol. Mae tair elfen i'r Cynllun -

- Helpu teuluoedd i osgoi achosion llys
- Datblygu system cyfiawnder teuluol fwy cydlynol i Gymru
- Cydgysylltu'r adferiad yn dilyn Covid-19

### 5.2 Cafcass Cymru

Mae Cafcass Cymru yn darparu gwasanaeth gweithredol seiliedig ar alw o dan Ddeddf Plant 2004 i lysoedd teulu yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Rhydd gyngor a chymorth arbenigol ym maes gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar blant er mwyn diogelu plant, a sicrhau bod eu lleisiau yn cael eu clywed mewn llysoedd teulu ledled Cymru fel bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er eu budd pennaf. Yn ystod 2020/2021, gweithiodd Cafcass Cymru gyda mwy nag 11,000 o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yng Nghymru sy'n destun achosion llys teulu.


Mae Cafcass Cymru yn gweithredu fel corff gweithredol datganoledig o fewn system cyfiawnder teuluol nad yw'n ddatganoledig. Mae'n gweithio'n agos gyda Llywydd yr Adran Deulu, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau bod anghenion a hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu parchu ac y rhoddir cyfrif amdanynt yn y system cyfiawnder teuluol sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr. Yn ystod pandemig Covid-19, mae'r rhan fwyaf o'r ymgysylltu ar lefel system Cymru a Lloegr wedi digwydd o bell ac mewn ffyrdd *'rhithwir'*. Mae hyn wedi gweithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol, ac wedi sicrhau bod anghenion Cymru wedi cael eu hyrwyddo'n gryf ac, ar adegau, eu cydnabod. Er enghraifft, yn agenda ddiwygio radical '*cyfraith breifat'* (teuluoedd sydd wedi gwahanu sydd mewn anghydfod), mae'n galonogol nodi bod y gogledd wedi'i nodi'n safle peilot ynghyd â Dorset yn Lloegr (gweler rhan 5.5 o'r bennod hon).

Mae Cafcass Cymru hefyd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol yng Nghymru, ynghyd ag asiantaethau a grwpiau eraill sy'n rhoi pwyslais ar Gymru. Er enghraifft, mae'n gryf o blaid y sylw y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i wella canlyniadau a phrofiadau plant sy'n derbyn gofal. Mae gweithio fel corff datganoledig o fewn system nad yw'n ddatganoledig yn golygu bod Cafcass Cymru weithiau'n wynebu problemau, lle mae diffyg eglurder o ran pryd mae cyfrifoldeb yn dechrau ac yn gorffen rhwng yr hyn sy'n ddatganoledig a'r hyn nad yw'n ddatganoledig. Mae hyn i'w weld i ryw raddau yn y maes '*y tu allan i'r llys'* lle mae teuluoedd sydd wedi gwahanu dan sylw, lle nad yw eu hanghenion penodol bob amser yn cael eu hystyried na'u '*huno'* â gweledigaeth ehangach.

Caiff gwasanaeth Cafcass Cymru ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rheolaidd. Mae AGC yn mesur perfformiad yn erbyn safonau ymarfer dynodedig a ategir gan Ddeddf Plant 2004 a chaiff Cafcass Cymru ei arolygu fel sefydliad cenedlaethol gan ystyried ei ffocws ar Gymru a'r cyd-destun Cymreig.

**5.3 Cynlluniau i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal**

Mae lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a helpu plant i aros yng ngofal eu teuluoedd yn flaenoriaethau allweddol i Lywodraeth Cymru yn y tymor hwn o'r Senedd. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys nifer o ymrwymiadau a fydd yn helpu i lywio gwasanaethau cymdeithasol plant. Gweledigaeth y Llywodraeth yw ailddylunio'r ffordd rydym yn gofalu am blant a phobl ifanc fel ein bod yn gallu gwneud y gorau dros ein pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau lleol, a gaiff eu dylunio'n lleol ac sy'n atebol yn lleol.
Mae'r Prif Weinidog wedi bod yn glir bod gormod o blant yn cael eu cymryd oddi wrth eu teuluoedd ac yn dod yn rhan o'r system ofal, a bod angen cael cydbwysedd newydd rhwng rhoi plant mewn gofal a darparu cymorth er mwyn cadw teuluoedd gyda'i gilydd.




Ffynhonnell: SSDA903; y cyfrifiad plant sy’n derbyn gofal

(a) Heb gynnwys plant sy’n derbyn gofal mewn lleoliadau tymor byr

(r) Mae’r data wedi’u diwygio ar ôl cael eu cyhoeddi’n flaenorol

Er mwyn canolbwyntio'n benodol ar leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn 2019 gofynnodd y Prif Weinidog am i ddull wedi'i dargedu gael ei ddatblygu gydag awdurdodau lleol. Amlinellodd y Prif Weinidog y meysydd blaenoriaeth canlynol ar gyfer lleihau:

- nifer y plant mewn gofal
- nifer y plant a leolir y tu allan i'r sir
- nifer y plant a leolir y tu allan i Gymru
- nifer y plant a gymerir oddi wrth rieni ag anabledd dysgu

Hefyd gofynnwyd i awdurdodau lleol ddatgrynhoi cyfanswm nifer y plant mewn gofal fel a ganlyn:

- Plant ar eu Pennau eu Hunain sy’n Ceisio Lloches
- Plant a leolir gyda'u rhieni eu hunain neu unigolyn arall â chyfrifoldeb rhiant

Nod Cynlluniau Lleihau yw ailgydbwyso'r system a chefnogi teuluoedd i ofalu am eu plant eu hunain, gan gynnwys cyflawni gweithgareddau ailuno ychwanegol fel bod plant yn gallu dychwelyd adref pan fydd materion teuluol wedi'u datrys.

Ym Mlwyddyn 1 (2019-20) cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 4%.[20] Ym Mlwyddyn 2 cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal 2% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae data sy'n bodoli eisoes a gesglir ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn adrodd olaf (2021-22) yn nodi lleihad yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y tair blynedd o gynlluniau lleihau, nodir arafu sylweddol o ran y twf mewn niferoedd, gyda'r niferoedd yn sefydlogi cyn lleihau yn y diwedd.

2021-22 yw blwyddyn olaf ein taith leihau 3 blynedd ac mae awdurdodau lleol yn parhau i adrodd yn erbyn eu cynlluniau. Byddwn yn parhau i fonitro data a ddarperir gan awdurdodau lleol yn erbyn y cynlluniau hyn hyd at ddiwedd mis Ebrill 2022, pan gaiff y data eu dadansoddi ac y byddwn yn ystyried y camau nesaf.

Mae gwaith y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol wedi canolbwyntio ar b'un a ellir mynd ati'n ddiogel i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn dod yn destun achosion cyfraith

[20] Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant

gyhoeddus (ac felly ddileu'r posibilrwydd y cânt eu rhoi mewn gofal), ac amseroldeb penderfyniadau unwaith y byddant yn destun achosion o'r fath. Wrth wneud hyn mae wedi gweithio'n unol ag amcanion cyffredinol y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus a sefydlwyd gan Lywydd yr Adran Deulu i reoli'r adferiad yn sgil Covid-19 a mynd i'r afael â heriau llwyth gwaith y Llysoedd Teulu. Yn arbennig, mae'r tri Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol yng Nghymru wedi helpu i ddatblygu dull cyson ledled Cymru a nodi materion lleol allweddol - er enghraifft, yr angen am Hyb Cyfiawnder Teuluol dwyieithog ar-lein. Maent hefyd wedi sefydlu strwythurau cyffredin a thasgluoedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant, perfformiad a chyfathrebu, yn aml â phwyslais ar 'cyn achos'. Mae adroddiad y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus yn ategu ein polisi ynghylch lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a rhoi mwy o bwyslais ar sut y gallwn fynd ati orau i gynyddu'r gefnogaeth i'n Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig a gofal perthynas.

Yn olaf, er mwyn cefnogi lleihad pellach, rydym wedi gwneud ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y mae eu plant mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal. Darperir cyllid o 2022/23 i sicrhau bod gwasanaeth eirioli ar gael i rieni ym mhob un o saith rhanbarth Cymru.

### 5.4 Gwasanaethau Reflect

Nod Reflect yw torri cylch rhoi plant mewn gofal a rhoi cyfle i fenywod feithrin sgiliau ac ymatebion newydd a all eu helpu i greu dyfodol mwy cadarnhaol, y tu hwnt i'r system gyfiawnder.

Yn ystod 2017-18, dyrannwyd cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Reflect ym mhob rhan o Gymru. Yn sgil hyn bu modd i bob un o'r saith rhanbarth gyflogi dau weithiwr llawnamser dynodedig i reoli a rhedeg y cynllun, gan adeiladu ar fodelau sefydledig lle roeddent yn bodoli, a rhoi cefnogaeth gyfannol i fenywod â phlant mewn gofal.

Caiff y rhai sy'n rhan o'r Rhaglen gynnig cefnogaeth emosiynol a help ymarferol. Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ddulliau atal cenhedlu a mynediad at gyngor ar dai, addysg a chyflogaeth, gyda gwasanaethau iechyd rhywiol a seicolegol yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Nod y gefnogaeth gyfannol ddwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw addasu patrymau ymddygiad niweidiol er mwyn lleihau risgiau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol i'r menywod sy'n rhan o'r rhaglen.

Mae'r prosiect hwn yn amlwg yn chwarae rhan werthfawr i roi help emosiynol ac ymarferol i fenywod â phlant mewn gofal, ac mae'n helpu i leihau'r risg y rhoddir rhagor o blant mewn gofal. Mae hyn yn bwysig oherwydd gwyddom fod achosion gofal rheolaidd yn golygu bod y mamau eu hunain, eu plant a'u teuluoedd yn talu pris dynol mawr. Cynhaliodd Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant (CASCADE) Prifysgol Caerdydd werthusiad o Reflect yng Ngwent yn 2018. Roedd y canfyddiadau yn gadarnhaol ac awgrymwyd nid yn unig bod Reflect yn llenwi bwlch allweddol o ran darparu cymorth i grŵp hynod agored i niwed, ond ei fod hefyd yn cael effaith gadarnhaol er gwaethaf anghenion amrywiol a lefel uchel rhieni.

### 5.5 Cefnogaeth i rieni a Chyfraith Breifat

Nid yw'r pwysau ar y Llysoedd Teulu yn deillio o achosion lle mae plant mewn gofal yn unig (achosion cyfraith gyhoeddus); ceir cryn bwysau ledled Cymru a Lloegr hefyd o ran achosion cyfraith breifat, sydd fel rheol yn ymwneud â setliadau ysgaru a gwahanu a thriniaeth plant y mae eu rhieni wedi gwahanu. Mae cyfanswm nifer y ceisiadau cyfraith breifat wedi cynyddu 39% yng Nghymru, o 2440 o geisiadau yn 2007 i 3390 o geisiadau yn 2018.[21] Mae Cafcass Cymru yn cefnogi plant yn yr achosion hyn yn ogystal ag achosion cyfraith gyhoeddus, felly mae'r cynnydd hwn mewn achosion yn rhoi pwysau ar sefydliadau a gedwir yn ôl a sefydliadau datganoledig.

Yn bwysicach na hynny, mae tor perthynas a/neu wrthdaro nad yw wedi'i ddatrys mewn perthynas yn gysylltiedig â sawl effaith negyddol ar blant, gan gynnwys anfantais economaidd-gymdeithasol, cyflawniad addysgol is, problemau ymddygiadol a phroblemau iechyd meddwl a chorfforol. Felly byddai lleihau'r gwrthdaro rhwng rhieni cyn cyrraedd cam gwrthwynebus nid yn unig yn lleihau llwyth gwaith y system gyfiawnder ond byddai hefyd yn gwella ac yn diogelu iechyd a llesiant meddyliol ac emosiynol rhieni, rhoddwyr gofal a'u plant.

Fel y cyfryw, mae Llywodraeth Cymru a Cafcass Cymru wedi bod yn awyddus i gefnogi dulliau sy'n cefnogi perthynas rhieni ac o bosibl yn lleihau'r ôl-groniad o achosion cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr. Gwnaethom gomisiynu ymchwil i

[21] Datgelu cyfraith teulu breifat: pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?

nodi pa wasanaethau sydd wrthi'n cefnogi teuluoedd sydd wedi gwahanu ac ystyried yr opsiynau sydd ar gael i greu cynghreiriau lleol sy'n canolbwyntio ar blant er mwyn cefnogi teuluoedd sydd wedi chwalu neu lle mae'r berthynas yn anodd.[22] Rydym yn ystyried manteision ac anfanteision ac ymarferoldeb amrywiaeth o opsiynau yn yr adroddiad, sy'n tynnu sylw at fuddiannau 'siop un stop' ar gyfer teuluoedd sy'n gwahanu yng Nghymru er mwyn iddynt gael gafael ar help a chefnogaeth i osgoi'r broses llys gan leihau costau a straen – ac yn y pen draw leihau'r gwrthdaro rhwng rhieni ac felly leihau'r niwed i blant y teulu sy'n gwahanu.

Hefyd, rydym wedi cymryd camau ymarferol i wella'r gefnogaeth sydd ar gael i deuluoedd sy'n gwahanu, yn enwedig drwy gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol uwchsgilio eu gweithlu cefnogi rhieni, a darparu cyrsiau digidol seiliedig ar dystiolaeth am ddim y gall rhieni gael gafael arnynt yn uniongyrchol, neu a all gael eu defnyddio gan ymarferwyr rhianta sy'n cefnogi teuluoedd sy'n gwahanu.

Cafodd Gweithgor Cyfraith Breifat ei sefydlu i gynghori'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol ar y camau i wneud hyn ac amlinellodd gynigion ar gyfer diwygiadau sylweddol i gyfraith breifat, y mae Cymru yn ymwneud â nhw drwy ei Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol. Prif nod y Gweithgor fu hyrwyddo dulliau datrys problemau/nad ydynt yn wrthwynebus.

Fel rhan o'r cynllun hwn, mae ardal Cyfiawnder Teuluol y Gogledd yn un o ddau safle braenaru (ynghyd â Dorset) i brofi a gwerthuso Rhaglen Trefniadau Plant diwygiedig. Diben y peilot yw profi buddiannau ymyrryd yn llawer cynharach yn y cylch cyfreithiol, rhoi plant wrth wraidd y broses, blaenoriaethu dull diogelwch yn gyntaf gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig, a helpu teuluoedd i osgoi'r llys lle bo modd, wrth gydnabod y bydd angen i'r llys teulu chwarae rhan bellach yn achos rhai teuluoedd.

Sefydlwyd grŵp llywio bach gan Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol y gogledd er mwyn helpu i lywio'r camau lleol sydd eu hangen yn yr ardal fraenaru. Cytunwyd ar y Cyfarwyddyd Ymarfer erbyn hyn, sy'n caniatáu i'r prosiect braenaru arfer dulliau

[22] Supporting Separated Family Alliance: A scoping study; Cascade (Canolfan Ymchwil a Datblygu Gofal Cymdeithasol Plant)

amgen. Rhoddwyd y safle braenaru ar waith ar 21 Chwefror, a disgwylir iddo redeg am ryw 2 flynedd, ac mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mynd ati i gynnal gwerthusiad ffurfiol.

### Atal rhieni rhag gwahanu – gweithgaredd enghreifftiol

Yn 2020-21 darparwyd tri chwrs digidol seiliedig ar dystiolaeth am ddim i deuluoedd ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, wedi'u datblygu gan yr elusen OnePlusOne. Gall rhieni gael gafael ar y cyrsiau'n uniongyrchol os yw'n well ganddynt wneud hynny, heb orfod mynd drwy wasanaeth cymorth, ond darparwyd hyfforddiant 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ar gyfer dau aelod o staff ym mhob ALI hefyd er mwyn helpu rhieni i fanteisio ar yr adnoddau, gan gyfuno rhyngweithio personol â hyblygrwydd a hygyrchedd technoleg ar-lein.

Y tri chwrs yw:

- Me, You and Baby Too – nod y cwrs hwn yw helpu rhieni newydd a rhieni sy'n disgwyl i ymdopi â'r newidiadau a allai ddigwydd yn eu perthynas ar ôl dod yn rhieni, a dysgu sut i ymdopi â straen a gwrthdaro mewn modd adeiladol.
- Arguing Better – nod y cwrs hwn yw codi ymwybyddiaeth o effaith gwrthdaro rhwng rhieni ar blant a helpu rhieni i ddatblygu ffyrdd gwell o reoli straen a dadleuon gyda'i gilydd.
- Getting it Right for Children – nod y cwrs hwn yw cefnogi rhieni sydd wedi gwahanu, gan eu helpu i osgoi'r sefyllfa niweidiol lle caiff eu plant eu rhoi yng nghanol eu gwrthdaro.

Nododd gwerthusiad cam 1 o Me, You and Baby Too, ar gyfer peilot yr adnodd digidol hwn wedi'i ariannu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, fod cyplau a gwblhaodd y cwrs hwn gyda'i gilydd yn gweld cryn dipyn yn llai o wrthdaro yn eu perthynas a gwell perthynas â'i gilydd a'u plant. Rydym yn monitro ac yn gwerthuso niferoedd a chanlyniadau'r tri adnodd digidol sydd ar gael yng Nghymru, cyn gwneud penderfyniadau tymor hwy ynghylch eu hargaeledd.

### 5.6 Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol

Mae Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yn llys teulu amgen ar gyfer achosion gofal plant ac mae wedi'i gynllunio i weithio gyda rhieni sydd â phroblemau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r llys yn mabwysiadu dull datrys problemau mewn achosion, a gall rhieni ddewis dilyn y trywydd hwn yn hytrach na dilyn proses achos gofal safonol.

Argymhellodd adroddiad Comisiwn Thomas y 'Dylai Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd gael eu sefydlu yng Nghymru'.[23] Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i weithredu'r argymhelliad hwn, a chynigiodd sefydlu Rhaglen Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol beilot i werthuso'r fath ddull, gyda'r nod o ddefnyddio gwersi'r peilot i gefnogi'r gwaith o ehangu'r model i feysydd eraill petai'n llwyddiannus.

Gwnaed cryn dipyn o waith i ddatblygu rhaglen beilot Llysoedd Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2020, dyrannwyd cyllid i'r Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder helpu i ddatblygu'r peilot. Mae'r Ganolfan yn brofiadol ac mae wedi bod yn llwyddiannus wrth roi cymorth gweithredol i sefydlu llysoedd o'r fath yn Lloegr.

Datblygodd y Ganolfan fodel peilot i Gymru ar y cyd â rhanddeiliaid, gan brofi dull datrys problemau mewn perthynas ag achosion lle mae rhieni yn camddefnyddio sylweddau, a ddygir gerbron y llys teulu. Yn dilyn proses Mynegi Diddordeb gystadleuol, dyfarnwyd y rhaglen beilot i Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol y de-ddwyrain, gyda chyllid cysylltiedig i gwmpasu'r rhaglen gyfan hyd at fis Gorffennaf 2023. Bydd y gwasanaeth ar gael i deuluoedd a atgyfeirir gan awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, a bydd yn gweithredu o Lys Teulu Caerdydd. Disgwylir i'r llys wrando 30 o achosion y flwyddyn.

Cafodd y rhaglen beilot ei lansio'n ffurfiol ar 25 Tachwedd 2021 a gwrandawodd ei achos cyntaf ym mis Rhagfyr. Ym mis Mawrth 2021, drwy gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, penododd y Ganolfan Arloesi ym maes Cyfiawnder CASCADE o Brifysgol Caerdydd i werthuso'r peilot. Os tybir bod y peilot yn llwyddiannus gellir defnyddio gwersi ohono i gefnogi'r gwaith o ehangu'r model i rannau eraill o Gymru.

---

[23] Argymhelliad 35

Bydd y gwerthusiad yn ystyried a yw'r peilot yn cael ei roi ar waith yn ôl y bwriad, ac a yw'n gweithredu mewn ffordd y gellir ei raddio'n hawdd. Bydd y gwerthusiad yn anelu at gefnogi'r gwaith o gyflwyno Llysoedd Teulu Alcohol a Chyffuriau yn effeithiol yng Nghymru, a galluogi gwerthusiad mawr manwl gywir, drwy nodi elfennau allweddol ac unrhyw wahaniaethau i'r modd y cynhaliwyd llysoedd o'r fath gynt.

Disgwylir adroddiad gwerthuso interim CASCADE ym mis Awst 2022. Bydd yr adroddiad interim yn cyflwyno canfyddiadau cychwynnol ar gwestiynau ymchwil perthnasol ynghylch y broses weithredu a'r model gweithredu, yn seiliedig ar chwe mis cyntaf y peilot.

# Pennod 6: Plismona yng Nghymru: creu cymunedau mwy diogel

Mae diogelwch ein cymunedau yn hanfodol, a dylai pob unigolyn a theulu yng Nghymru deimlo'n ddiogel yn eu cymuned leol, pwy bynnag ydynt a ble bynnag maent yn byw. Cydnabyddwn fod hyrwyddo a chynnal diogelwch yn gofyn am gydweithio rhwng nifer o bartneriaid er mwyn diogelu cymunedau ac atal troseddau. Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i hyn, gan weithio'n agos gyda phartneriaid megis heddluoedd, awdurdodau lleol, Byrddau Iechyd Lleol a sefydliadau yn y trydydd sector i wneud ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd yn fannau mwy diogel i fyw a gweithio ynddynt. Safwn yn erbyn trais a chasineb o bob math, a gweithiwn mewn partneriaeth i hyrwyddo diogelwch ac atal niwed. Rydym wedi mynd ati i weithio mewn partneriaeth wrth i Lywodraeth y DU fuddsoddi llai.

Yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, lle mae plismona wedi'i ddatganoli i raddau helaeth, Llywodraeth y DU sydd â'r cyfrifoldeb gweinidogol am blismona yng Nghymru, ac mae Ysgrifennydd Cartref Llywodraeth y DU yn atebol i Senedd y DU am ddarparu Gwasanaeth Heddlu effeithlon ac effeithiol. Fel y mae, nid oes gan Gymru unrhyw reolaeth ganolog nac awdurdodaeth o hyd o ran yr heddluoedd sy’n ein gwasanaethu ac a all fod yn gyfrifol am orfodi deddfau a wneir yng Nghymru.

Mae'n amlwg nad yw Cymru yn cael budd o ddull gweithredu o'r fath a arweinir gan Lywodraeth y DU. Yn 2010 roedd 7,369 o swyddogion yr heddlu yng Nghymru, ac erbyn 2019 roedd y nifer wedi lleihau i 6,898 – lleihad o 471 o swyddogion. Hyd yn oed ar ôl ystyried cynllun y Swyddfa Gartref i recriwtio swyddogion ychwanegol yng Nghymru a Lloegr, bydd niferoedd yr heddlu yng Nghymru yn dal i fod yn is yn 2023 nag yn 2010.

Dyna pam rydym wedi mynd ati i ddarparu cymorth yn ychwanegol at ein grant craidd. Er nad yw plismona yn faes datganoledig, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer adnoddau ychwanegol sy'n cynnwys dros £22 miliwn bob blwyddyn i gyflogi 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae hyn yn

dangos pa mor benderfynol ydym o sicrhau bod cymunedau yng Nghymru yn fannau diogel lle gall pawb ffynnu.

Fel gwariant tebyg arall gan Lywodraeth Cymru sy’n gwneud iawn am brinder mewn cyllid gan Lywodraeth y DU, os yw'r system gyfiawnder yn gwneud rhagor o arbedion am fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn llwyddiannus wrth atal troseddau, ni chaiff arbedion cysylltiedig i asiantaethau cenedlaethol megis Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, Gwasanaeth Erlyn y Goron na Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM eu hailfuddsoddi yng Nghymru o reidrwydd.

Drwy ein cymorth ariannol a'n partneriaethau â chydweithwyr yn yr heddlu rydym yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd troseddu. Ni ellir mynd i'r afael â materion megis trais difrifol, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llinellau cyffuriau na chyflenwi cyffuriau ar ein pennau ein hunain, gan fod gwasanaethau datganoledig yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o fynd i'r afael â'r hyn sy'n arwain at droseddu. Tanlinellwyd hyn mewn sylwadau gan Syr Thomas Winsor, Prif Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, yn 2020:

> “My assessment of the criminal justice system shows how essential it is that our public services work well together. The intensity of the interdependence of policing, education, housing, and health and social care must be fully recognised. We cannot, of course, separate policing from the rest of the criminal justice system.
>
> For policing to be effective, the other public services must also be as efficient and effective as possible. If they are not, many more people may be drawn to crime, enter into cycles of offending, become victims, and lose confidence in policing”

Mae natur ryng-gysylltiedig ein gwasanaethau cyhoeddus, a natur drawsbynciol y problemau rydym yn eu hwynebu, yn golygu bod yn rhaid inni gydweithio'n agos mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithio'n effeithiol. Hyd nes y cawn y cyfrifoldeb am blismona yng Nghymru, rydym yn parhau'n ymrwymedig i feithrin ac atgyfnerthu cydberthnasau gwaith cryf rhwng y pedwar Heddlu yng Nghymru, ein llywodraethau canolog a lleol, a'n partneriaid lles, meddygol a

chymdeithasol. Cefnogir hyn gan y trefniadau partneriaeth a llywodraethu cryf a nodir yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Yna mae'r bennod hon yn rhoi enghreifftiau o'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Plismona yng Nghymru, ac y bydd yn parhau i'w wneud yn y dyfodol.[24] Yn arbennig, rhydd y bennod hon astudiaethau achos ar y canlynol:

- sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru weithio gyda'r heddlu mewn perthynas â chyfyngiadau cyfreithiol yn sgil yr ymateb i'r coronaferiws
- swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- gwaith ar droseddau casineb a chydlyniant cymunedol
- cydweithio i amddiffyn plant
- mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern
- plismona traffig a ffyrdd
- mynd i'r afael â throseddau cefn gwlad

Ar ddiwedd y bennod trafodir y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i gefnogi'r rhain ac achosion eraill o weithio mewn partneriaeth. Cydweithiwn â chydweithwyr plismona mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac mae'r bennod hon wedi'i chynllunio i gyflwyno rhai enghreifftiau yn hytrach na chynnig darlun cynhwysfawr o'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd. Ceir hefyd enghreifftiau eraill o gydweithio â'r heddlu a sefydliadau diogelwch cymunedol mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon, gan gynnwys gwaith ar feysydd megis mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod , cam-drin domestig a thrais rhywiol a chreu system gyfiawnder wrth-hiliol (gweler pennod 4) a thrwy ein cyllid blynyddol o £2 miliwn i Raglen Ysgolion Heddlu Cymru.

### 6.1 Datblygu trefniadau partneriaeth cryf

O ystyried y cyd-destun a amlinellir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (Comisiwn Thomas) sy'n nodi:

---

[24] Grŵp strategol sy'n cynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru, yn ogystal ag aelodau allweddol o'u timau eu hunain, yw Plismona yng Nghymru. Mae'n anelu at nodi cyfleoedd i gydweithio a manteisio ar y cyfleoedd hynny, mae'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gymunedau ledled Cymru ac mae'n cynnig llwyfan i gynrychioli'r system blismona gyfan yng Nghymru wrth ymgysylltu â phartneriaid fel Llywodraeth Cymru.

*“Yn gryno, mae angen gwasanaeth yr heddlu ar Gymru sy'n gallu gweithio o fewn yr un fframweithiau deddfwriaethol a pholisi cyffredinol â gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n cael y fath ddylanwad ar ei waith, mewn iechyd, llywodraeth leol a thu hwnt”.*

Mae'r achos dros ddatganoli plismona yn gwbl glir. Fel y nodwyd gan Gomisiwn Thomas, mae cysylltiad agos iawn rhwng plismona ac atal troseddau a swyddogaethau datganoledig megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a llety. Eto i gyd, er y lefel uchel o gyllid o ffynonellau yng Nghymru a'r angen amlwg am gyllid o’r fath, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol na strwythurol i'r heddlu na’r system gyfiawnder gydweithio â Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol na gwasanaethau iechyd. Nid oes ychwaith unrhyw ofyniad i’r heddlu na’r system gyfiawnder gymryd rhan mewn unrhyw fforymau polisi neu fforymau gweithredol Cymreig. Mae'r setliad datganoli presennol yn creu clytwaith o gyfrifoldebau hyd yn oed mewn meysydd sydd wedi'u cydblethu'n agos ar lawr gwlad, a dim ond drwy gydberthnasau personol cryf ar bob lefel y llwyddir i sicrhau bod y sefyllfa anodd hon yn gweithio.

Mae dadleuon dros ddatganoli plismona ar bob lefel. O safbwynt cyfansoddiadol, mae Cymru mewn sefyllfa ryfedd iawn lle gall wneud cyfreithiau ond ni all eu gorfodi. Y Senedd yw'r unig senedd yn y byd cyfraith gyffredin, rydym yn gwybod amdani, a all deddfu ond sydd heb yr awdurdodaeth i orfodi ei chyfreithiau ei hun. Yn amlwg, nid yw hyn yn drefniant cynaliadwy. Ac o safbwynt ymarferol, gwyddom mai ar lefel leol y gweinyddir cyfiawnder orau, lle gall gael ei deilwra, ei flaenoriaethu a'i lywio yn unol ag anghenion cymdeithas. Byddai datganoli hefyd yn ein galluogi i gymryd camau breision o ran materion hanfodol megis plismona ar sail gwrth-hiliaeth.

Enghraifft dda o natur gymhleth ac aneffeithiol y system bresennol yw cyllido prentisiaethau'r heddlu. Mor bell yn ôl â 2019 nododd Comisiwn Thomas yr angen am “drefniadau hirdymor ar gyfer cyllid prentisiaethau i'r heddlu fel na fydd heddluoedd yng Nghymru o dan anfantais o'u cymharu â heddluoedd yn Lloegr”. Yn dilyn cryn negodi, cytunodd y Swyddfa Gartref i gyfrannu tuag at gost prentisiaethau. Yn 2021/22, £1 miliwn oedd y cyfraniad hwn, ac yn setliad 2022/23 (yn dilyn negodi

pellach) dyrannwyd £2.4 miliwn. Dywed y Swyddfa Gartref y bydd hyn yn cau pen y mwdwl ar y mater.

Er gwaethaf y cyfraniad hwn, cred Plismona yng Nghymru fod diffyg o hyd. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod Bwrdd Partneriaeth Plismona mwyaf diweddar Cymru (gweler isod) ym mis Mawrth 2022. Mae hyn yn golygu nad yw'r mater hwn wedi'i ddatrys er yr holl flynyddoedd o drafod, gan ddangos holl gymhlethdod rhwystredig y trefniant presennol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod partneriaid yr heddlu yn parhau i dalu eu lefi prentisiaeth yn llawn, er nad ydynt yn cael yr hyn sydd yn eu barn nhw yn ganlyniad teg.

Rydym yn falch o'n gwaith partneriaeth gyda chydweithwyr yn yr heddlu a phartneriaid cyfiawnder eraill – ond rydym hefyd yn cydnabod y gallem fynd yn llawer pellach a chyflawni cymaint yn fwy â gwasanaeth plismona datganoledig.

Ac mae'n amlwg nad dim ond ni sy'n meddwl felly. O dan y setliad presennol, mae pob heddlu yng Nghymru a Lloegr yn annibynnol, a Phrif Gwnstabl pob heddlu sydd â rheolaeth weithredol a neb arall. Caiff pob heddlu ei oruchwylio gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu etholedig sydd, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, yn llunio ‘Cynllun Troseddau’ ar gyfer ei ardal ac yn dyrannu cyllid yn ôl blaenoriaethau lleol. Mae pedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru, un ym mhob ardal yr heddlu. Mae'n galonogol iawn bod pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru o blaid datganoli plismona.

Byddwn yn parhau i bledio achos datganoli plismona mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU. Mae'n siomedig nad yw lefel y cyfraniad ariannol o ffynonellau yng Nghymru wedi arwain at drosglwyddo cyfrifoldeb i sefydliadau etholedig Cymru, mai Whitehall sy'n pennu blaenoriaethau a mesurau perfformiad plismona, ac nad yw heddluoedd yn atebol i'r Senedd. Byddwn hefyd yn pledio'r achos unwaith yn rhagor i'r Comisiwn Cyfansoddiadol newydd, annibynnol a thrawsbleidiol, a gobeithiwn y bydd rhanddeiliaid eraill yn datgan eu cefnogaeth yn hynny o beth.

Yn y cyfamser, mae'n ffodus bod gennym gydberthnasau gweithredol cadarn. Gweithiwn yn agos gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabliaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru o dan y system bresennol.

Mae Bwrdd Plismona a Phartneriaeth Cymru (y Bwrdd) yn cyfarfod bob chwarter ac fe'i cadeirir gan y Prif Weinidog neu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Uned Cyswllt yr Heddlu (a drafodir isod) sy'n darparu ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, a fynychir gan yr holl Brif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gweinidogion sy'n ymwneud â'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt, cynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Yn fwy diweddar, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi mynychu'n rheolaidd ynghyd â swyddogion o'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Gweinidog Gwladol dros Drosedd a Phlismona yn y Swyddfa Gartref yn bresennol unwaith y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd am ddwyn ynghyd yr holl bartneriaid allweddol o wasanaethau datganoledig ac annatganoledig, i ystyried dulliau blaengar ac arloesol mewn meysydd polisi allweddol ledled Cymru.

Mae Uned Cyswllt yr Heddlu (UCH) yn gweithio i bedwar Prif Gwnstabl a phedwar Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru ac yn atebol iddynt, a chaiff yr Uned ei chynnal gan Lywodraeth Cymru. Mae'n meithrin cysylltiadau ac yn rhoi cyngor ynghylch datblygiadau polisi sy'n effeithio ar blismona ar lefel Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol ar lawr gwlad yng Nghymru. Prif nod yr Uned yw sicrhau'r canlyniadau plismona gorau posibl yng Nghymru drwy weithio mewn partneriaeth â phob rhanddeiliad, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae gan yr Uned gysylltiadau â'r Tîm Trosedd a Chyfiawnder yn Llywodraeth Cymru ond gan ei bod yn cyflawni swyddogaeth annatganoledig nid yw'n gyfrifol nac yn atebol i swyddogion yn y tîm hwnnw.

Mae'r gofyniad am UCH a'i budd yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o'r meysydd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt yn cyffwrdd â phlismona, megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Drwy weithio o fewn Llywodraeth Cymru, gall yr UCH nodi sut y gall polisïau a strategaethau penodol weithio ar lefel weithredol, gan ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio a darparu gwasanaethau effeithiol er nad yw'r setliad datganoli presennol yn gweithio'n ehangach.

### 6.2 Plismona a’r Pandemig

Mae pandemig Covid-19 wedi dangos yn glir sut y gall gweithio mewn partneriaeth gael ei ddatblygu i gyflawni amcanion penodol yng Nghymru hyd yn oed lle nad yw strwythurau yn cefnogi hynny'n naturiol. Mewn ymateb i'r pandemig, ac er na chawn ein cyllido i redeg yr hyn sy'n cyfateb i Swyddfa Gartref, gwnaethom ddatblygu ffordd reolaidd o gyfathrebu â heddluoedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru a oedd yn fodd i gyfnewid syniadau a thystiolaeth. Yn ei dro, bu hyn o gymorth i lywio ein penderfyniadau o ran polisi a deddfwriaeth.

Wrth i'r pandemig ddatblygu, gwelwyd gwahaniaethau naturiol rhwng polisïau a chyfreithiau Cymru a Lloegr wrth i Lywodraeth Cymru geisio diogelu pobl Cymru o fewn cyd-destun amgylchiadau penodol i Gymru a’n cyfrifoldebau deddfwriaethol.

Wrth ddilyn trywydd a oedd yn benodol i Gymru er mwyn mynd i'r afael â'r pandemig, roedd cyfyngiadau cyfreithiol a chosbau gorfodi yn amrywio rhwng Cymru a Lloegr, ac roedd gorfodi rheoliadau penodol i Gymru yn dibynnu’n bennaf ar yr heddluoedd, sef maes a gedwir yn ôl.

Lle roedd gwahaniaethau rhwng rheoliadau a oedd yn berthnasol i Loegr neu i Gymru, gwnaethom weithio gyda heddluoedd yng Nghymru a’u Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod modd i swyddogion ar lawr gwlad gael gafael ar wybodaeth glir. Cyfrannodd y gwaith o gyfleu safbwyntiau'r heddlu yng Nghymru mewn modd cryf ac effeithiol at:

- sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth yn adlewyrchu realiti a chapasiti'r heddlu yng Nghymru
- sicrhau bod cosbau yn briodol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gymesur, ac yn ymdrin â materion a oedd yn dod i'r amlwg
- rhybuddio'r heddlu yn gynnar lle bo modd o unrhyw newidiadau fel bod modd iddo wneud newidiadau ymarferol a gweinyddol

Mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC), lluniodd y Coleg Plismona ganllawiau penodol i gynorthwyo swyddogion yr heddlu i ddeall rheoliadau Cymru a'u rôl nhw o ran eu gorfodi. Cyflawnodd CPS Cymru-Wales rôl debyg ar gyfer ei erlynwyr. Trwy rannu gwybodaeth, roedd modd olrhain

materion lleol a chenedlaethol ac roedd modd i'n Llywodraeth ymateb mewn ffordd gymesur ac effeithiol. Yn olaf, gwnaeth deialog agos sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'r heddlu yn rhannu'r un negeseuon â chymunedau.
Ar lawr gwlad yng Nghymru, mabwysiadodd yr heddlu ddull gweithredu a oedd yn ymateb i sefyllfaoedd lleol, gan gynorthwyo’r mwyaf agored i niwed a helpu i gadw Cymru'n ddiogel. O ran gorfodi, aeth swyddogion yr heddlu ati i ymgysylltu â'r cyhoedd gyntaf, egluro'r rheolau, ac annog cydymffurfiaeth, gyda chamau gorfodi yn gam olaf yn unig pan fetho popeth arall.

Roedd gwaith partneriaeth ar draws meysydd cyfrifoldeb datganoledig ac annatganoledig yn amlwg ar lefel leol. Gweithiodd heddluoedd gydag awdurdodau lleol i gymryd camau gorfodi ar y cyd yn targedu ardaloedd penodol problemus, gan ymdrin ag achosion o dorri rheoliadau'r coronafeirws ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Chwaraeodd fforymau megis Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl hanfodol, yn cydgysylltu'r ymateb ar lefel ranbarthol ac yn annog dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws gwasanaethau.

Dangosodd y pandemig bwysigrwydd gweithio tuag at ddull un sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym mor ddiolchgar i'r staff plismona a weithiodd gyda ni ar bob lefel i gadw pobl yng Nghymru yn ddiogel yn ystod cyfnod heriol tu hwnt y pandemig.

**6.3 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**

Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn hollbwysig i ystod eang o waith, gan ddiogelu pobl a chymunedau ar hyd a lled Cymru. Maent wrth wraidd timau plismona yn y gymdogaeth, gan weithredu fel y cyswllt rhwng cymunedau a gwasanaethau'r heddlu sy'n eu diogelu. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hefyd yn weladwy iawn mewn cymunedau, gan ennyn hyder a balchder yn ein hardaloedd lleol.

Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau i gyllido 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chynyddu'r nifer 100. Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru swm arall o £3.7 miliwn ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol ledled Cymru, gan olygu bod y gyllideb dros £22 miliwn i gyd. Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021-2022, roedd y mwyafrif o'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol hyn

wedi'u recriwtio, gan wneud mwy o wahaniaeth nag erioed i'n strydoedd a'n cymunedau.

Er bod plismona yn dal i fod yn faes a gedwir yn ôl, mae'r ymrwymiad hwn i gyllid ychwanegol yn dangos cymaint o bwys y mae ein llywodraeth yn ei roi ar werthoedd cymuned, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

Dangosodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ddewrder ac empathi heb eu hail yn ystod y pandemig diweddar. Ers mis Mawrth 2020 maent wedi bod yn bresenoldeb addysgol a sefydlogol ar strydoedd Cymru, ac maent wedi chwarae rôl hanfodol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd i atgyfnerthu'r Rheoliadau Diogelu Iechyd. Maent wedi chwarae rôl hollbwysig wrth egluro'r rheoliadau ac annog y cyhoedd i'w dilyn, gan gymryd camau gorfodi pan fetho popeth arall.

Mae gweithredu o'r fath yn ategu dyhead ein llywodraeth i sicrhau cydlyniant cymunedol ac y gwrandewir ar y cyhoedd. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi croesawu'r newidiadau technolegol a ddaeth yn sgil y pandemig. Chwaraeodd rhai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu rôl allweddol yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cydlyniant cymunedol lleol yn ystod cyfnod ansefydlog a dychrynllyd, gan helpu i nodi atebion tai ar gyfer pobl ddigartref agored i niwed neu ymgysylltu â'u cymunedau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, radio, podlediadau a hyd yn oed gynnal clybiau ieuenctid ar-lein.

Caiff gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru ei oruchwylio gan grŵp llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Heddluoedd, yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

### 6.4 Gweithio mewn partneriaeth i amddiffyn plant a chefnogi teuluoedd

Enghraifft amlwg o'r gwaith rhwng Llywodraeth Cymru, plismona a phartneriaid eraill oedd paratoi i ddileu amddiffyniad cosb resymol mewn achosion o ymosod ar blant (gweler pennod 3). Daeth Adran 1 o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 i rym ar 21 Mawrth 2022 a diddymodd amddiffyniad cyfraith gyffredin cosb resymol. Mae hyn yn golygu bod cosb gorfforol o bob math yn anghyfreithlon yng Nghymru.

Fel y trafodwyd wrth graffu ar y ddeddfwriaeth hon yn y Senedd, gall nifer bach o unigolion gael eu cyhuddo neu eu herlyn yng Nghymru mewn amgylchiadau lle, cyn i'r gyfraith newid, na fyddai hynny wedi digwydd. Nid yw'r gyfraith yn hyn o beth wedi newid yn Lloegr lle mae amddiffyniad cosb resymol yn parhau. Dyma'r enghraifft gyntaf o wahaniaeth mewn cyfraith droseddol graidd rhwng Cymru a Lloegr.

O ystyried y cyd-destun hwn, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r heddlu (gan gynnwys drwy Uned Cyswllt yr Heddlu), Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill drwy gydol y gwaith o lunio'r ddeddfwriaeth. Gwnaethom ymgynghori â'r prif randdeiliaid drwy gydol y broses, a gweithio drwy bwyntiau proses manwl drwy grŵp gorchwyl a gorffen, wedi'i gadeirio ar y cyd gan yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol ac wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Roedd hyn yn cynnwys gwaith gyda'r heddlu ar gamau lliniaru posibl yn ymwneud â throseddoli rhieni. Er ein bod yn deall y gallai'r newid i'r gyfraith arwain at gyhuddo nifer bach o unigolion a'u bod yn cael cofnod troseddol, mewn sawl achos gallai camau adsefydlu, gan alluogi'r unigolyn i ddysgu am rianta cadarnhaol a'i ymarfer, fod yn fwy buddiol i iechyd a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol y rhiant a'r plentyn.

Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac awdurdodau lleol i ddatblygu cymorth rhianta wedi'i deilwra y tu allan i'r llys a all gael ei gynnig fel amod datrysiad y tu allan i'r llys a dewis amgen adsefydlol yn lle erlyn. Os cynigir datrysiad cymunedol neu rybuddiad cymunedol a bod yr unigolyn yn derbyn hynny, caiff ei atgyfeirio at gymorth rhianta wedi'i deilwra y tu allan i'r llys a fydd yn cynnig dewis amgen yn lle mynd i'r llys ac yn helpu i leihau achosion o aildroseddu. Bydd gweithiwr rhianta ym mhob awdurdod lleol yn cael atgyfeiriadau gan yr heddlu ac yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr, sydd wedi derbyn cyfrifoldeb, ac sydd wedi cytuno i dderbyn y cymorth un i un hwn wedi'i deilwra. Diben y dull gweithredu hwn yw annog a chynorthwyo rhieni i fabwysiadu technegau rhianta cadarnhaol wrth ei gwneud yn gwbl glir i bawb nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol mewn unrhyw amgylchiadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r cymorth rhianta y tu allan i'r llys hyd at £500,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (2021/22) gyda chyllid dangosol o hyd at £810,000 y flwyddyn am 3 blynedd o fis Ebrill 2022. Disgwyliwn i'r cynllun cymorth rhianta y tu allan i'r llys barhau yn y dyfodol. Cytunwyd ar gyllid dangosol hyd at fis Mawrth 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw byddwn yn monitro'r defnydd o'r cymorth ac yn parhau i adolygu'r galw amdano, ac a oes angen addasu'r cyllid yn briodol.

### 6.5 Caethwasiaeth fodern yng Nghymru

Caethwasiaeth fodern yw un o'r troseddau mwyaf difrifol, ac mae'n drasiedi ei bod yn dal i ddigwydd yng Nghymru. Mae'n cwmpasu caethwasiaeth, caethiwed, llafur dan orfod neu lafur gorfodol, a masnachu mewn pobl. Yn aml gall dioddefwyr caethwasiaeth fodern wynebu sawl math o gamfanteisio, er enghraifft os cânt eu gwerthu i fasnachwr arall sydd wedyn yn camfanteisio arnynt mewn ffordd arall. Mae caethwasiaeth fodern yn achosi dioddefaint mewn cymunedau ledled Cymru. Mae caethwasiaeth fodern yn gysylltiedig â llawer o weithgareddau anghyfreithlon eraill, gan gynnwys Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), troseddau casineb, torri hawliau gweithwyr, troseddau Llinellau Cyffuriau, troseddau mewnfudo cyfundrefnol a throseddau ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â sefydliadau partner i fynd i'r afael â'r drosedd hon. Mae sicrhau cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru ac asiantaethau llywodraethol ac anllywodraethol eraill yn hanfodol i'r agenda caethwasiaeth fodern. Er bod caethwasiaeth fodern yn fater a gedwir yn ôl, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill i:

- atal caethwasiaeth fodern rhag digwydd
- cynyddu dulliau o amharu ar gaethwasiaeth fodern a dwyn cyflawnwyr gerbron llys barn
- diogelu gweithwyr mewn cadwyni cyflenwi yng Nghymru, y DU a thu hwnt
- cynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr i ailadeiladu eu bywydau

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru, y DU a thu hwnt i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith gan gynnwys yr heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr, yn ogystal â chydweithio â phartneriaid

mewn sectorau eraill. Rydym yn parhau i geisio cymryd camau ataliol lle bo modd. Er enghraifft, rydym yn trefnu Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru a'i is-grwpiau cenedlaethol. Rydym hefyd yn cefnogi partneriaethau rhanbarthol ledled Cymru, ac yn rhoi arweiniad strategol ar eu cyfer. Mae'r rhain yn dwyn ynghyd bartneriaid allweddol yng Nghymru megis awdurdodau lleol, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a sefydliadau yn y trydydd sector.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Mae'r Cod Ymarfer yn ceisio lleihau'r risg o gaethwasiaeth fodern a chamfanteisio ar weithwyr yn ein cadwyni cyflenwi. Mae dros 400 o sefydliadau wedi ymrwymo i'r Cod ac rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth, diweddaru canllawiau ategol y Cod a gwella ei effaith. Mewn partneriaeth ag eraill, rydym wedi darparu cyfres o wybodaeth, cyngor a chanllawiau ar Gaethwasiaeth Fodern sydd wedi'u teilwra ar gyfer unigolion, sefydliadau ac ymarferwyr.

**6.6 Plismona a thrafnidiaeth**

Er bod ein setliad datganoli presennol yn ein galluogi i ddeddfu ar faterion yn gysylltiedig â'r amgylchedd a thrafnidiaeth, rhaid cytuno ar reoliadau newydd ag awdurdodau lleol *a'r* heddlu yng Nghymru, a nhw sy'n eu gorfodi. Mae cryn dipyn o waith wedi cael ei wneud mewn partneriaeth â'r heddlu, gan weithio'n agos ac ar y cyd â nhw er mwyn creu a chynllunio'r broses o weithredu a gorfodi cyfreithiau a rheoliadau sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu 22 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sy'n dangos pwysigrwydd ein gwaith ar y cyd.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r fath mae ardaloedd peilot 20mya a pharthau allyriadau isel 50mya. Rydym yn benderfynol o geisio gwella diogelwch ein ffyrdd i bob defnyddiwr drwy edrych ar effaith cyfyngiadau cyflymder o 20mya ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr ledled Cymru. Rydym hefyd am fynd i'r afael â llygredd aer, sef y bygythiad amgylcheddol mwyaf i iechyd yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd. Fel llywodraeth rydym felly wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru gyda'r nod o gyflwyno ac yn y pen draw orfodi rhai cyfyngiadau cyflymder

is a pharhaol ynghyd â chynlluniau camerâu cyflymder cyfartalog i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu hwyluso gan Gan Bwyll / Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru, sef y bartneriaeth fwyaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig ac mae'n enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys 27 o bartneriaid cyfartal, gan gynnwys y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, pedwar heddlu Cymru, a Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a gwasanaethau tân Cymru.

Mae Gan Bwyll yn cymryd camau gorfodi sy'n seiliedig ar wybodaeth, a ategir gan wybodaeth ychwanegol gan yr heddlu ac awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi plismona traffig ar y ffyrdd, gyda chyllid ychwanegol i sicrhau bod modd i dimau gynnal ymgyrchoedd a fydd yn gorfodi'r cyfyngiadau cyflymder yn yr ardaloedd peilot hyn.

Mae partneriaeth Gan Bwyll yn gyfrifol am orfodi rheolau golau coch a chamerâu cyflymder, ond nid yw'r camau a gymerir wedi'u cyfyngu i orfodi'r gyfraith. Yn hytrach, drwy addysg a datrysiadau peirianneg parhaol i ffyrdd, mae'r bartneriaeth hefyd yn annog modurwyr i yrru'n gyfreithlon ac yn ddiogel drwy addysg. Mae'r pedwar heddlu yng Nghymru yn ymrwymedig i ddiogelwch ar y ffyrdd ac addysg gyrwyr. Mae Gan Bwyll wedi gweld manteision ymdrin â nifer o droseddau traffig drwy gwrs addysgol yn hytrach nag erlyniad ers sawl blwyddyn. Mae'r rhesymeg yn seiliedig ar y syniad bod cwrs addysgiadol yn fwy tebygol o wella ymddygiad gyrwyr nag erlyniad a fyddai ond yn arwain at ddirwy a phwyntiau cosb.

Yn olaf, yn unol â'n strategaeth atal a lleihau hunanladdiad, rydym wedi gweithio gyda'n heddluoedd yng Nghymru mewn ymdrech barhaus i nodi lleoliadau lle cafwyd sawl ymgais i gyflawni hunanladdiad. Gobeithiwn leihau nifer y trasiedïau o'r fath drwy sicrhau y gwneir popeth i leihau mynediad i ddulliau neu leoliad hunanladdiad posibl, er enghraifft pont uchel dros draffordd neu reilffordd.

### 6.7 Troseddau cefn gwlad

Cafodd Cydgysylltydd Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt cyntaf erioed Cymru ei benodi ym mis Gorffennaf 2021. Fel rhan o'i rôl mae'n cydgysylltu gwaith yr heddlu

ac asiantaethau partner allweddol i leihau troseddau cefn gwlad, gan gynnwys troseddau da byw, erlid adar ysglyfaethus, tipio anghyfreithlon a dwyn peiriannau fferm, cerbydau a thanwydd. Cafodd y rôl ei chreu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r cydgysylltydd yn arwain Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt gyntaf Cymru, ac yn gweithio gydag ysgolion i helpu plant i ddeall materion troseddau cefn gwlad a bywyd gwyllt yn well a sut maent yn effeithio ar gymunedau. Bydd y Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt yn cael ei llywio gan arolwg Astudiaeth Trosedd Wledig Cymru, sef yr asesiad cenedlaethol cyntaf o natur a graddau troseddau cefn gwlad yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd yr arolwg hwn yn adeiladu ar waith a lywiodd Strategaeth Troseddau Cefn Gwlad Dyfed-Powys 2017-2021 a gyflwynodd swyddogion yr heddlu arbenigol, mwy o gywirdeb wrth gofnodi troseddau cefn gwlad a rhoi strategaethau cyfryngau cymdeithasol dynodedig ar waith. Gobeithir hefyd y bydd yn archwilio canfyddiadau o effeithiolrwydd mentrau o’r fath.

Mae arolwg Astudiaeth Trosedd Wledig Cymru, wedi'i gyflwyno gan Brifysgol Aberystwyth, yn agored i ffermwyr a thrigolion cefn gwlad a wasanaethir gan y pedwar heddlu yng Nghymru. Mae’n anelu’n benodol at ddwyn ynghyd brofiadau ffermwyr o droseddau cefn gwlad a phlismona, a'u boddhad gydag ymateb yr heddlu i droseddau cefn gwlad.

Er mai Llywodraeth Cymru sy'n arwain y strategaeth, asiantaethau gweithredol sydd wrth wraidd gweithgareddau yn erbyn troseddau cefn gwlad. Er enghraifft, mae Future Farms Cymru yn brosiect sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, a ariennir ar y cyd gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Dyfed-Powys. Bydd y prosiect yn ceisio annog ffermwyr i ddefnyddio technoleg i fynd i'r afael â throseddau cefn gwlad, a bydd yn darparu cyngor a chysylltiadau i helpu i ddiogelu ffermydd. Nod arall Future Farms Cymru yw helpu i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl a'r gyfradd uchel o hunanladdiadau yn y gymuned ffermio drwy roi cyngor a chysylltiadau i sefydliadau a all ddarparu cymorth.

Ymhlith gweithgareddau Future Farms Cymru fydd treialu technoleg Rhwydwaith Mynediad Ardal Eang Pŵer Isel Pellter Hir (LoRaWAN) a all hefyd gael ei ddefnyddio i helpu i fynd i'r afael ag achosion o ddwyn o ffermydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi

buddsoddi cryn dipyn yn y dechnoleg hon drwy'r Rhwydwaith Cyswllt Ffermio ac mae ffermydd ledled Cymru yn treialu'r dyfeisiau. Gall synwyryddion clyfar LoRaWAN ganfod pan fydd cerbydau fferm, megis tractorau a beiciau cwad, yn cael eu symud. Caiff data ar y symudiadau eu cofnodi mewn ap. Os nad yw'r symudiadau wedi'u hawdurdodi, caiff yr heddlu wybod.

**6.8 Strwythurau partneriaethau a phrif sefydliadau galluogi Cymru**

Bydd gan bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru amrywiaeth o drefniadau amlasiantaethol ar waith, yn cydweithio i ddiogelu cymunedau a darparu gwasanaethau. Bydd y partneriaethau hyn sy'n bodoli eisoes yn cynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol Rhanbarthol neu Leol, Byrddau VAWDASV Rhanbarthol a llawer mwy. Drwy'r trefniadau hyn, mae gwasanaethau datganoledig ac annatganoledig yn cydweithio yn rhanbarthol ac yn lleol i ddiogelu unigolion, cynllunio gwasanaethau a chefnogi llesiant ein cymunedau. Mae sefydliadau cymunedol a gwirfoddol hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn y partneriaethau hyn.

Mae **Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru** yn chwarae rôl bwysig iawn i sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o'r trefniadau hyn, yn ogystal â chefnogi gwaith polisi cenedlaethol. Cafodd y Rhwydwaith ei greu yn dilyn adolygiad Gweithio gyda’n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel Llywodraeth Cymru, gan atgyfnerthu partneriaethau rhanbarthol a helpu i lenwi'r bwlch a adawyd gan dimau rhanbarthol y Swyddfa Gartref. Mae'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau ac ymarfer diogelwch cymunedol yng Nghymru yn y dyfodol, ac mae'n helpu i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth briodol sydd eu hangen i wneud newidiadau ac adlewyrchu arferion gorau seiliedig ar dystiolaeth ledled Cymru.

Mae'r Rhwydwaith yn cydweithio ag aelodau i hyrwyddo a chefnogi gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol, a dylanwadu ar lywio a datblygu arferion lleol. Ymhlith y gweithgareddau a ddatblygir gan y Rhwydwaith mae:

- dylanwadu ar y gwaith o lywio a datblygu polisïau cenedlaethol ac arferion lleol ym maes Diogelwch Cymunedol

- bod yn ffynhonnell gwybodaeth ac arferion gorau i ymarferwyr diogelwch cymunedol, yn ogystal â darparu pecynnau cymorth, canllawiau, adolygiadau cymheiriaid a chefnogi mentora
- datblygu ymgyrchoedd gwybodaeth cyhoeddus, a gwaith i gynnwys cymunedau mewn gweithgareddau diogelwch cymunedol
- cynnal digwyddiadau hyfforddi a seminarau i uwchsgilio ymarferwyr a chodi ymwybyddiaeth o feysydd ymarfer allweddol a/neu sy'n dod i'r amlwg
- comisiynu, cynnal a thynnu sylw at ymchwil berthnasol i Ddiogelwch Cymunedol
- cefnogi a datblygu rhaglen waith Rhwydwaith Arloesi a Gwella Data a Dadansoddi Cymru (WDAIIN) a gadeirir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gyda Phennaeth y Rhwydwaith yn ddirprwy gadeirydd

Mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru a gyd-gadeirir gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r llefarydd llywodraeth leol ar ddiogelwch cymunedol. Mae'r Bwrdd yn cynnwys aelodau o'r Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, awdurdodau lleol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r trydydd sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £562,000 o gyllid i gefnogi'r gwaith o sefydlu'r rhwydwaith o flwyddyn ariannol 2020/21 i 2022/23. Mae'r Rhwydwaith wrthi'n ystyried newid i fodel cyllido cynaliadwy, a gefnogir gan bartneriaid ledled Cymru.

Mae **Uned Atal Trais Cymru** hefyd wedi chwarae rôl hollbwysig yng Nghymru ers ei sefydlu yn 2019. Mae'r Uned yn bartneriaeth sy'n gweithio i atal pob math o drais drwy ddull iechyd y cyhoedd. Mae Uned Atal Trais Cymru wedi herio'r syniad bod trais yn anochel, ac mae’n hyrwyddo dull cyhoeddus ataliol o ymdrin â thrais, gan ddangos sut y gellir rhagweld trais a'i atal fel unrhyw broblem iechyd arall.

Mae'r Uned yn bartneriaeth amlasiantaethol, sy'n cynnwys aelodau craidd o heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, GIG Cymru, gwasanaethau tân ac achub a'r sector gwirfoddol. Caiff yr Uned ei chefnogi gan aelodau cyswllt ychwanegol o dros 30 o bartneriaid yng Nghymru, o dan gylch gwaith Bwrdd Atal Trais Cymru Gyfan.

Er mwyn cefnogi dull iechyd y cyhoedd o atal trais yng Nghymru, mae Uned Atal Trais Cymru:

- yn dwyn ynghyd bartneriaid i feithrin sgiliau, gallu a gwybodaeth am atal trais yng Nghymru
- yn gweithio gyda llunwyr polisi, comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i gyflwyno polisïau a rhaglenni seiliedig ar dystiolaeth i atal trais
- yn gwneud gwaith ymchwil a gwerthuso i helpu partneriaid a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru i gyflwyno rhaglenni ac ymyriadau sy'n gweithio i Gymru
- yn darparu gwybodaeth, gallu ac adnoddau mewn ymateb i argyfyngau, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid i ddeall a lliniaru effaith yr ymateb i Covid-19 ar drais
- yn comisiynu prosiectau a rhaglenni arloesol i atal trais yng Nghymru

Caiff yr Uned ei hariannu gan y Swyddfa Gartref a'i chefnogi gan gyllid ychwanegol ac ymrwymiadau o ran adnoddau gan asiantaethau partner yng Nghymru o dan gylch gwaith Bwrdd Atal Trais Cymru Gyfan. Yn ddiweddar mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau setliad cyllido tair blynedd i barhau â gwaith yr Uned yng Nghymru gydag ymrwymiadau ychwanegol gan bartneriaid yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a'r heddlu yn parhau. Dros y tair blynedd nesaf, bydd yr Uned yn ceisio datblygu model cyllido cynaliadwy, a gefnogir gan bartneriaid ledled Cymru.

Mae Gwefan Uned Atal Trais Cymru yn darparu rhagor o fanylion am y gwaith a wna, gan gynnwys y gwasanaethau mae'n eu comisiynu'n uniongyrchol i atal trais.

# Pennod 7: Cyfiawnder Troseddol - Swyddogaethau Datganoledig

Ble bynnag y bo modd, ein dull gweithredu fydd dargyfeirio pobl oddi wrth y system cyfiawnder troseddol ac, os nad yw hynny'n bosibl, oddi wrth ddedfrydau sy'n cynnwys carchar. Fodd bynnag, pan fetho popeth arall, rydym yn derbyn bod y carchar yn rhan angenrheidiol o unrhyw system cyfiawnder troseddol. Mae carchardai yn gweithredu'r dedfrydau a roddir gan lysoedd, yn diogelu'r cyhoedd ac yn mynd ati i adsefydlu troseddwyr pan fo'n gwbl angenrheidiol. Yn benodol, efallai na fydd dioddefwyr na thystion yn cysylltu â'r awdurdodau, nac yn rhoi eu hunain drwy'r broses o gefnogi erlyniadau troseddol, heb ryw fath o gred y bydd cosb ddyledus am droseddu, hyd yn oed os na all y gosb, mewn sawl achos, wneud iawn am y niwed na'r trallod a achoswyd.

Fodd bynnag, credwn hefyd fod gormod o ddefnydd o'r carchar mewn ymateb i droseddoldeb, ac y bydd dewisiadau eraill, mewn sawl achos (dros amser) yn gostwng lefelau troseddu ac yn arbed arian cyhoeddus. Mae wedi bod yn wir ers tro mai'r rhai sy'n bwrw'r dedfrydau byrraf sydd â'r cyfraddau aildroseddu uchaf ac, er enghraifft, y gyfradd aildroseddu ar gyfer oedolion a ryddhawyd o'r carchar ar ôl bwrw dedfryd o lai na 12 mis rhwng mis Ionawr 2020 a mis Mawrth 2020 oedd 57.5%.[25] Mae'n amlwg nad yw'r system hon yn llwyddo i weithio i adsefydlu pobl. Mae'n system sy'n dal pobl mewn cylch aildroseddu niweidiol – un sy'n gwneud cam â phobl a chymunedau.

Mae'r cynnydd a wnaed ym maes cyfiawnder ieuenctid dros y blynyddoedd diwethaf yn ei gwneud yn glir nad oes angen i bethau fod fel hyn. Mae ystadegau cyhoeddedig blynyddol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer 2020-21 yn dangos bod nifer y bobl ifanc yng Nghymru yn y ddalfa wedi lleihau 85% rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2021, o 109 i 17. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid

[25] Proven reoffending statistics: January to March 2020

am y tro cyntaf hefyd wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, o dros 3,000 o bobl ifanc yn 2011 i lai na 400 yn 2021.[26]

Credwn y gellir gwneud mwy i atal aildroseddu, gan weithio gyda'r rhai sy'n bwrw dedfrydau o garchar a chyn-garcharorion. A chredwn ei bod yn bwysig i brosesau cyfiawnder troseddol yng Nghymru ddiogelu rhag hiliaeth, rhywiaeth, oedraniaeth neu unrhyw fath arall o wahaniaethu.

Mae’r bennod hon a’r un nesaf yn edrych ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol unwaith y bydd rhywun wedi'i ddal am gyflawni trosedd. Yn y bennod hon ceir rhai enghreifftiau allweddol o feysydd sydd wedi'u datganoli ar hyn o bryd sy'n bwysig i weithredu'r system cyfiawnder troseddol yn llwyddiannus, ac mae’n cadarnhau’r trywydd a ddilynwn o ran y gwasanaethau hynny. Yna yn y bennod nesaf edrychir ar raglenni partneriaeth a sefydlwyd o fewn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru i fynd i'r afael â meysydd sy'n rhychwantu cyfrifoldebau datganoledig ac annatganoledig.

### 7.1. Llety a chymorth ar ôl rhyddhau carcharorion yng Nghymru

Mae cryn nifer o garcharorion o Gymru sy'n cael eu rhyddhau yn ddigartref. Mae hyn yn digwydd am sawl rheswm, gan gynnwys colli eu cartref blaenorol, ôl-ddyledion rhent, teulu a pherthynas yn chwalu neu ddirywiad mewn iechyd, yn gorfforol a/neu yn feddyliol, gan olygu nad yw eu cartref blaenorol yn addas mwyach. Efallai hefyd na all troseddwyr, ar ôl cael eu rhyddhau, ddychwelyd i’w cyfeiriad na hyd yn oed eu hardal flaenorol oherwydd materion yn ymwneud â dioddefwyr a gofynion gwahardd.

Mae rhai adroddiadau yn awgrymu bod angen cymorth ar ddau o bob tri charcharwr i ddod o hyd i lety wrth i'w dyddiad rhyddhau agosáu. Yn aml, mae'n anodd ailsefydlu ac mae llawer o'r bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar yn eu cael eu hunain yn ddigartref, neu mewn cartrefi dros dro ac ansefydlog. O ganlyniad, gall yr unigolion hyn fod yn wynebu mwy o risg o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder eto.

Beirniadwyd y lefel o gymorth statudol sydd ar gael i'r bobl hynny sy'n gadael y carchar, a'r prinder opsiynau tai sydd ar gael ar adeg rhyddhau. Mae rhai pobl yn wynebu llu o heriau ar adeg eu rhyddhau o'r carchar, gan gynnwys y gallu i fodloni

[26] Youth Justice Statistics 2020-21 - supplementary tables p 2

gofynion landlord megis: diffyg geirdaon, cyfriflenni banc, dogfennaeth adnabod neu filiau, blaendal a rhent ymlaen llaw. Mae materion hefyd yn codi mewn perthynas â'r sector rhentu preifat lle gall landlordiaid fod yn amharod i rentu eu heiddo i bobl â chofnod troseddol a/neu sydd â chyflyrau meddygol neu broblemau camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Hefyd gall fod angen i garcharorion hŷn gael cymorth penodol ac ychwanegol i ddod o hyd i dai priodol wrth eu rhyddhau, yn enwedig os oes ganddynt anghenion iechyd a gofal sy'n gofyn am wneud addasiadau penodol i eiddo.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddynt gydweithio â’n rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, heddluoedd Cymru, y llysoedd, y Rhaglen Glasbrint i Fenywod, a thimau atal digartrefedd ymhlith eraill, er mwyn ceisio sicrhau nad yw'r garfan hon yn wynebu digartrefedd mwyach.

Mae Fframwaith Strategol Llety yng Nghymru yn fframwaith strategol ar y cyd rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Amlinella weledigaeth a dyheadau allweddol Cymru o ran darparu atebion tai i bobl o Gymru sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, neu sy'n wynebu risg o hynny, ac fe'i cefnogir gan raglen waith sy'n annog mwy o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu, gyda ffocws ar gamau ataliol ac ymyrryd yn gynnar. Mae'r cynllun yn gosod blaenoriaethau cenedlaethol, a all wedyn gael eu rhoi ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol mewn partneriaeth â thimau tai awdurdodau lleol ac wedi'u cefnogi gan dasgluoedd atal digartrefedd rhanbarthol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Fel rhan o flaenoriaeth Llywodraeth Cymru i sicrhau mai peth prin a dros dro yw digartrefedd, ac na chaiff ei ailadrodd, mae'r Rhaglen Lywodraethu bresennol yn gwneud yr ymrwymiad cadarn i “ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu’n gyflym”.

Yn y bôn, mae a wnelo dull “Ailgartrefu'n Gyflym” mewn perthynas â darparu gwasanaethau digartrefedd â chanolbwyntio ar ddarparu llwybr cyflymach a mwy effeithlon drwy wasanaethau a mathau o lety dros dro, gan roi pwyslais ar gael gafael ar lety parhaol a sefydlog cyn gynted â phosibl. Mae'r ffocws hwn ar ddarparu

llety sefydlog yn cydnabod buddiannau cartref sefydlog wrth helpu unrhyw un sydd wedi bod yn ddigartref i ailsefydlu ac ailafael yn ei fywyd. Mae'n galluogi pobl i ddechrau mynd i'r afael ag anghenion cymorth eraill drwy wasanaethau cymorth cofleidiol a rheoli achos cydgysylltiedig. Mae'n newid sylfaenol yn y dull o ddarparu gwasanaethau digartrefedd ac, o ganlyniad, bydd angen cyfnod pontio fel y gall gwasanaethau allweddol ac, yn y cyd-destun hwn, Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ac awdurdodau lleol, gefnogi'r broses o feithrin gallu a sicrhau bod gwasanaethau atal yn gallu gweithio ar y cyd â gwasanaethau ailsefydlu.

Mae'r dull Ailgartrefu'n Gyflym hefyd yn cynnwys atal digartrefedd drwy fodelau cymorth dwys, megis y dull Tai yn Gyntaf uchel ei fri'n rhyngwladol sy'n helpu hyd yn oed yr unigolion mwyaf cymhleth ac agored i niwed i ailafael yn eu bywydau a byw'n annibynnol.[27] Mae'r gwaith o fabwysiadu'r model adfer, sy'n targedu pobl sydd wedi bod yn cysgu allan ac sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau cymhleth neu ar y cyd, ac sydd yn aml angen mwy o gymorth, wedi cael ei ganmol yn eang am ei effeithiolrwydd, ac mae wedi dod yn ffocws polisi digartrefedd Llywodraeth Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Elfen allweddol o ddull trawsnewid Ailgartrefu'n Gyflym fydd cynyddu capasiti gwasanaethau Tai yn Gyntaf ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer y rhai sydd yn y carchar.

**7.2 Diogelu iechyd mewn carchardai**

Er mai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am garchardai yng Nghymru, mae gofal iechyd yn gyfrifoldeb datganoledig a gyflawnir gan Fyrddau Iechyd (ar wahân i CEM Parc sy'n garchar preifat, ond bydd gofal iechyd y safle hwn yn cael ei drosglwyddo i'r bwrdd iechyd yn ddiweddarach yn 2022).

Mae gan garcharorion anghenion sylweddol: fel y mae Cais, Hafal a Chanolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru wedi'i nodi, mae carcharorion yn aml yn “people who for many reasons tend not to access mainstream services and who often fall between gaps in existing services”.[28] Mae'r un cyrff wedi awgrymu bod

[27] Ffederasiwn Tai Cenedlaethol - Housing First

[28] Health and Social care in the Adult prison estate - inquiry by the Health, Social Care and Sport Committee: A joint response by CAIS, Hafal and WCADA

gan gynifer â 9 o bob 10 carcharor broblem iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau (neu'r ddau) y gellid ei diagnosio. Mae'r boblogaeth mewn carchardai hefyd yn heneiddio a fydd yn creu angen am gymorth penodol ychwanegol.

Yn ogystal â bod o fudd i'r unigolion eu hunain mae hefyd o fudd i gymdeithas yn fwy cyffredinol achub ar y cyfle a all godi mewn rhai achosion i gael triniaeth yn y carchar.

Cytunwyd ar Gytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai ym mis Medi 2019. Mae hwn yn gytundeb cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Amlinella flaenoriaethau cytûn ar gyfer gwella iechyd mewn carchardai. Noda “dylai'r carchar fod yn lle i'r unigolyn gael cyfle i newid cyfeiriad ei fywyd”, ac mae'n ymrwymo i “nod a rennir o sicrhau bod y rheini sydd yn y carchar yn cael byw mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a llesiant, lle mae mynediad at wasanaethau iechyd o safon gyfatebol i'r gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned”.

Mae'r blaenoriaethau yn seiliedig ar y cytundeb mai dull carchar cyfan yw hwn o wella canlyniadau iechyd a llesiant carcharorion yng Nghymru, gan gynnwys:

- iechyd meddwl a datblygu safonau cytûn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai
- camddefnyddio sylweddau a datblygu Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau newydd ar gyfer carchardai
- ffocws ar y graddau y mae safonau rheoli meddyginiaethau (wedi'u datblygu gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol) yn cael eu cyrraedd mewn carchardai yng Nghymru ar hyn o bryd
- gwella'r amgylchedd carchardai ehangach gan gydnabod ei gyfraniad at wella canlyniadau iechyd a llesiant

Wrth ddatblygu'r gwaith hwn rydym hefyd yn cael ein llywio gan adroddiad mis Mawrth 2021 y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon sef Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystad carchardai i oedolion yng Nghymru. Dilynodd ymchwiliad yn archwilio effeithiolrwydd y trefniadau presennol ar gyfer cynllunio gwasanaethau iechyd i garcharorion yng Nghymru, y rhwystrau i wella'r system gofal

iechyd mewn carchardai, y gofynion a'r pwysau ar wasanaethau, a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r adroddiad yn cynnwys 27 o argymhellion, sydd naill ai wedi cael eu derbyn neu eu derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion perfformiad, hyfforddiant i staff carchardai sy'n gweithio gyda charcharorion hŷn, a datblygu llwybr dementia i garcharorion gan gynnwys sgrinio a diagnosis cynnar. Byddwn yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a rhanddeiliaid eraill er mwyn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Mae hefyd yn bwysig adlewyrchu bod anghenion gofal iechyd pobl a geir yn euog o gyflawni troseddau yn ymestyn y tu hwnt i'r rhai a ddedfrydir i garchar yng Nghymru. Ledled Cymru, caiff triniaeth camddefnyddio sylweddau i'r rhai yn y system cyfiawnder troseddol, yn y gymuned, ei chomisiynu drwy Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar hyn o bryd. Mae'r lefel o integreiddio yn amrywio ledled Cymru, gyda rhai ardaloedd yn darparu gwasanaethau cwbl integredig ac eraill yn dilyn trefniadau cwbl ar wahân ar hyn o bryd.

Cafodd adroddiad ar y cyd Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi a'r Comisiwn Ansawdd Gofal ar driniaeth yn y gymuned i bobl dan oruchwyliaeth ei gyhoeddi ym mis Awst 2021 a oedd yn cwmpasu Cymru a Lloegr. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gwasanaethau prawf at ei gilydd yn ymateb yn wael i broblemau ac anghenion camddefnyddio cyffuriau. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar Gymru a Lloegr, tynnwyd sylw at rai gwahaniaethau o ran y cyd-destun yng Nghymru. Nododd yr Arolygiaeth fod “datganoli yng Nghymru wedi helpu i amddiffyn y buddsoddiad mewn gwasanaethau cyffuriau, a daethom o hyd i ddull partneriaeth mwy effeithiol yn fanno a bod “Cymru hefyd wedi arwain y ffordd gyda meddyginiaethau newydd i drin caethiwed i gysglynnau”. Bydd swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a rhanddeiliaid eraill i ystyried yr argymhellion yng nghyd-destun Cymru, ond nodwn fod hyn yn enghraifft arall lle mae Cymru wedi gallu manteisio ar fwy o ryddid i roi gwell canlyniadau.

## Addysg i oedolion mewn carchardai yng Nghymru

Mae darpariaeth dysgu a sgiliau o fri mewn carchardai yn cynorthwyo unigolion i feithrin y sgiliau, yr wybodaeth a'r hyder sydd eu hangen arnynt i gael gwaith a dod yn hunangyflogedig. Dylai darpariaeth ddysgu carchardai fod yn berthnasol ac ymateb i anghenion penodol dysgwyr unigol, gan eu cefnogi drwy roi ail gyfle iddynt gael addysg a dysgu, a helpu i wella eu dyheadau gyrfa. Dylai hefyd fod cysylltiad clir ac ymatebol rhyngddi ac anghenion y farchnad lafur, gan gyrraedd safonau diwydiannol a chynnwys meithrin sgiliau cyflogaeth craidd fel rhan o'r broses o ailintegreiddio yn y gymuned.

Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio cwricwlwm cyfannol sy'n ennyn diddordeb carcharorion ac yn eu hysbrydoli i ddysgu er mwyn magu hyder a meithrin eu sgiliau. Dylai'r blaenoriaethau mewn carchardai adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran gwella cyrhaeddiad dysgwyr sydd o dan anfantais a mynd i'r afael â'r bwlch mewn dyheadau, gwella cyfleoedd pob dysgwr mewn bywyd, a chynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu yng Nghymru.

Bydd hyn yn cynnwys cefnogi carcharorion i achub ar y cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol seiliedig ar sgiliau sydd eu hangen arnynt i wella eu rhagolygon gwaith.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi unigolion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), gan roi pwyslais ar sicrhau bod pob dysgwr mewn carchardai yn cael ei asesu am unrhyw anghenion niwroamrywiaeth a threfnu darpariaeth addysgol arbennig. Dylai'r wybodaeth o'r asesiadau hyn gael ei defnyddio i sicrhau bod y dysgwr yn cael cyfleoedd dysgu ac adnoddau perthnasol fel y gellir darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr ag ADY yn yr ystafell ddosbarth yn y carchar.

Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn rhan o'r Cynllun Dysgu Personol y dylid ei baratoi ar gyfer pob dysgwr. Bwriedir i'r Cynllun gael ei deilwra yn ôl addysg a chyflogaeth flaenorol y dysgwr, a bydd yn nodi'r gweithgareddau addysgol a ddylai gael eu cyflawni yn ystod ei ddedfryd, yn gysylltiedig ag anghenion, dyheadau a nodau cyflogaeth realistig y dysgwr unigol. Mae'r cynllun hwn yn creu'r llwybr i'r carcharor gael swydd ar ôl iddo gael ei ryddhau.

Mae'r Cynllun Dysgu Personol yn gyfle i nodi'r holl ddysgu a gyflawnir yn y carchar – gan gynnwys darpariaeth y trydydd sector, dysgu o bell, mentora gan gymheiriaid, a dysgu seiliedig ar waith – felly caiff yr holl ddysgu ei gofnodi mewn un man. Anogir dysgwyr i wneud cynnydd drwy gydol eu taith ddysgu er mwyn cyrraedd eu llawn botensial. Felly mae'r Cynllun ar gael i bob partner cyflawni sy'n gweithio gyda'r unigolyn hwnnw fel bod modd cofnodi'r holl ddyheadau a chyflawniadau yn yr un cynllun hwn a'i ddefnyddio fel cofnod dysgu pan gaiff yr unigolyn ei ryddhau.

Caiff pob dysgwr y cyfle i gamu ymlaen gyda'i ddysgu, a chaiff y rhai sydd mewn sefyllfa i wneud hynny gynnig addysg bellach ac addysg uwch; gall hyn gael ei hwyluso gan Ymddiriedolaeth Addysg Carcharorion a all gefnogi dysgwyr i ddilyn amrywiaeth o gyrsiau.

## Cefnogi cyn-filwyr sydd yn y system cyfiawnder troseddol

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyn-aelodau o'r lluoedd arfog sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol yn fwy tebygol o wynebu anawsterau iechyd meddwl neu broblemau iechyd corfforol.

Dechreuodd y prosiect i gefnogi cyfnod pontio personél milwrol (SToMP) yn 2016 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2021. Helpodd y prosiect i gynllunio, cyflwyno ac ymgorffori dull system gyfan cyson o nodi a chefnogi cyn-aelodau o'r lluoedd arfog ledled Cymru, o'u harestio i adael y system cyfiawnder troseddol.

Er bod prosiect SToMP wedi dod yn rhan o weithgareddau busnes fel arfer, mae cyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn dal i fod yn faes blaenoriaeth, fel y'i nodwyd yn y fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu 2018-2023. Mae'r gwaith yn parhau i ymateb i argymhellion gwerthusiad y prosiect[1], cynnal yr hyn a gyflawnwyd hyd yma, monitro cofnodion a chynnal cydberthnasau ac arferion gwaith ar y cyd.

Gall GIG Cymru i Gyn-filwyr hefyd gefnogi cyn-filwyr mewn carchardai yng Nghymru drwy asesiadau ac atgyfeiriadau cychwynnol drwy'r timau iechyd mewn carchardai – ac mae hefyd gynlluniau i dreialu mynediad at driniaeth o bell ar gyfer iechyd meddwl yn gysylltiedig â gwasanaeth milwrol. Wasanaeth i unigolion sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ar unrhyw adeg yn eu bywydau ac sy'n profi anawsterau iechyd meddwl yn ymwneud yn benodol â'u gwasanaeth milwrol.

### 7.3 Addysg a dysgu mewn carchardai yng Nghymru

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r ddarpariaeth addysg a dysgu (gan gynnwys llyfrgelloedd carchardai) ar gyfer oedolion mewn carchardai yng Nghymru (yn ogystal ag ar gyfer plant yn y system cyfiawnder ieuenctid, a drafodir yn ddiweddarach yn yr adran hon). Gwneir hyn drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi Cymru yn parhau i arwain y ffordd wrth sicrhau bod pob carchar yn gallu troi at unigolion mewn rolau arwain arbenigol ar draws y rhwydwaith o athrawon lle gall athrawon (a staff carchardai yn ehangach) ar draws y rhwydwaith carchardai yng Nghymru gael cyngor, cymorth ac adnoddau ar sut i ennyn diddordeb mewn dysgu a'i ymgorffori yn yr ardaloedd hyn. Mae'r rhwydweithiau hyn yn ymgysylltu â chydweithwyr o'n sectorau addysg bellach ac addysg uwch i rannu arbenigedd cwricwlaidd ac archwilio'r potensial am gyfleoedd secondio a datblygu. Ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r opsiynau a'r potensial i wneud y defnydd mwyaf o Lwyfan Hwb er budd athrawon mewn carchardai fel y gellir cael gafael ar adnodd canolog i rannu adnoddau ac ymarfer arloesol ym maes dysgu troseddwyr.

Yn dilyn cyhoeddi adolygiad annibynnol David Hanson o addysg mewn carchardai, Diwygio Canlyniadau Adolygiad o Addysg Troseddwyr yng Nghymru, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Polisi Addysg i Garchardai er mwyn sicrhau bod pob rhanddeiliad, gan gynnwys carcharorion, staff carchardai ac aelodau o'r cyhoedd, yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau rydym yn anelu at ei chynnig mewn carchardai. Oherwydd economi gymysg carchardai, nid yw Llywodraeth Cymru yn ariannu'r holl ddarpariaeth dysgu a sgiliau yng Nghymru yn uniongyrchol ar hyn o bryd; fodd bynnag, byddwn yn disgwyl i bob carchar yng Nghymru ystyried y ddogfen bolisi wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau.

Mae'r ddogfen bolisi yn cael ei datblygu i adlewyrchu'r rhaglen lywodraethu newydd a bydd yn rhoi amlinelliad clir o'n disgwyliadau a'n huchelgeisiau polisi, yn ogystal â throsolwg o rolau a chyfrifoldebau allweddol pawb sydd ynghlwm wrth addysg mewn carchardai yng Nghymru. Y nod yw cyhoeddi'r ddogfen hon yn haf 2022.

Bwriedir iddi gwmpasu:

- *Llwybr Dysgu Troseddwyr Benywaidd*[29]

Gan adeiladu ar waith blaenorol gyda CEM Eastwood Park a menywod sydd wedi cael eu rhyddhau o'r carchar, y nod yw datblygu llwybr dysgu i droseddwyr benywaidd sy'n rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru greu arlwy dysgu ategol a all helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y system a chefnogi menywod wrth iddynt adsefydlu. Mae'r darn hwn o waith yn ategu ac yn gwella'r datblygiadau sydd ar droed drwy Lasbrint Cyfiawnder Menywod.

- *Llyfrgelloedd mewn Carchardai yng Nghymru*[30]

Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, yn ymrwymedig i ddatblygu a chyflwyno amgylchedd dysgu cynhwysol i droseddwyr sy'n ennyn diddordeb ac yn ysbrydoli dysgwyr mewn carchardai, yn enwedig drwy eu teithiau addysgol. Mewn ymgais i roi pob cefnogaeth i garcharorion yn eu haddysg, mae'r un mor bwysig cael mynediad at wasanaeth llyfrgell mwy cynhwysol mewn carchardai.

- *Dysgu ar gyfer Troseddwyr yn y Gymuned*

I'r troseddwyr hynny a gaiff ddedfryd gymunedol neu sydd ar fin gadael y carchar ac ailsefydlu yng Nghymru ar ddiwedd eu dedfryd, mae hwyluso ymgysylltu â dysgu yn

---

[29] Cafodd Chwarae Teg ei gomisiynu i gynnal ymarfer cwmpasu byr ar y ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes o ran llwybrau addysgol troseddwyr benywaidd a chyflwynodd adroddiad ar y canfyddiadau cychwynnol i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2020.Myfyriodd yr adroddiad ar y gwasanaethau a'r rhaglenni sydd ar gael i fenywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ar hyn o bryd. Y brif thema ynddo oedd yr angen i gydnabod y duedd o ran rhywedd sy'n rhan gynhenid o'r system cyfiawnder troseddol a natur gymhleth y rhesymau pam mae menywod yn troseddu. Yn seiliedig ar werthusiad o'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymarfer cwmpasu, argymhellodd Chwarae Teg ddull unigoledig a chyfannol o ddatblygu llwybr dysgu i droseddwyr benywaidd. Mae'r adroddiad o blaid ymgorffori a hyrwyddo dysgu drwy'r naw llwybr er mwyn gostwng aildroseddu.

[30]Nododd yr Adolygiad Blynyddol o Lyfrgelloedd Cymru yn 2016 fod hyd at 46% o boblogaeth Cymru yn defnyddio gwasanaethau llyfrgell yn eu hawdurdod lleol a bod hyd at ddeg miliwn o lyfrau yn cael eu rhoi ar fenthyg i'r cyhoedd. Fel arfer ystyrir mai'r genhedlaeth hŷn sy'n defnyddio llyfrgelloedd, ond mae'r adroddiad hwn bellach wedi dangos bod 51% o'r canfyddiadau cyffredinol o ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell rhwng 15 a 24 oed. Dengys yr adroddiad hwn pa mor ddefnyddiol yw llyfrgelloedd mewn cymdeithas, a'r graddau y'u defnyddir, felly byddai hyd yn oed yn fwy buddiol cael gwasanaeth modern mewn carchardai.

y gymuned yn rhan o gylch gwaith y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru drwy'r timau ailsefydlu.

Er bod llawer o'r gwaith a wneir gyda'r unigolion hyn yn anelu at eu cael mewn swydd, i'r rhai sydd am barhau ag astudiaethau neu ailddechrau astudiaethau a oedd yn mynd rhagddynt cyn iddynt gael eu carcharu, gall fod yn brofiad rhwystredig. Mae mynediad at addysg bellach ac addysg uwch yn canolbwyntio'n bennaf ar y rhai sy'n gadael yr ysgol. Mae'r flwyddyn academaidd yn adlewyrchu addysg oedran gorfodol ac nid yw'n ddigon hyblyg nac ystwyth i ddarparu ar gyfer y rheini, megis cyn-droseddwyr, sydd am barhau i ddysgu fel oedolyn neu ailddechrau gwneud hynny, heb ddisgwyl iddynt gydymffurfio â normau sefydledig. O ystyried, mewn sefydliadau diogel i oedolion, fod y dysgwyr hyn wedi cael mynediad at addysg hyblyg a phwrpasol, gall wynebu'r fath rwystrau mynediad gael effaith niweidiol ar daith ailsefydlu'r unigolion hyn.

**7.4 Cyflogaeth**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cymru Gryfach, Decach a Gwyrddach: Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau ym mis Mawrth 2022. Amlinella ein cynlluniau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd a meithrin diwylliant dysgu am oes, a noda sut yr awn ati i fynd i'r afael â rhai o'r prif heriau sy'n wynebu'r farchnad lafur a thueddiadau o ran cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys ymestyn y Warant i Bobl Ifanc i'r rhai sydd yn y carchar. Y Warant i Bobl Ifanc yw prif ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pawb o dan 25 oed sy'n byw yng Nghymru yn cael cefnogaeth i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, a'u helpu i ddod o hyd i waith neu ddod yn hunangyflogedig. Yn ystod 2022, drwy wasanaeth Cymru'n Gweithio, byddwn yn sicrhau bod y cynnig hwn ar gael i garcharorion ifanc, gan sicrhau eu bod yn cael y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth hyfforddiant a sgiliau cyflogadwyedd sydd ar gael iddynt.

Yn ogystal â sicrhau bod y Warant i Bobl Ifanc ar gael i'r rhai sydd yn y carchar, mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i archwilio datblygiad cymorth wedi’i dargedu ar gyfer y rhai sydd ar fin gadael y carchar, a gwella cymorth cyflogadwyedd a hyfforddiant sgiliau i ddysgwyr mewn carchardai yng Nghymru. Bydd canolfannau cyflogadwyedd mewn carchardai yn dechrau gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau

Rhanbarthol i nodi cyfleoedd i garcharorion sy'n adlewyrchu anghenion y rhanbarthau'n uniongyrchol. Gall y Partneriaethau hyn roi cymorth drwy gynnal dadansoddiad manwl yn edrych ar leoliad swyddi, nifer y bobl sy'n gwneud cais am bob math o swydd a'r potensial i ddatblygu sgiliau arbenigol. Bydd hyn yn sicrhau bod darpariaeth dysgu a sgiliau yn uniongyrchol gysylltiedig ag amcanestyniadau gwybodaeth berthnasol y farchnad lafur leol, fel bod unigolion yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen i wella eu cyfleoedd cyflogaeth ar adeg eu rhyddhau.

Hefyd, gall carcharorion ddefnyddio prif wasanaeth cymorth a chyngor cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru, Cymru'n Gweithio, sydd, ar y cyd â hyfforddwyr gwaith ac arweinwyr cyflogaeth carchardai'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn gyfrwng i'r rhaglenni cyflogadwyedd a gwasanaethau cymorth (ariannol, iechyd a thai) sydd ar gael yn y carchar a thrwy'r gatiau i'r gymuned. Mae sgiliau ac adnoddau digidol yn rhan bwysig iawn o'r darlun hwn hefyd: mae ymchwil gan Lywodraeth y DU yn dangos bod profiad carcharorion yn ystod pandemig Covid-19 wedi cynyddu allgáu digidol yn sylweddol, gan olygu nad yw llawer wedi'u paratoi o gwbl ar gyfer y byd digidol. Bydd canolbwyntio ar ddatblygu prosesau cyflwyno hyfforddiant a chymwysterau perthnasol i ddysgwyr mewn carchardai, a dysgwyr sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned, yn y dyfodol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y grŵp hwn yn gallu achub ar y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir gan y Strategaeth Ddigidol i Gymru.

Gan gydweithio â'n partneriaid, byddwn yn archwilio'r cyfle i garcharorion ddilyn rhaglenni cyflogadwyedd eraill[31] yn y carchar er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael wrth iddynt adael y carchar. Drwy hyn bydd modd cael cysylltiadau uniongyrchol â chyflogwyr sydd wedi buddsoddi yn yr hyfforddiant a ddarperir yn y carchar ac wedi ymrwymo i gyflogi dysgwyr ar adeg eu rhyddhau, neu sy'n cydnabod buddiannau cyflogi troseddwyr.

### 7.5 Gwasanaethau plant

Mae rhoi cefnogaeth gynnar i blant a theuluoedd yn hanfodol er mwyn amddiffyn plant a phobl ifanc mewn gofal, yn ogystal â'r rhai sydd ar gyrion gofal, rhag

[31] Er enghraifft: Rhaglen Gwaith ac Iechyd yr Adran Gwaith a Phensiynau; Rhaglen Cyfrif Dysgu Personol Llywodraeth Cymru; Prosiect Adeiladu Cyfleoedd, Sgiliau a Llwyddiant (BOSS) The Wallich

troseddoli. Mae angen cydweithio agos rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau troseddwyr ifanc, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn amddiffyn plant sy'n derbyn gofal a'u helpu i osgoi troseddoli.

Yn y deng mlynedd diwethaf, bu lleihad sylweddol yn nifer y plant sydd wedi cael eu harestio, eu cael yn euog o drosedd a'u dedfrydu. Mae'r rhai sy'n parhau yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn aml yn dod o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig, ac mae gan lawer anghenion cymhleth gan gynnwys anawsterau dysgu ac iechyd meddwl, ac mae llawer yn aml wedi dioddef trosedd eu hunain.

Er mwyn gwella canlyniadau llesiant cenedlaethau'r dyfodol o blant a phobl ifanc yng Nghymru, rydym yn cefnogi gwasanaethau i gydweithio er mwyn:

- trawsnewid bywydau plant sydd wedi profi adfyd ac sydd mewn perygl o ymddygiad hunan-niweidiol a phrofi camfanteisio troseddol
- lleihau'r niferoedd sy'n dioddef troseddau ieuenctid a gwella'r gefnogaeth i ddioddefwyr (gan gynnwys y rhai sy'n troseddu)

Mae hyn yn gofyn am gydweithio agos rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau yn eu meysydd cymhwysedd gweithredol. Mae dull system gyfan o'r fath yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant sy'n rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, neu sy'n wynebu risg o hynny, yn gallu cael gafael ar wasanaethau sydd er eu budd pennaf, nad ydynt yn gwahaniaethu yn eu herbyn, sy'n eu hannog i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt ac sy'n sicrhau bod eu hawliau a'u hawliadau yn cael eu parchu.

Er enghraifft, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref, yn ddiweddar gwnaethom gyhoeddi Protocol Cymru Gyfan sy'n hyrwyddo ymarfer i ostwng troseddoli plant ac oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal (gweler y blwch isod).  Bydd y protocol yn helpu'r rhai sy'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal wrth gyflawni eu gwaith, i rannu fframwaith cyffredin o egwyddorion a disgwyliadau a gaiff ei lywio gan ddull sy'n hyrwyddo hawliau plant ac yn diogelu ac yn hyrwyddo eu llesiant.

Rydym hefyd yn ystyried sut y gallai plant sy'n gadael y ddalfa gael eu cynnwys yng nghynllun peilot Incwm Sylfaenol i'r Rhai sy'n Gadael Gofal.

Enghraifft arall yw cronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc sydd Mewn Perygl o Droseddu, sy'n rhan o'r grant Plant a Chymunedau. Mae'r gronfa bresennol yn cynnig cymorth ataliol a dargyfeiriol i blant sydd mewn perygl o ddod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid, a chymorth hefyd i'r sydd eisoes yn rhan ohoni. Gall gwasanaethau troseddwyr ifanc a phartneriaid eraill ddefnyddio'r gronfa i gyflawni prosiectau sy'n cefnogi'r amcanion strategol canlynol:

- lleihau nifer y rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf yng Nghymru
- gostwng y gyfradd aildroseddu profedig gan bobl ifanc yng Nghymru
- gostwng cyfran y bobl ifanc a geir yn euog yn y llys ac sydd yna'n cael eu dedfrydu am gyfnod yn y ddalfa
- gwella nifer yr oriau o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth addas a gaiff plant a phobl ifanc o fewn y system cyfiawnder ieuenctid
- gwella mynediad at lety addas i bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid
- gwella mynediad at wasanaethau asesu a thriniaeth camddefnyddio sylweddau
- gwella mynediad at wasanaethau asesu a thriniaeth CAMHS


Mae'r cyllid yn helpu i dorri'r cylch anfantais ac anghydraddoldeb, datblygu ymddygiadau cadarnhaol drwy flynyddoedd ffurfiannol a sicrhau bod pobl ifanc yn cyrraedd cerrig milltir datblygiadol allweddol er mwyn cael swyddi a sicrhau iechyd a llesiant da ehangach. Hefyd mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith a gefnogir gan y gronfa Plant a Chymunedau yn cysylltu â'r glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a drafodir yn y bennod nesaf.

Yn olaf, caiff Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ei gynnull ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru. Ei brif ddiben yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i weithredu polisi sy'n atal troseddu ac aildroseddu ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru ac, yn ogystal, mae'n darparu swyddogaeth graffu a chefnogaeth i weithredu ei Lasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid (gweler y bennod ganlynol).

Mae Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru wedi'i sefydlu i:


- ddeall y data a'r dystiolaeth sy'n sail i droseddau ieuenctid
- ystyried ffyrdd y gall cydweithio helpu i fynd i'r afael â rhai o'r heriau
- llywio'r cyngor a roddir i weinidogion

Rydym yn ddiolchgar iawn i aelodau’r Panel am eu hymdrechion parhaus, sydd wedi dwyn ffrwyth gyda llwyddiannau clir. Mae ystadegau cyhoeddedig blynyddol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ar gyfer 2020-21 yn dangos bod gostyngiad o 84% yn nifer y bobl ifanc yng Nghymru yn y ddalfa rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2011 hyd at fis Mawrth 2021, o 109 i 17. Mae'r ffigur o 17 ym mis Mawrth 2021 ar ei lefel isaf erioed.




Yn yr un modd, mae nifer y bobl ifanc sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf yn parhau i leihau o flwyddyn i flwyddyn yng Nghymru, o dros 3,000 o bobl ifanc yn 2011 i lai na 400 yn 2021.[32]

[32] Yr union ffigurau yw 3017 yn 2011 i 395 yn 2021, gweler ystadegau cyfiawnder ieuenctid




Mae'r ffigurau hyn yn dangos yr hyn y gallwn ei gyflawni drwy gydweithio â syniad clir o sut mae angen i'r system newid.

**Addysg yn yr ystad ieuenctid yng Nghymru**

Er mai Llywodraeth y DU sy'n parhau'n gyfrifol am gyfiawnder a phlismona, gan gynnwys darparu Sefydliadau Diogel i oedolion a phlant yng Nghymru, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr holl wasanaethau sy'n ymwneud â llesiant plant. Mae hyn yn cynnwys nifer o feysydd polisi sydd ynghlwm wrth ddarparu Sefydliadau Diogel i blant ac sy'n dilyn ymlaen o hynny, megis iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol.

Ar hyn o bryd caiff plant o Gymru (10-18 oed) mewn Sefydliadau Diogel eu rhoi yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Carchar EM Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cartref Diogel i Blant Hillside yng Nghastell-nedd Port Talbot neu mewn darpariaeth ddiogel yn Lloegr. Yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, caiff addysg ei chomisiynu gan G4S ac yn Hillside caiff addysg ei hariannu gan yr awdurdod lleol a'i chomisiynu gan ysgol leol.

Fel y'i hamlinellir yn 'Y weledigaeth ar gyfer plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' (Mawrth 2021) rydym am i blant mewn Sefydliadau Diogel gael y cyfle gorau i gael gafael ar yr holl wasanaethau sydd eu hangen arnynt i adael y ddalfa ac ailsefydlu a chyflawni eu potensial. Mae hyn yn cynnwys cael mynediad i gwricwlwm Cymru a chael addysg a all ddiwallu eu hanghenion ieithyddol, diwylliannol a datblygiadol, a darpariaeth i gefnogi Anghenion Dysgu Ychwanegol pan fo angen.

## Gostwng troseddoli ymhlith plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal

Bydd llawer o blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd wedi bod mewn gofal wedi profi trawma a/neu gamdriniaeth cyn derbyn gofal. Mae'r bobl ifanc hynny sydd wedi cael eu cam-drin drwy niwed megis camfanteisio'n rhywiol ar blant neu gamfanteisio'n droseddol ar blant yn profi trawma ychwanegol camdriniaeth emosiynol, seicolegol, gorfforol a/neu rywiol. Efallai y byddant wedi profi sawl achos o gael eu cam-drin a thorri eu hymddiriedaeth.

Gall y profiadau hyn effeithio ar y ffyrdd y mae plant a phobl ifanc yn ymddwyn ac yn ymgysylltu ag eraill. Mae'r ffaith y gall plant gael eu hystyried yn anghydweithredol, yn ymosodol, ac yn amharod i ymgysylltu ac yn 'barod i gymryd risg' yn gallu golygu eu bod yn cael eu camddeall a'u hystyried yn negyddol gan ymarferwyr. Weithiau ceir digwyddiadau am fod ymarferwyr yn cyflwyno rheolau a chosbau sydd â'r nod o gadw plant yn ddiogel a rheoli risgiau. Gall plant ymateb i orfodi'r rheolau a'r cosbau hyn mewn ffordd sy'n gwaethygu sefyllfaoedd. Gall plant yn aml feddwl bod ymddwyn mewn ffyrdd a ystyrir yn 'risg' gan oedolion yn ffordd o ymdopi a chael peth rheolaeth.

Mae'r protocol yn cydnabod risg y gall ymddygiadau penodol mewn canolfan breswyl arwain at gysylltu â'r heddlu pan fyddai rhieni yn mynd i'r afael â nhw mewn lleoliad domestig. Noda na ddylai'r heddlu gael ei ddefnyddio i reoli ymddygiad nac ar gyfer materion na fyddai rhiant rhesymol wedi cysylltu â'r heddlu yn eu cylch. Dylid bob amser ystyried a fyddai'r heddlu wedi cael ei alw petai'r digwyddiad mewn lleoliad domestig.

Yn hytrach, mae'r protocol yn nodi, pan fydd digwyddiadau'n codi yn y man lle mae'r plentyn yn byw, y dylai gofalwyr geisio mynd i'r afael â nhw mewn ffordd sy'n seiliedig ar wybodaeth yng nghynllun gofal a chymorth yr unigolyn, drwy gymhwyso'r polisi ymddygiad cadarnhaol a thrwy ddatrysiadau mewnol megis dulliau adferol, heb gynnwys yr heddlu lle bynnag y bo modd a lle bo'n briodol. Dylai polisïau ymddygiad cadarnhaol gynnwys cyfnod ymdawelu sy'n galluogi pawb dan sylw i fyfyrio, oni fydd y digwyddiad mor ddifrifol bod angen gweithredu ar unwaith. Dylai'r polisïau hyn, a'r hyfforddiant i ofalwyr a staff ar sut i'w rhoi ar waith, alluogi ymarferwyr i ddeall ymddygiad heriol yng nghyd-destun profiadau plant a dilyn trywydd mwy ystyriol a chadarnhaol.

# Pennod 8: Rhaglenni Diwygio Cyfiawnder Troseddol

Yn y bennod flaenorol canolbwyntiwyd ar feysydd lle mae gan wasanaethau datganoledig gyfrifoldeb arweiniol (mewn enw o leiaf); ond y gwir yw bod cyflawni gwelliannau sylweddol mewn unrhyw ran o'r system cyfiawnder troseddol yn gofyn am gydweithio rhwng asiantaethau gwahanol, a bydd hynny bron yn anochel yn cynnwys cyfuniad o asiantaethau datganoledig ac annatganoledig.

Fel y nodir mewn man arall yn y ddogfen hon, mae cydweithio effeithiol yn fwy cymhleth yn y bôn oherwydd y “ffin amrwd” hon, yn enwedig pan fydd polisïau yn gofyn am gytundeb dwy lywodraeth sydd wedi'u hethol ar sail gwahanol fandadau dros ardaloedd daearyddol gwahanol; ond nid ydym ac ni wnawn adael i hyn ein hatal rhag ceisio cyflawni diwygiadau a all sicrhau gwell canlyniadau i Gymru.

Rydym yn gweithio gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, Plismona yng Nghymru a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, i ddod o hyd i ffyrdd o ddatblygu ac atgyfnerthu ein trefniadau gweithio gyda'n gilydd. Mae ein gwaith ar y cyd yn ein galluogi i wella bywydau pobl sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru neu sydd fel arall yn rhan ohoni, gan ymgorffori dull adsefydlol ystyriol o drawma a gwella'r ffordd y mae gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.

Carreg filltir allweddol ar y daith hon yw'r Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Mae'r ddogfen hon, a ddatblygwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, yn amlinellu sut mae sefydliadau yng Nghymru yn cydweithio'n agos i roi cymorth i unrhyw droseddwr sydd ei angen. Ei nod yw sicrhau bod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni nid yn unig i droseddwyr ond hefyd i'r rhai y mae risg y byddant yn troseddu, yn ogystal â'u teuluoedd a'n cymunedau.

Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar atgyfnerthu cydweithio ac ymyrryd yn gynnar, gweithio i leihau'r galw am wasanaethau a chadw cymunedau'n ddiogel. Yn benodol, nododd y Fframwaith chwe maes ar gyfer gweithredu:

- Lleihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol
- Mynd i'r afael â cham-drin domestig
- Gwella'r cymorth a roddir i gyn-aelodau o'r lluoedd arfog yn y system cyfiawnder troseddol
- Cefnogi oedolion ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal
- Cefnogi teuluoedd troseddwyr ar ôl dedfrydu
- Blaenoriaethu anghenion pobl ethnig leiafrifol

Cyflwynir y Fframwaith drwy Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru, gyda goruchwyliaeth lefel uwch drwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, sy'n dwyn ynghyd uwch-gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, Heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i drafod materion cyfiawnder troseddol strategol.

Gan adeiladu ar y Fframwaith, gwnaethom lansio dau Lasbrint ar gyfer cyfiawnder troseddol ar y cyd yn 2019, yn nodi ein dyheadau allweddol a'n hegwyddorion arweiniol ar gyfer menywod a phobl ifanc sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n wynebu risg o ddod yn rhan ohoni. Cafodd y ddau Lasbrint eu datblygu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill megis Plismona yng Nghymru, gan nodi ein cydweledigaeth am system cyfiawnder troseddol gyfannol, ataliol ac adsefydlol yng Nghymru.

Mae cydberchenogaeth ar y ddau Lasbrint, eu carfannau gwahanol ond cysylltiedig, a'r angen i weithio ar draws ffiniau yn cymhlethu'r strwythur prosiect arferol. Mae cydberchenogaeth ar y ddau Lasbrint rhwng Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru, Plismona yng Nghymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ac Adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru. Hefyd, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen dynodedig sy'n cynnwys partneriaid o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Heddluoedd, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a'r Swyddfa Gartref.

Fel rhan o gyllideb 2021/22, dyrannodd Llywodraeth Cymru dros £1m ar gyfer y rhaglen Glasbrint sydd wedi cynorthwyo prosiectau i atgyfnerthu cysylltiadau rhwng

menywod yn y carchar a'u plant, a helpu i ddatblygu'r gwaith o gyflwyno ymarfer sy'n ystyriol o drawma i Ymarferwyr Cyfiawnder Ieuenctid.Mae'r buddsoddiad hwn yn y ddau Lasbrint yn helpu i gyflawni gwelliannau amlgenedlaethol ystyrlon ym mywydau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Caiff cynlluniau gweithredu ar gyfer pob Glasbrint eu cyhoeddi bob blwyddyn, a disgwylir i'r fersiynau diweddaraf gael eu cyhoeddi yn fuan iawn. Mae llwyddiant canfyddedig y ddau Lasbrint bellach yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn maes blaenoriaeth arall sydd wedi'i nodi o dan y Fframwaith, sef mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r bennod hon yn edrych ar y cynnydd a wnaed a chynlluniau'r dyfodol yn y meysydd hyn – mae pob un yn gofyn am waith amlasiantaethol i ateb yr heriau mawr. Yna, mae'n ystyried rhai meysydd posibl ar gyfer gwaith partneriaeth yn y dyfodol.

**8.1 Glasbrint Cyfiawnder Menywod**

Mae Glasbrint Cyfiawnder Menywod Cymru yn amlinellu ein dyheadau allweddol ar gyfer menywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol, neu sy'n wynebu risg o ddod yn rhan ohoni, a'r egwyddorion arweiniol a ddefnyddiwn i gyflawni'r newidiadau hyn. Mae'n seiliedig ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol, ac ystyried y ffordd orau o atal pobl rhag troseddu yn y lle cyntaf a gweithio gyda menywod sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder ar hyn o bryd mewn ffordd gyfannol ac adsefydlol. Mae hefyd yn ystyried sut mae gwahanol fathau o orthrwm, megis hil neu anabledd, yn croestorri i waethygu'r profiad o wahaniaethu.

Wrth wraidd y Glasbrint Cyfiawnder Menywod mae'r fenter Cynllun Braenaru i Fenywod a sefydlwyd yn 2013 i wella canlyniadau i fenywod sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru. Rydym yn parhau i ariannu Dull System Gyfan y Cynllun Braenaru i Fenywod yn Ne Cymru a Gwent, a gyflwynir gennym ochr yn ochr â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, fel rhan allweddol o'n dull atal a chefnogi, gyda £190,205 wedi'i ddarparu yn 2021/22, a swm arfaethedig o £390,000 yn 2022/23. Dangosodd gwerthusiad o raglenni peilot y Cynllun Gwyro Braenaru i Fenywod ostyngiad o 26% yn y cyfraddau aildroseddu a chanfu fod y cyfraddau ailarestio cyffredinol yn yr

ardaloedd peilot tua hanner y cyfraddau yn yr ardaloedd cymharu (17.8% o gymharu â 35%). Nododd y gwerthusiad arbedion cost sylweddol i blismona hefyd.

Mae gwasanaethau gwyro i fenywod bellach ar waith yn ardal pob un o bedwar heddlu Cymru. Mae hyn yn cynnwys Cynllun Gwyro Braenaru i Fenywod Gogledd Cymru, a lansiwyd ym mis Hydref 2019 gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Chynllun Gwyro Dyfed Powys, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r Cynllun Braenaru i Fenywod hefyd yn cefnogi rhaglen beilot i wella'r cymorth a roddir i helpu menywod ifanc i bontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion yn Ne Cymru a Gwent.

Cydnabyddwn yr achos dros ddatblygu'r model Braenaru ymhellach ac adeiladu ar y llwyddiannau hyn. Fel rhan o'r Glasbrint i Fenywod, rydym wedi dechrau gwaith ymgysylltu ac ymchwil a fydd yn ein helpu i ddatblygu model darparu gwasanaethau integredig o'r dechrau i'r diwedd i fenywod ledled Cymru (gan gynnwys gwyro), yn seiliedig ar y gwersi a ddysgir hyd yn hyn. Bydd hyn yn gyfle i ymgorffori arferion da ymhellach, a chyflwyno newidiadau radical lle mae eu hangen.

Bydd y Ganolfan Breswyl i Fenywod a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu lefel bellach o gymorth o dan y fframwaith Glasbrint. Bydd y Ganolfan yn cynnig llety i fenywod agored i niwed ag anghenion cymhleth fel dewis amgen i ddedfryd o garchar gonfensiynol. Ei nod yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, megis camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl, a darparu cymorth trosiannol i'w galluogi i ailafael mewn bywyd yn y gymuned.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi galw am greu Canolfan Breswyl i Fenywod ers peth amser, ac roedd creu Canolfan Breswyl (neu, yn fwy cywir, rwydwaith o ganolfannau o'r fath) hefyd yn un o argymhellion Comisiwn Thomas[33]. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y rhaglen waith bwysig hon. Mae cyhoeddi safle'r Ganolfan ym mis Mai 2022 yn gam mawr ymlaen ar gyfer y gwaith hwn, a fydd yn helpu i newid bywydau menywod yng Nghymru.

[33] "Rhaid i rwydwaith cynhwysfawr o wasanaethau a chanolfannau fel dewisiadau amgen i garcharu menywod yng Nghymru gael ei sefydlu'n gyflym a'i gynnal dros amser"

Mae'r Ganolfan yn arbennig o bwysig oherwydd nad oes carchar i fenywod yng Nghymru, sy'n golygu bod pob menyw a ddedfrydir i garchar yng Nghymru yn bwrw ei dedfryd mewn carchar yn Lloegr, i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd a strwythurau cymorth lleol. Mae carcharu menywod yn bell o gartref yn niweidiol i'r menywod eu hunain ac i'w plant a'u teuluoedd. Credwn mai dim ond fel y dewis olaf un y dylid carcharu menywod, yn unol â Dull System Gyfan Cynllun Braenaru i Fenywod. Bydd Canolfan Breswyl i Fenywod yng Nghymru yn gam hollbwysig ymlaen o ran cynyddu'r ddarpariaeth adsefydlu i fenywod yng Nghymru yn y system gyfiawnder.

O ystyried hyn, rydym wedi lansio gwasanaeth 'Ymweld â Mam' i fenywod yn CEM Eastwood Park yn Swydd Gaerloyw a CEM Styal yn Swydd Gaer. Cydariannwn y fenter hon â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM, gan ddarparu gwasanaeth sy'n nodi menywod yn y carchar sydd mewn perygl o golli cysylltiad â'u plant a chynnig cymorth arbenigol i helpu i atgyfnerthu cysylltiadau teuluol yn ystod eu cyfnod yn y carchar.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth ymarferol i helpu plant i ymweld â'u hanwyliaid yn y carchar, yn ogystal â darparu cymorth un i un a chymorth rhaglen i fenywod yn y carchar. Mae hyn yn helpu mamau o Gymru i gynnal cydberthnasau cadarnhaol â'u plant drwy gydol eu cyfnod yn y carchar. Nododd gwerthusiad o gynllun peilot Ymweld â Mam, a gynhaliwyd yn CEM Eastwood Park rhwng 2014 a 2017, gan Brifysgol Caerdydd a CASCADE, ei fod wedi lleihau'r risg o hunan-niwed i famau a hefyd wedi gwella canlyniadau hirdymor eu plant[34]. Rydym yn falch o'i gefnogi bellach fel gwasanaeth parhaus, ac mae cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer cyfnod tair blynedd yr adolygiad o wariant o 2022/3 i 2024/5.

**8.2 Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid**

Mae atal plant rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, lleihau eu cysylltiad â hi a sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i'w gwyro o'r llysoedd yn hanfodol i'w helpu i fyw bywydau di-drosedd. Nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid yw atal plant rhag troseddu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ill dwy yn amlinellu

gofynion i sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu darparu i atal plant rhag troseddu ac i hyrwyddo eu llesiant yn y dyfodol.

Cydnabuwyd ers amser hir fod iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau datganoledig eraill yn rhan o ymateb cyflawn i droseddu gan blentyn neu berson ifanc. Mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau datganoledig yn cydweithio'n ddi-dor, nid yn unig i fynd i'r afael â symptomau ymddygiad nas dymunir ond hefyd i drin yr hyn sy'n ei achosi. Ein nod yw sicrhau bod ein holl wasanaethau meddygol-gymdeithasol a lles sydd o fewn ein rheolaeth ddatganoledig yng Nghymru yn ymyrryd yn achos plant sy'n wynebu risg a'u teuluoedd cyn i'w problemau droi'n droseddu.

Mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2019, yn rhoi enghraifft ymarferol o'n dull o ddarparu gwasanaethau cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn rhoi ffocws penodol ar ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol, un sy'n canolbwyntio ar sut rydym yn darparu cymorth i atal pobl rhag troseddu yn y lle cyntaf, ond hefyd un sy'n dilyn trywydd cyfannol ac adsefydlol ar gyfer y rhai sy'n dianc drwy'r rhwyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith ar gamau gwyro cyn y llys, ailsefydlu a phontio, yn ogystal â chymorth yn y gymuned.

Mae'r Glasbrint yn cynnwys amcan i archwilio opsiynau ar gyfer gosod pob plentyn sy'n byw yng Nghymru mewn llety diogel yng Nghymru ac yn agos i'w cymunedau. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau cyfatebol â Lloegr, fel bod modd rhoi trefniadau trawsffiniol ar waith ar gyfer achosion unigol o dan amgylchiadau eithriadol.

Y weledigaeth ar gyfer y dyfodol, y mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cytuno arni, yw symud oddi wrth y ddarpariaeth bresennol tuag at gartrefi rhanbarthol bach sy'n diwallu anghenion plant yng Nghymru yn well, ac sy'n unol â'r weledigaeth a'r egwyddorion a amlinellir ym mhapur y weledigaeth ar gyfer plant Cymru mewn sefydliadau diogel a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Rydym yn gweithio gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a phartneriaid eraill i ddiffinio'r model 'Cartrefi Bach' hwn.

## Plant a gedwir ar remand yn nalfa'r heddlu

Cydnabuwyd ers amser hir nad yw celloedd yr heddlu na dalfeydd mewn gorsafoedd heddlu yn fannau addas i gadw plant na phobl ifanc, ni waeth pam eu bod yno. Dim ond fel y dewis olaf un y dylid cadw plant neu bobl ifanc ar remand yn nalfa'r heddlu nes iddynt ymddangos gerbron llys.

Pan gaiff plentyn neu berson ifanc ei gyhuddo o drosedd ac mae swyddog y ddalfa yn awdurdodi ei gadw yn y ddalfa am gyfnod eto, rhaid i'r swyddog hwnnw drefnu i'r plentyn gael ei gadw yng ngofal awdurdod lleol. O dan PACE adran 38(6) dylai hyn ddigwydd oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny, neu (ar gyfer plant a phobl ifanc 12 oed neu'n hŷn) nad oes unrhyw lety diogel ar gael ac na fyddai llety arall yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed difrifol gan y person ifanc.

Weithiau, pan wneir cais am lety remand gan awdurdod lleol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, gall prinder llety addas olygu mai'r unig opsiwn i'r heddlu yw cadw'r plentyn neu'r person ifanc yn y ddalfa, a hynny dros nos yn aml.

Gan gydnabod nad yw'n dderbyniol cadw plant a phobl ifanc yng nghelloedd yr heddlu, rydym wedi dechrau ystyried opsiynau amgen i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd heb gael mechnïaeth. Fel rhan o'r fenter hon gwnaethom ddatblygu cynllun peilot rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2021 a darparu £75,000 mewn cyllid ar ei gyfer er mwyn darparu gwely diogel yng Nghartref Preswyl Rosedale yng Nghasnewydd. Y gobaith oedd y byddai hyn yn cynnig opsiwn byrdymor i ddarparu llety i bobl ifanc ar fechnïaeth a fyddai fel arall wedi gorfod aros dros nos yn nalfa'r heddlu. Er na chafodd y llety hwn ei ddefnyddio yn ystod y cyfnod peilot, rhoddodd gipolwg gwerthfawr ar anghenion cymhleth iawn y plant a'r bobl ifanc dan sylw.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried yr opsiynau yn y maes hwn er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc sydd heb gael mechnïaeth unwaith y byddant wedi'u cyhuddo o drosedd.

Ymhlith yr enghreifftiau eraill o ddatblygiadau o dan y Glasbrint hwn mae cyhoeddi egwyddorion a chanllawiau ar gyfer pontio o wasanaethau ieuenctid i wasanaethau oedolion ym mis Gorffennaf 2020 fel protocol ar y cyd ar gyfer rheoli achosion o bobl ifanc yn symud o wasanaethau troseddwyr ifanc i'r gwasanaeth prawf. Ystyrir ymhellach yr hyn sydd angen ei wneud i sicrhau defnydd pellach o'r canllawiau uchod.

Mae ymarfer sy'n ystyriol o drawma wedi'i ymgorffori yn y gwaith hwn i gyd. Fel y nodir ym mhennod 3 o'r ddogfen hon, gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod gael effaith sylweddol ar lesiant meddyliol drwy gydol bywyd gan arwain at ganlyniadau negyddol megis troseddu. Mae'r rhai â phedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod 15 gwaith yn fwy tebygol o gyflawni trais ac 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu. Felly mae polisïau yn canolbwyntio ar atal a lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, atal problemau rhwng y cenedlaethau, a datblygu gwydnwch i wella cyfleoedd mewn bywyd. Mae ffrydiau gwaith hefyd yn ystyried gwaith Cymru Ystyriol o Drawma sydd wedi'i ddatblygu gan y Ganolfan Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Straen Trawmatig Cymru.

Hefyd, gan adeiladu ar bennod 3 o'r ddogfen hon, mae'r gwaith o gyflawni'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hawliau plant yng Nghymru, ac yn ystyried erthyglau perthnasol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Amlinella'r uchelgais ar gyfer system seiliedig ar hawliau ac ystyriol o drawma, a fydd yn cynorthwyo gwasanaethau i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant yng Nghymru.

### 8.3 Llysoedd Troseddol Datrys Problemau

Mae Llysoedd Troseddol Datrys Problemau yn llysoedd arbenigol sy'n sicrhau bod barnwyr wrth wraidd adsefydlu. Maent yn cynnig dedfrydau cymunedol dwys ac elfennau penodol ar gyfer carfan benodol sydd ag anghenion sylfaenol. Mae'r fethodoleg yn cynnwys elfennau tebyg i'r Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd a drafodir ym mhennod 5. Argymhellodd Comisiwn Thomas "Dylai llysoedd datrys problemau gael eu sefydlu yng Nghymru yn debyg i fodel Gogledd Iwerddon"[35].

[35] Argymhelliad 9

Gwnaeth Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd Llywodraeth y DU a basiwyd yn ddiweddar ddarparu ar gyfer sefydlu cynlluniau peilot pellach ar gyfer Llysoedd Datrys Problemau. Rydym wedi'i gwneud yn glir y byddem yn cefnogi cynnal cynllun peilot yng Nghymru, er y bydd angen i unrhyw gynllun o'r fath fod yn seiliedig ar gryn dipyn o gydweithredu gan wasanaethau datganoledig megis gwasanaethau cymdeithasol, ac felly bydd yn bwysig monitro'r effaith ar y gwasanaethau hynny.

Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, yn rhyngwladol ac yn y Deyrnas Unedig, mai prin yw'r gwerthusiadau cadarn o effeithiolrwydd hirdymor llysoedd datrys problemau i leihau aildroseddu[36]. Er enghraifft, bydd unrhyw werthusiad yn cael ei ystumio os yw'r troseddwyr a gaiff gynnig dull datrys problemau wedi'u dewis am iddynt gael eu nodi ymlaen llaw fel y rhai mwyaf tebygol o lwyddo i osgoi ymddwyn yn droseddol yn y dyfodol; ni fydd hyn yn galluogi cymhariaeth deg o effeithiolrwydd dull datrys problemau a dulliau mwy traddodiadol. Hefyd cyfyngwyd ar y gwersi defnyddiol y gellid eu dysgu o gynlluniau peilot blaenorol oherwydd natur fyrdymor y cynlluniau peilot yn y Deyrnas Unedig o gymharu â gwledydd eraill.

Felly, cefnogwn gynllun peilot yng Nghymru ar sail bod angen cytuno ar feini prawf llwyddiant cyn i unrhyw gynllun peilot ddechrau. Hoffem ystyried cynnal cynlluniau peilot ar gyfer llysoedd datrys problemau yng Nghymru ar sail sicrhau bod yr effaith hirdymor ar droseddwyr sy'n dilyn y trywydd hwn yn cael ei nodi'n briodol a'i hystyried yn erbyn carfan o droseddwyr cymwys tebyg sy'n dilyn llwybrau system gyfiawnder traddodiadol. Hefyd mae angen gofyn cwestiynau am hygyrchedd i'r rhai sy'n byw mewn rhanbarthau anghysbell.

[36] Problem-solving courts: An evidence review

# Pennod 9: Cyfiawnder Sifil a Gweinyddol: gosod y sylfeini

Mae'r system llysoedd a thribiwnlysoedd sifil a gweinyddol sydd ar waith yng Nghymru wedi'i chadw'n ôl ar y cyfan ac nid yw'r cyfrifoldeb amdani wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae Cymru a Lloegr yn rhannu Llysoedd Sirol, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl. Hefyd, mae nifer o dribiwnlysoedd a gedwir yn ôl yn gweithredu ar sail Cymru a Lloegr neu ar sail ehangach Prydain Fawr neu'r DU. Caiff y llysoedd a'r tribiwnlysoedd hyn eu gweinyddu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, sef asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Y Goruchaf Lys, sydd â'i weinyddiaeth benodol ei hun, yw'r llys apêl olaf un yn y DU ar gyfer achosion sifil, yn ogystal ag ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Er bod y gwaith o weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd wedi'i gadw'n ôl i raddau helaeth, mae rhai o'r tribiwnlysoedd presennol yn ddatganoledig, ac o fewn ei meysydd cymhwysedd gall y Senedd sefydlu tribiwnlysoedd pellach neu ddyrannu swyddogaethau newydd i'r tribiwnlysoedd datganoledig sy'n bodoli eisoes. Diffiniodd adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 set benodol o dribiwnlysoedd datganoledig fel tribiwnlysoedd Cymru, a chreodd swyddfa Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chyfrifoldeb goruchwylio amdanynt ac am gyflwyno eu barn i Weinidogion Cymru a'r Senedd. Er gwaethaf darpariaethau Deddf Cymru 2017, mae'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o dribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu sefydlu gan ddeddfwriaeth wahanol a pharheir i'w llywodraethu o dan eu fframweithiau statudol eu hunain. Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru yw:

- Panel Dyfarnu Cymru
- Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
- Tribiwnlys Addysg Cymru
- Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru
- Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig

- Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru
- Tribiwnlys y Gymraeg

Yn ogystal â thribiwnlysoedd Cymru, ceir hefyd dribiwnlysoedd datganoledig eraill yng Nghymru nad ydynt yn dod o dan y diffiniad o dribiwnlysoedd Cymru a amlinellir yn Neddf Cymru 2017, ac nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn sgil y broses statudol ddarniog hon o ddatblygu tribiwnlysoedd unigol, mae'r system dribiwnlysoedd yn gymhleth, yn anghyson ac yn anghydlynol. Rydym nawr yn bwriadu mynd i'r afael â hyn, ac wrth wneud hynny gymryd cam cyntaf tuag at gynllunio system gyfiawnder gydlynol o'r radd flaenaf i Gymru.

Mae'r rhan hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ein cynlluniau i ddiwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig, cyn mynd i'r afael yn fras ag argymhellion eraill y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ynghylch y system cyfiawnder sifil a gweinyddol yng Nghymru.

**9.1 Diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig**

Wrth wraidd gwaith Comisiwn y Gyfraith oedd ei 13eg Raglen Diwygio'r Gyfraith ac ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi prosiect ar gyfer Cymru, y byddai'r Comisiwn yn ei gefnogi drwy ei gyllid craidd. Ym mis Gorffennaf 2018, cymeradwyodd y Prif Weinidog ar y pryd gychwyn prosiect i ystyried y gyfraith sy'n llywodraethu'r tribiwnlysoedd datganoledig a gwneud argymhellion ynghylch Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru sydd â'r nod o reoleiddio gweithrediad un system ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru[37]. Ategodd hyn y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ar y pryd i adolygu'r system gyfiawnder yng Nghymru. Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder *“Rydym yn croesawu adolygiad Comisiwn y Gyfraith oherwydd gall ystyried y materion manylach mewn perthynas â thribiwnlysoedd Cymru”*[38].

[37] Datganiad ysgrifenedig: Tribiwnlysoedd Cymru - prosiect Comisiwn y Gyfraith

[38] “Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru” paragraff 6:58 ar dudalen 291.

Dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ei waith yn haf 2020 a chyhoeddodd ei adroddiad a'i argymhellion ar 9 Rhagfyr 2021[39]. Dilynodd y gwaith hwn ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021. Gwnaeth hefyd adeiladu ar waith cynharach Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013 i gynghori ar y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.

### Argymhellion Comisiwn y gyfraith

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi gwneud 53 o argymhellion ar gyfer diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Bwriedir iddynt, gyda'i gilydd, greu un system gydlynol o dribiwnlysoedd i gefnogi'r canlynol:

- datblygu dull safonedig ar gyfer rheolau a gweithdrefnau, gan gynnwys penodiadau aelodau barnwrol ac aelodau eraill tribiwnlysoedd
- ymdrin â chwynion a materion disgyblu mewn modd cyson
- goruchwylio tribiwnlysoedd datganoledig mewn modd canolog
- annibyniaeth farnwrol a mwy o annibyniaeth strwythurol o ran y ffordd y caiff tribiwnlysoedd eu gweinyddu
- diogelu'r system tribiwnlysoedd datganoledig at y dyfodol er mwyn adlewyrchu datblygiad polisi cyfiawnder

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae'n amlwg bod adolygiad Comisiwn y Gyfraith yn darparu sail dystiolaeth fanwl a chadarn ar gyfer mynd ati i ddiwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Wedi ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ofalus, ein casgliad yw eu bod yn dra chyson â'r amcanion a oedd gennym ni ar gyfer y prosiect pan gytunodd y Prif Weinidog ar y pryd iddo fynd rhagddo. Rydym yn gryf o blaid yr egwyddor sylfaenol sy'n deillio o'r argymhellion i greu un system strwythurol annibynnol ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r diwygiadau a amlinellir gan y Comisiwn yn awgrymu strwythur ar gyfer ein tribiwnlysoedd yng Nghymru sy'n syml, yn fodern ac yn deg. Yn gryno, mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn cymryd camau breision i alluogi deddfwriaeth yng Nghymru i gael ei gorfodi drwy sefydliadau yng Nghymru.

[39] "Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru" Comisiwn y Gyfraith Rhif 403

Wrth wneud hynny, maent yn unol â chanfyddiadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ynghylch pwysigrwydd creu capasiti yn y system gyfiawnder yng Nghymru.

Er ein bod yn cytuno â'r argymhellion at ei gilydd, cydnabyddwn fod gwaith i'w wneud o hyd wrth inni ddatblygu ein polisi diwygio a'i roi ar waith. Mae hyn yn ymwneud yn arbennig â'r rhai y mae'r newidiadau strwythurol a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith yn effeithio arnynt, a'r tribiwnlysoedd datganoledig hynny sy'n bodoli eisoes nad ydynt yn perthyn i'r diffiniad o dribiwnlysoedd Cymru a geir yn Neddf Cymru 2017 y mae'r Comisiwn o'r farn y dylent gael eu cynnwys mewn un system o dribiwnlysoedd. Byddwn yn ymgysylltu â'r rhai yr effeithir arnynt wrth inni weithio drwy'r materion a'r cwestiynau pwysig er mwyn datblygu cynigion cadarn ar gyfer camau diwygio.

Ceir ein hymateb manwl pellach o ran argymhellion penodol isod.

**9.2 Creu system unedig ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig**

Mae'r deg argymhelliad cyntaf gan Gomisiwn y Gyfraith yn canolbwyntio ar strwythur system tribiwnlysoedd i Gymru ac yn pennu'r agenda ar gyfer mynd ati i ddiwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Cytunwn ag egwyddor cynigion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer un Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru sydd wedi'i isrannu'n siambrau i ddisodli'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, gydag arweinyddiaeth farnwrol pob siambr wedi'i darparu gan Lywyddion siambr a gefnogir gan Ddirprwy Lywyddion lle bo angen.[40] Mae'r cynigion hyn yn gyson ag amcanion y prosiect a ragwelwyd gennym, sef eu bod yn seiliedig ar egwyddor creu un system ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig.

Cytunwn â Chomisiwn y Gyfraith y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i isrannu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn siambrau a dyrannu gwaith i'r siambrau hynny, ac y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael rôl yn y broses honno[41]. Byddai'r Llywydd yn arwain y system tribiwnlysoedd unedig i Gymru a bydd mewn sefyllfa i roi cyngor ar ddosbarthiad effeithlon gwaith ar draws y gwasanaeth tribiwnlysoedd. Bydd hyn yn diogelu'r system tribiwnlysoedd at y dyfodol wrth i

---

[40] Argymhellion 1 a 2 Comisiwn y Gyfraith.

[41] Argymhelliad 3 Comisiwn y Gyfraith.

ddeddfwriaeth gael ei gwneud dros y blynyddoedd i ddod, gan alluogi Gweinidogion i ddyrannu swyddogaethau newydd i siambrau neu greu siambrau newydd heb orfod creu cyrff a threfniadau gweinyddol cwbl newydd.

Mae angen gwneud rhagor o waith i bennu'r siambrau sydd eu hangen yn derfynol ac wrth inni gyflawni'r gwaith hwnnw a datblygu ein cynigion cadarn ar gyfer camau diwygio, byddwn yn ystyried strwythur siambrau y mae Comisiwn y Gyfraith wedi'u cynnig ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. [42] Bydd y strwythur yn dibynnu'n rhannol ar ba dribiwnlysoedd datganoledig, yn ychwanegol at dribiwnlysoedd Cymru, a ddaw'n rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

**9.3 Ehangu cwmpas y gwasanaeth tribiwnlys**

Yn ogystal â'r tribiwnlysoedd sydd o dan fantell Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith ymgorffori Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apêl gwaharddiadau ysgol yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf newydd Cymru[43]. Hefyd argymhellodd y Comisiwn, er na ddylai gwaith paneli apeliadau derbyn ysgolion ddod yn rhan o Siambr Addysg y Tribiwnlys Haen Gyntaf, y dylai fod llwybr apelio o'r paneli hynny i'r Siambr honno, ar bwyntiau cyfreithiol neu resymau eraill o bwys penodol[44]. Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd wedi adolygu sefyllfa cyrff gwneud penderfyniadau eraill, y mae ystod[45] ohonynt ac wedi ystyried eu cynnwys yn y system unedig. Byddwn yn ystyried y materion wrth inni ddatblygu ein polisi ar gyfer diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Y rhesymeg dros gynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yw y byddai'n arwain at arbedion effeithlonrwydd o ran ei weinyddiaeth bresennol sydd ar wahân, yn ogystal â chynyddu proffil y tribiwnlys a darparu arweinyddiaeth farnwrol drwy ei osod dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnig y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru ddod yn rhan o Siambr Brisio o dan y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Fel arall, mae Comisiwn y Gyfraith yn argymell, os yw'r Tribiwnlys Prisio yn parhau y tu allan i'r system unedig,

---

[42] Argymhellion 4, 5, 8, 9 a 10 Comisiwn y Gyfraith.

[43] Argymhellion 4 a 5 Comisiwn y Gyfraith.

[44] Argymhellion 15 ac 16 Comisiwn y Gyfraith.

[45] Argymhelliad 7 Comisiwn y Gyfraith.

y dylai, serch hynny, fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru[46]. Ein barn gychwynnol yw na fyddai'n gyson i'r Tribiwnlys Prisio fod y tu allan i'r system unedig. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod angen archwilio cynigion Comisiwn y Gyfraith a byddwn yn ymgysylltu â Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru a Chyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru wrth inni ystyried sut i weithredu.

O ran paneli apêl gwaharddiadau ysgol, mae gwahardd plentyn o'r ysgol yn benderfyniad a fydd fwy na thebyg yn cael cryn effaith ar ei gyfleoedd mewn bywyd, ac mae cysylltiadau cryf rhwng y rhai sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol a'r rhai sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Felly mae'n arbennig o bwysig bod y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud mewn ffordd deg ac mewn ffordd sy'n ennyn cymaint o hyder â phosibl o du'r plentyn a'i rieni neu ei warcheidwaid. Nododd Comisiwn y Gyfraith rai pryderon ymhlith rhieni ynghylch paneli apêl yn cael eu sefydlu gan awdurdodau lleol lle gwnaed y penderfyniadau ynghylch gwahardd plentyn o'r ysgol, a chwestiynodd a allai rhieni byth fod yn hyderus ynghylch annibyniaeth paneli o'r fath hyd yn oed lle cymerwyd pob cam posibl gan yr awdurdod perthnasol. Yr hyn sy'n peri mwy o bryder byth yw bod rhai o aelodau'r paneli eu hunain yn amau a oedd y paneli'n gweithredu'n annibynnol, ac nad oedd rhai awdurdodau lleol (yn enwedig y rhai a oedd yn ymdrin â niferoedd bach o apeliadau) yn siŵr a oedd ganddynt yr arbenigedd i gynnal gwrandawiadau mewn ffordd deg a chyson â phenderfyniadau a wnaed mewn rhannau eraill o Gymru.

Felly mae rhesymeg argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai paneli apêl gwaharddiadau ysgol ddod yn rhan o awdurdodaeth Siambr Addysg yn rhannol i sicrhau cysondeb wrth ymdrin ag apeliadau ac yn rhannol i sicrhau, a chael ei weld yn sicrhau, annibyniaeth yn y broses gwneud penderfyniadau hanfodol hon. Yn ein barn ni, ymddengys fod dadl gref dros wneud hyn, ac felly rydym yn bwriadu derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, nid oedd rhai awdurdodau lleol yn cyd-weld, gan bwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth leol i baneli. Ym marn Comisiwn y Gyfraith nid oedd yr angen am wybodaeth leol yn drech na phryderon eraill a nodwyd, ond eto i gyd mae'n bwysig ein bod yn ystyried y gwrthwynebiadau a wnaed ac a oes modd gweithredu mewn ffordd sy'n rhoi hyder i bob awdurdod lleol yn

[46] Argymhelliad 20 Comisiwn y Gyfraith.

ogystal â phartneriaid eraill yn y broses. Felly byddwn yn ymgynghori â'r rhai y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn effeithio arnynt wrth inni weithio drwy'r manylion ac ystyried sut i fwrw ymlaen.

### 9.4 Creu Tribiwnlys Apêl

Cefnogwn egwyddor creu Tribiwnlys Apêl i Gymru yn gryf.[47] Mae creu corff apeliadol yng Nghymru yn gam symbolaidd pwysig tuag at greu system gyfiawnder ddatganoledig yng Nghymru. Byddai un llwybr apelio yn gwneud y system yn haws i'w deall a'i defnyddio i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac yn gwella mynediad at gyfiawnder o ganlyniad. Byddai'n ennyn hyder yn y system gyfiawnder yng Nghymru, ac yn gwella ei chapasiti, a byddai'n ymddangos yn anghyson yng nghyd-destun datblygu cynigion ar gyfer gwasanaeth tribiwnlys modern i Gymru pe na bai'r llwybr apelio i gorff apeliadol yng Nghymru.

Cytunwn â Chomisiwn y Gyfraith y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth i sefydlu siambrau'r Tribiwnlys Apêl a dyrannu awdurdodaeth apeliadol.[48] Bydd hyn yn diogelu'r system tribiwnlysoedd at y dyfodol wrth i ddeddfwriaeth gael ei gwneud dros y blynyddoedd i ddod. Ystyriwn y bydd creu Tribiwnlys Apêl i Gymru yn adlewyrchu'r system unedig i ddechrau, gan gyfrannu at strwythur cydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig a fydd yn hyblyg ac yn ymateb i system gyfiawnder Cymru sy'n datblygu.

Cydnabyddwn, serch hynny, fod rhai o aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig presennol o'r farn y gall fod angen i rai achosion a ystyrir gan Dribiwnlys Haen Gyntaf ddilyn llwybrau apêl gwahanol. Byddai hyn yn bosibl yn ddamcaniaethol o fewn y strwythur newydd arfaethedig. Byddwn yn gwrando ar awgrymiadau ar gyfer categorïau o achosion a allai fod angen dilyn llwybrau apêl gwahanol, ac yn eu hystyried.

### 9.5 Ehangu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Ar hyn o bryd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r un uchaf o fewn y farnwriaeth ddatganoledig. Felly rydym yn gryf o blaid cynigion Comisiwn y Gyfraith i

[47] Argymhelliad 11 Comisiwn y Gyfraith.

[48] Argymhelliad 12 Comisiwn y Gyfraith.

ehangu rôl oruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a rhoi rôl farnwrol i'r Llywydd i eistedd fel barnwr ym mhob un o siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac yn y Tribiwnlys Apêl[49]. Credwn y bydd rhoi rôl estynedig ac ehangach i'r Llywydd yn helpu i lywio'r ffordd y mae gwasanaeth tribiwnlys newydd Cymru yn gweithredu, yn ogystal â gwneud y swydd yn ddeniadol i ddarpar ddeiliaid.

Yn hyn o beth, cytunwn y dylai'r Llywydd chwarae rôl flaenllaw yn gwneud ac yn cynnal rheolau gweithdrefnol cyffredin rhwng siambrau'r gwasanaeth tribiwnlys unedig. Ar hyn o bryd, mae rheolau'r tribiwnlysoedd datganoledig yn anghyson ac yn gymhleth a gellid eu gwella ar gyfer aelodau tribiwnlysoedd a defnyddwyr tribiwnlysoedd er mwyn hwyluso gwell system rheoli achosion. Felly cytunwn ag egwyddor argymhellion Comisiwn y Gyfraith[50] i ddiwygio strwythur a phrosesau gwneud rheolau gweithdrefnol, gan gynnwys sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru, wedi'i gadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, er mwyn parhau i adolygu a diweddaru rheolau.

Roedd ehangu rôl oruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn argymhelliad gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru o ran rhesymoli'r system cyfiawnder sifil yng Nghymru, a'i chydgysylltu'n well. Felly bydd datblygu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn y maes hwn yn unol â chanfyddiadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

**9.6 Diogelu annibyniaeth**

Ystyriodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru strwythur tribiwnlysoedd Cymru a'r ffordd y maent yn gweithredu, gan argymell y dylai gweinyddu cyfiawnder (gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru) fod yn strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Mae Comisiwn y Gyfraith yn cytuno â hyn ac yn cynnig mai adran anweinidogol ddylai ddarparu cymorth gweinyddol ar gyfer y system unedig o dribiwnlysoedd.[51]

Rydym yn gryf o blaid yr egwyddor sydd wedi'i hamlinellu gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru a Chomisiwn y Gyfraith y dylai'r gwaith o weinyddu cyfiawnder fod ar wahân i'r Llywodraeth, a chael ei weld felly, er mwyn hyrwyddo

[49] Argymhellion 17 a 18 Comisiwn y Gyfraith.

[50] Argymhellion 21 i 30 Comisiwn y Gyfraith.

[51] Argymhelliad 51 Comisiwn y Gyfraith.

egwyddor sylfaenol annibyniaeth y farnwriaeth. Cytunwn y bydd ailfodelu gweinyddu cyfiawnder yn rhan angenrheidiol o'n taith tuag at greu seilwaith cyfiawnder i Gymru a all reoli'r gwahaniaethau mwyfwy i'r hyn a wneir yn Lloegr ym maes y gyfraith.

Er bod model adran anweinidogol a argymhellir gan Gomisiwn y Gyfraith yn un opsiwn i sicrhau annibyniaeth strwythurol, mae opsiynau eraill y bydd angen inni eu hystyried i sicrhau bod gan y corff newydd y pwerau cywir a'r trefniadau llywodraethu a chyllido cywir. Byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth inni weithio drwy hyn er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r lefel angenrheidiol o annibyniaeth strwythurol.

Yn benodol, rydym wrth gwrs yn cydnabod ac yn cynnal egwyddor annibyniaeth farnwrol ar hyn o bryd. Mae hyn wedi llywio a bydd yn parhau i lywio'r ffordd y mae sefydliadau barnwrol yn cael eu cefnogi yng Nghymru. Felly cytunwn ag egwyddor argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch cefnogi annibyniaeth farnwrol yng Nghymru, a chael ein gweld yn gwneud hynny.[52]

**9.7 Penodiadau, cwynion a disgyblaeth**

Casgliadau Comisiwn y Gyfraith ynghylch penodi aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig yw bod y system bresennol yn deg, yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, mae'n gymhleth a cheir gwahanol awdurdodau penodi rhwng tribiwnlysoedd. Mae'r cymhlethdod hwn yn deillio'n bennaf o natur ad hoc y ffordd y mae pob tribiwnlys wedi cael ei greu dros amser, a lywodraethir gan ei ddeddfwriaeth benodol ei hun. Felly cytunwn ag egwyddor argymhellion Comisiwn y Gyfraith i ddiwygio prosesau penodi[53] lle byddai gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyfrifoldeb am benodi aelodau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf a lle byddai gan Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am benodi Llywyddion a Dirprwy Lywyddion siambrau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a, chyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru.

Yn yr un modd, daw Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad y dylai dull unffurf diwygiedig gael ei fabwysiadu mewn perthynas â chwynion a materion disgyblu ar draws y system unedig o dribiwnlysoedd. Cytunwn ag egwyddor argymhellion Comisiwn y

---

[52] Argymhellion 52 a 53 Comisiwn y Gyfraith.

[53] Argymhellion 31 i 37 Comisiwn y Gyfraith.

Gyfraith[54] y dylai fod prosesau cwynion a disgyblu cyson sy'n gymwys i holl siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau i siambrau unigol lle bo angen, ac sy'n gymwys i Dribiwnlys Apêl Cymru.

**9.8 Diwygio tribiwnlysoedd – y camau nesaf**

Croesawn adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac rydym yn gryf o blaid egwyddor sylfaenol yr argymhellion a wneir. Yn ogystal â mynd i'r afael â diffygion yn y strwythurau ad hoc presennol sydd ar waith yng Nghymru, mae cynigion Comisiwn y Gyfraith yn diogelu'r system tribiwnlysoedd at y dyfodol, gan alluogi creu swyddogaethau newydd drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol heb orfod sefydlu cyrff a threfniadau gweinyddol cwbl newydd. Rydym yn gweithio drwy'r manylion wrth inni ddatblygu'r polisi i'w roi ar waith.

Mae Comisiwn y Gyfraith wedi darparu set glir o argymhellion i fynd i'r afael â'r anawsterau y mae ein Tribiwnlysoedd yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae llawer o'r argymhellion yn rhai rydym yn llwyr gytuno â nhw ac y gallwn eu derbyn yn ddibetrus, ond bydd eraill yn gofyn am drafodaeth â rhanddeiliaid er mwyn pennu'r llwybr i'w ddilyn, ac rydym yn dechrau gwneud hynny.

Bydd creu system unedig newydd o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bwriadwn gyflwyno'r ddeddfwriaeth honno i greu system tribiwnlysoedd integredig i Gymru pan fyddwn wedi cau pen y mwdwl ar y trafod a'r ystyried a nodir uchod. Byddwn hefyd yn talu sylw i'r cyngor cynharach sydd wedi llywio'r agenda ddiwygio ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, yn enwedig yr hyn a roddwyd gan Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru yn ei adroddiad terfynol.[55] Cadarnheir amseru'r ddeddfwriaeth maes o law yn y modd arferol.

Byddwn hefyd yn ceisio gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae tribiwnlysoedd yn gweithredu cyn i ddeddfwriaeth gael ei chyflwyno; er enghraifft, bwriadwn ystyried, ar y cyd â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, beth yn fwy y gellir ei wneud i werthuso perfformiad tribiwnlysoedd unigol, a mesur amrywiaeth aelodau tribiwnlysoedd.

---

[54] Argymhellion 38 i 50 Comisiwn y Gyfraith.

[55] Administrative Justice: A Cornerstone of Social Justice in Wales

Ochr yn ochr â hynny, bydd hefyd angen inni baratoi ar gyfer effaith diwygiadau i'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar lwyth achosion Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

**9.9 Cyfiawnder sifil a gweinyddol y tu hwnt i'r tribiwnlysoedd datganoledig**

Wrth archwilio cyflwr y system cyfiawnder sifil a gweinyddol yng Nghymru, daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i'r casgliad bod "*datrys anghydfod yn gymhleth am sawl rheswm, gan gynnwys y diffyg cydgysylltu rhwng y llysoedd, tribiwnlysoedd, a'r mathau gwahanol o ffyrdd amgen o ddatrys anghydfodau*".[56] Fel y cyfryw, y tu hwnt i'r diwygiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig a drafodwyd eisoes, gwnaeth y Comisiwn nifer o argymhellion ychwanegol o ran rhesymoli a chydgysylltu er mwyn darparu system gyfiawnder fwy effeithiol i bobl Cymru.

Yr argymhelliad pwysicaf yw y "dylai'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd sy'n dyfarnu ar anghydfodau ym meysydd cyfraith sifil a chyfraith weinyddol fod yn rhan o un system unedig yng Nghymru". Argymhellir hyn yn sgil sylwadau ynghylch a yw rhaniad presennol cyfrifoldebau rhwng llysoedd a thribiwnlysoedd yn rhesymol ac yn ddealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae dymunoldeb cyflawni'r fath ddiwygiad yn rheswm da pam y dylai'r cyfrifoldeb am lysoedd a thribiwnlysoedd fod ar un llywodraeth (am nad yw'r fath resymoli yn bosibl ar sail rhaniad cymhleth presennol cyfrifoldebau) a chynigiwn archwilio mecanweithiau a manteision posibl y dull hwn wrth inni symud tuag at ddod yn gyfrifol am y llysoedd sifil.

Ymhlith yr argymhellion eraill y gellid eu cyflawni'n gynharach mae'r canlynol:

- dylai prosesau datrys anghydfodau gerbron llysoedd a thribiwnlysoedd, ffyrdd amgen o ddatrys anghydfodau ac ombwdsmyn, yn ogystal â datrys anghydfodau mewn perthynas â chyfraith weinyddol, gael eu hyrwyddo a'u cydgysylltu yng Nghymru drwy gorff a gadeirir gan uwch-farnwr
- dylid ystyried dichonolrwydd dull cost isel ac effeithiol o ddatrys anghydfodau sifil drwy ddefnyddio cynllun ombwdsmyn cynhwysfawr, gan ystyried y llys ar-lein
- ehangu awdurdodaeth oruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i gwmpasu'r holl gyrff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol

[56] "Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru" Crynodeb Gweithredol paragraff 15.

- dylai fod gan y Llys Gweinyddol y pŵer i ohirio achosion llys tra bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gŵyn, a dylai fod gan yr Ombwdsmon y pŵer i gyfeirio pwynt cyfreithiol at y Llys

Byddai pob un o'r argymhellion hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gynnwys nifer o bartïon gwahanol os cânt eu datblygu ar hyn o bryd, gan gynnwys y farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn y lle cyntaf rydym wedi blaenoriaethu ymgysylltu ag ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith, ond rydym wedi cael rhai sylwadau ynghylch y cynigion hyn gan gyrff y byddent yn effeithio arnynt a byddem yn croesawu unrhyw sylwadau pellach. Yn arbennig, rydym yn ceisio barn y farnwriaeth a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r cyfryngau trafod rheolaidd sydd gennym â'r naill a'r llall.

Yn olaf, mae tri argymhelliad yn Adroddiad Thomas ynghylch gwasanaethau crwneriaid, sef:

- dylai fod sefydliad penodol ar gyfer gwasanaethau crwneriaid yng Nghymru, gyda chyllid ar gael ar sail Cymru gyfan er mwyn sicrhau y caiff safonau a gwasanaethau unffurf eu cymhwyso
- dylai heriau sy'n ymwneud â chwestau i bob marwolaeth yng Nghymru gael eu cyflwyno a'u gwrando yng Nghymru
- dylai holl wasanaethau crwneriaid fod ar gael yn Gymraeg

Er mwyn cyflawni'r rhain bydd angen sicrhau cytundeb eraill neu ddatganoli'r cyfrifoldeb am y llysoedd crwneriaid (a fyddai'n gwneud synnwyr o ystyried eu bod yn cael eu hariannu drwy awdurdodau lleol). Serch hynny cytunwn â'r olaf o'r argymhellion hyn, a byddem yn dueddol o gytuno â'r ddau arall. Rydym wedi codi'r tri argymhelliad hyn gyda Llywodraeth y DU er mwyn deall ei safbwynt hi.

# Pennod 10: Mynediad at Gyfiawnder

> "Courts are, and should be, a last resort but they should be a last resort which is accessible to all, rich and poor alike … society will be the loser if everyone does not believe that the law is there for them"
>
> *Baroness Hale of Richmond, 2011*

Mae mynediad at gyfiawnder yn rhan sylfaenol o sicrhau rheolaeth y gyfraith. Heb fynediad at gyfiawnder, ni allwn ddiogelu hawliau unigol dinasyddion, gan gynnwys gwneud iawn yn achos dioddefwyr a goroeswyr troseddau. Ymhlith elfennau allweddol mynediad at gyfiawnder mae

- mynediad corfforol i lysoedd a thribiwnlysoedd ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir wyneb yn wyneb
- y gallu i gymryd rhan mewn gwrandawiadau ar-lein a defnyddio gwasanaethau ar-lein eraill
- argaeledd cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol fforddiadwy ac amserol sydd o ansawdd uchel
- argaeledd gwasanaethau gwybodaeth a chyngor
- cyfiawnder a weinyddir mewn ffordd deg a chyflym
- y gallu i ddefnyddio llysoedd a thribiwnlysoedd yn eich dewis iaith (a drafodir ym mhennod 4.5)

Mae mynediad at gyfiawnder hefyd yn cynnwys gallu deall pa gyfreithiau sy'n bodoli; mae'r mwyafrif o bobl yn ceisio osgoi torri'r gyfraith a cheisio byw yn unol â hi. Mae'r rhan hon yn ystyried pob un o'r uchod yn ei dro.

Tra bo gweinyddu cyfiawnder wedi'i gadw'n ôl i'r fath raddau, mae ein gallu i ddylanwadu ar fynediad at gyfiawnder yn gyfyngedig. Codwn faterion gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU yn fynych a thro ar ôl tro, ac yn arbennig cyflwynwyd cryn nifer o sylwadau yn erbyn y rhaglen i gau llysoedd dros y degawd diwethaf a rhag dileu cymorth cyfreithiol yn sgil Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu

a Chosbi Troseddwyr 2012. Parhawn i ymateb i ymgyngoriadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan fynd ati hyd y gellir i ddarparu esboniadau seiliedig ar dystiolaeth o oblygiadau'r hyn a gynllunnir yn Llundain gan amlaf i Gymru.

**10.1 Mynediad corfforol i lysoedd a thribiwnlysoedd ar gyfer gwrandawiadau a gynhelir wyneb yn wyneb**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod mynediad at gyfiawnder mor fregus â'r unigolyn sy'n ceisio mynediad o'r fath. Mewn byd cynyddol ddigidol mae'n hawdd anghofio y gall ardaloedd daearyddol gwledig mawr a wasanaethir mewn enw gan un llys arwain at sefyllfa lle nad oes llys lleol o fewn pellter teithio rhesymol, hyd yn oed i'r rhai a all ddefnyddio ceir preifat ac yn arbennig y rhai â chyflyrau meddygol a/neu gyfrifoldebau gofalu (ymhlith rhai eraill). Ar adeg pan fo'r boblogaeth yn cynyddu, mae 29 o lysoedd a thribiwnlysoedd wedi cau yng Nghymru ers 2010 ac, yn anochel, mae hyn wedi peri trafferthion neu anghyfleustra difrifol i'r sawl sydd angen mynd i'r llys, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn chwarae rhan uniongyrchol mewn achosion ond sydd am eu gweld, gan gynnwys perthnasau.

Hwyrach mai yn y llys ei hun fydd y tro cyntaf i un o'r prif bartïon mewn treial gyfarfod â'i gynrychiolydd cyfreithiol. Mae cyfarfod wyneb yn wyneb o'r fath yn aml yn hanfodol, yn enwedig i'r rhai a all fod â chyflwr iechyd meddwl, oherwydd mae'n helpu i ennyn ymddiriedaeth a gall helpu'r cynrychiolydd cyfreithiol i ddeall ei gleient sy'n ei helpu i ddeall ei achos. Wrth i fentrau llys newydd ddod i'r amlwg, megis llysoedd datrys problemau, a gynhelir yn rheolaidd, hyd yn oed bob pythefnos, gall mynychu'r llys fod yn rhan hanfodol o'r broses. Mae cau cynifer o lysoedd a'r methiant i gynnig darpariaeth amgen yn eu lle yn peri heriau i sicrhau bod cyfiawnder ar gael i bawb.

O fewn yr ystad bresennol, gall fod problemau penodol o hyd o ran sicrhau bod lleoliadau yn gwbl hygyrch i bobl anabl, ac ar adegau mae hyn wedi golygu bod pobl anabl wedi wynebu oedi o ran eu gwrandawiadau am nad oedd cyfiawnder ar gael iddynt yn yr un ffordd â phawb arall.

**10.2 Y gallu i gymryd rhan mewn gwrandawiadau ar-lein a defnyddio gwasanaethau ar-lein eraill**

Mae datblygiadau technolegol wedi golygu bod nifer cynyddol o elfennau o'r system gyfiawnder ar gael ar-lein – proses a gyflymwyd yn sylweddol yn amlwg oherwydd yr angen i ymateb i bandemig Covid-19. Roedd y graddau y llwyddodd y systemau llysoedd a thribiwnlysoedd a'r unigolion dan sylw i addasu'n gyflym i'r heriau o fis Mawrth 2020 yn drawiadol, ac mae ar y cyhoedd ddyled i bawb a wnaeth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau newydd o dan amgylchiadau mor anodd. Yn amlwg mae sawl elfen o'r system gyfiawnder a all gael eu darparu'n effeithiol ar-lein a gellir arbed costau yn sgil gwneud hyn.

I lawer o bobl, gall darparu gwasanaethau ar-lein hefyd esgor ar fuddiannau o ran mynediad at gyfiawnder, o ran gwella hygyrchedd y llysoedd a'r tribiwnlysoedd am nad oes angen teithio iddynt. I eraill gall y ffaith nad oes angen mynd i'r llys ei hun wneud y broses yn llai brawychus, a all fod o fudd arbennig. Mae gweithwyr cyfreithiol proffesiynol â chyfrifoldebau gofal plant neu gyfrifoldebau gofalu eraill, a thystion arbenigol proffesiynol, ymhlith y rhai a all gael budd sylweddol o wrandawiadau a gynhelir o bell, a cheir sgil-effeithiau cadarnhaol o ran pwy a all gael gyrfa yn y gyfraith a chamu ymlaen yn y maes hwn.

Serch hynny, nid yw mynediad ar-lein at gyfiawnder yn ddatrysiad a all ynddo'i hun ddatrys yr anawsterau sy'n codi yn sgil cau llysoedd dros y 12 mlynedd diwethaf.

Gwyddom, o Arolwg Cenedlaethol Cymru, fod problem wirioneddol o hyd o ran cael gafael ar wasanaethau ar-lein yng Nghymru, gyda thua 7% o bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru wedi'u hallgáu'n ddigidol (ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn bersonol). [57] O'r rhai sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, nid oes gan bron chwarter y pum sgìl digidol sylfaenol cydnabyddedig (Trin Gwybodaeth a Chynnwys, Cyfathrebu, Trafod, Datrys Problemau a Bod yn Ddiogel Ar-lein a Defnyddio'r Rhyngrwyd mewn Ffordd Gyfreithlon) yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i ymgysylltu â'r byd digidol, gan

[57] Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 (Ebrill i Fehefin 2021) yn sampl wedi'i dewis yn gyfan gwbl ar hap, gyda chwestiynau ar y defnydd o'r rhyngrwyd yn cael eu gofyn i 3,450 o gartrefi a chwestiynau ar sgiliau rhyngrwyd yn cael eu gofyn i tua 1,500.

gynnwys gwasanaethau ar-lein. [58] Mae hyn yn broblem benodol iawn i bobl hŷn; nid oes gan y mwyafrif o bobl 75 oed a hŷn sydd â mynediad i'r rhyngrwyd y pum sgìl digidol sylfaenol sydd eu hangen i gwblhau ffurflenni a dogfennaeth ar-lein. Gall diffyg gwasanaeth rhyngrwyd sefydlog ynddo'i hun arwain at lefelau isel cysylltiedig o sgiliau digidol yn y boblogaeth, ac mae'n broblem a welir mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae llawer o bobl nad oes ganddynt fynediad i'r rhyngrwyd yn gorfod defnyddio ffonau clyfar, na fyddant o bosibl yn ddigon da i wylio achosion llys na chymryd rhan ynddynt na chwblhau ffurflenni cymhleth.

Gwnaeth pandemig Covid-19 sicrhau bod llawer o wasanaethau ar-lein yn cael eu cyflwyno a bod mwy o ddefnydd o'r rhyngrwyd gan lawer o ddefnyddwyr a oedd yn amharod i wneud hynny gynt, at ystod eang o ddibenion yn cynnwys siopa a chadw mewn cysylltiad â'r teulu. Ar ddechrau'r pandemig, wrth i'r symudiad tuag at fwy o wrandawiadau llys ar-lein ddod yn anochel, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sicrhau bod gwerthusiad llawn o degwch canlyniadau gwrandawiadau rhithwir o gymharu â gwrandawiadau yn y llys ei hun yn cael ei gynnal, er mwyn llywio penderfyniadau i gynyddu gwasanaethau ar-lein yn y dyfodol. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd ynghylch hyn, ni chynhaliwyd y gwerthusiad hanfodol hwn. Yn lle hynny, comisiynodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ymchwil i ddarparu tystiolaeth gadarn ynghylch nodweddion, profiadau a chanfyddiadau defnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd. Cafodd yr ymchwil hon, a roddodd ddarlun cymysg, ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021, ond ni chyhoeddwyd unrhyw ymchwil sy'n ystyried mewn ffordd systematig ganlyniadau cymharol gwrandawiadau tebyg boed hwy wedi'u cynnal yn rhithwir (yn llawn neu'n rhannol) neu yn y llys ei hun. [59]

Rydym yn bryderus o hyd mai'r rhai nad oes ganddynt ddewis ond gweithredu fel ymgyfreithiwr drosto'i hun yw'r rhai o bosibl sy'n profi effaith niweidiol y defnydd cynyddol o wrandawiadau ar-lein. Rydym hefyd yn pryderu na fydd gan lawer o bobl o bosibl amgylchedd tawel, preifat ar gyfer cymryd rhan mewn gwrandawiadau llys. Hwyrach y gall dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais

[58] Sgiliau rhyngrwyd a gwasanaethau sector cyhoeddus ar-lein (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2019 i Fawrth 2020

[59] Evaluation of remote hearings during the COVID 19 pandemic

rhywiol fanteisio ar safleoedd rhoi tystiolaeth o bell rydym wedi eu sefydlu o fewn gwasanaethau VAWDASV, mewn rhai mathau o achosion llys, a gall hyn helpu i ryw raddau, ond nid oes opsiynau tebyg ar gael i'r mwyafrif o gyfranogwyr yn y mwyafrif o achosion.

Felly mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gredu, heb werthusiad cadarn o ganlyniad gwrandawiadau ar-lein, fod risg wirioneddol nad yw'r system gyfiawnder ar-lein sy'n datblygu yn cynnig profiad cydradd o gyfiawnder i bawb.

Argymhellodd Comisiwn Thomas y dylid "llunio strategaeth ar gyfer Cymru yn ymwneud â darparu mynediad ffisegol a digidol priodol at gyfiawnder gerbron y llysoedd, y tribiwnlysoedd, a ffyrdd eraill o ddatrys anghydfodau, a'i phennu yng Nghymru yn seiliedig ar anghenion pobl Cymru". Dyma un o'r argymhellion rydym yn ei ystyried gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**10.3 Argaeledd cyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth gyfreithiol fforddiadwy ac amserol sydd o ansawdd uchel**

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei hymateb i'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol, wedi'i gadeirio gan Syr Christopher Bellamy CF. Ymhlith y materion difrifol a nodwyd gan Syr Christopher roedd tangyllido blynyddol gwasanaethau cyfreithiol presennol o £135 miliwn, ffigur nad yw'n ystyried y twf yn y galw am gymorth cyfreithiol yn sgil yr addewid i ddarparu adnoddau ychwanegol ar gyfer yr heddlu. Fel y cyfryw, pwysleisiodd 'the sum of £135 million was the minimum necessary as the first step in nursing the system of criminal legal aid back to health after years of neglect' ac y gall fod angen symiau pellach yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion budd y cyhoedd.

Felly mae'n hynod siomedig bod ymateb Llywodraeth y DU yn cael ei ystyried mor eang yn un sydd methu â gwneud hynny hyd yn oed.

Nododd gwaith dadansoddi gan Gymdeithas y Cyfreithwyr ar yr asesiad effaith, a gyhoeddwyd ar y cyd ag ymateb ac ymgynghoriad llywodraeth y DU, fod y pecyn o fesurau cydnabyddiaeth i gyfreithwyr ond yn cyfateb i 9%, neu gynnydd blynyddol o £58m-£66m yn unig, ffigurau a gadarnhawyd yn ôl y sôn gan y Weinyddiaeth

Gyfiawnder[60]. O ganlyniad, mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi cynghori ei haelodau i feddwl o ddifrif a ydynt am barhau i wneud gwaith a ariennir yn gyhoeddus, gyda llywydd Cymdeithas y Cyfreithwyr, Stephanie Boyce, yn nodi “it is no good just part of the system being economically viable if the system as a whole is not”.’

Yn yr un modd, mae cadeirydd Cymdeithas y Bar Cyfreithiol, Jo Sidhu CF, wedi dweud bod ymateb Llywodraeth y DU “betrays a wholesale failure to recognise the severity of the crisis currently engulfing our criminal justice system and the urgency needed to address that huge challenge”.[61] Ar adeg ysgrifennu mae'r Gymdeithas wedi mabwysiadu polisi “dim derbyn achosion a ddychwelwyd”, yn dilyn pleidlais lle gwnaeth dros 94% o'i haelodau gefnogi hynny.

Rydym wedi cynnal trafodaethau ag ymarferwyr cyfreithiol yng Nghymru ynghylch goblygiadau cynigion Llywodraeth y DU (sy'n cynnwys rhai mesurau a groesewir) a byddwn yn ymateb i'r ymgynghoriad. Er bod dichonoldeb practisau cyfreithiol yn bwysig ynddo'i hun, yr ystyriaeth bennaf fydd tanlinellu y caiff pobl ledled Cymru eu gadael heb y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ar yr adegau pwysicaf yn eu bywydau.

Nid dim ond ym maes cymorth cyfreithiol troseddol y mae mynediad at gyfiawnder wedi'i dangyllido i'r fath raddau fel ei fod yn peryglu mynediad cydradd at y gyfraith. Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr wedi comisiynu ymchwil newydd i edrych yn gyffredinol ar y bylchau mewn cyngor cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr, ac effaith bosibl hyn ar wahanol grwpiau o ddefnyddwyr. Bydd yn cynnwys archwiliad manwl o sut mae ffactorau megis ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar fynediad at wasanaethau cyfreithiol.

Mae pryderon difrifol am gydraddoldeb ym maes y gyfraith hefyd yn deillio o'r ffioedd llys a godir gan y llywodraeth. Gwnaeth penderfyniad y Goruchaf Lys yn 2017 yn achos ‘Unison’[62] nodi'n glir:

---

[60] "News focus: Is the government's criminal legal aid cash pledge too little, too late?" a "MoJ has 'botched' criminal legal aid response"

[61] Barristers to press ahead with legal aid action | News | Law Gazette

[62] Supreme Court decision on the 'Unison' case, paragraff 93

> “The question whether fees effectively prevent access to justice must be decided according to the likely impact of the fees on behaviour in the real world. Fees must therefore be affordable not in a theoretical sense, but in the sense that they can reasonably be afforded. Where households on low to middle incomes can only afford fees by sacrificing the ordinary and reasonable expenditure required to maintain what would generally be regarded as an acceptable standard of living, the fees cannot be regarded as affordable.”

Gellir dweud yn union yr un peth am fforddiadwyedd cael gafael ar gyngor cyfreithiol amserol o ansawdd uchel a chynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys.

Mae sefyllfa warthus erlyniadau ar gam gan Swyddfa’r Post mewn perthynas â Horizon yn erbyn unigolion dieuog na allent fforddio cyngor cyfreithiol o ansawdd i amddiffyn eu hunain yn dangos pa mor ddifrifol yw'r anghydraddoldeb sydd eisoes yn rhan gynhenid o'r system gyfiawnder. Mae'r ffaith bod pobl ddieuog yn teimlo nad oes ganddynt ddewis arall ond pledio'n euog i droseddau na wnaethant byth eu cyflawni a chael eu carcharu yn dangos cymaint yw problem mynediad fforddiadwy at gyngor cyfreithiol o ansawdd: yn syml nid yw'n bodoli i bawb.

Bydd anghydbwysedd ariannol rhwng dau barti mewn achos o'r maint hwn bob amser yn peri'r risg o ddiffyg cyfiawnder erchyll o'r fath, y gellir ei weld hefyd mewn achosion sifil a theuluol os nad oes rheolau ar waith i rwystro neu atal camddefnyddio gweithrediadau llys. Fel arall nid oes ‘equality of arms’ yn y system gyfiawnder, pwynt a wnaed droeon gan Syr Christopher Bellamy. Mae diogelu mynediad at gyfiawnder yn hynod bwysig yn achos sicrhau ei bod yn bosibl ac yn ariannol ddichonadwy dwyn achos yn erbyn y wladwriaeth. Wrth gael mynediad at gyfiawnder ar faterion amgylcheddol, er enghraifft, nodwyd bod gan Lywodraeth y DU system gyfiawnder afresymol o ddrud i'r rhai sy'n ceisio cymryd camau gweithredu, a hynny'n groes i Gonfensiwn Aarhus.

Rhan o'n hymateb ni yw gwneud ein deddfwriaeth ein hunain mor hawdd i'w defnyddio â phosibl, fel y'i trafodir yn ddiweddarach yn y rhan hon. Gan nad yw

cyngor cyfreithiol na chynrychiolaeth gyfreithiol ar gael i bawb, rydym hefyd yn ceisio sicrhau bod gweithdrefnau ac arferion ein holl dribiwnlysoedd datganoledig yn galluogi unigolion i chwarae rhan lawn heb fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol.

Yn y bôn, fodd bynnag, credwn fod y cyfyngiadau a osodwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 wedi mynd yn rhy bell. Am y rheswm hwn, fel y gwnaeth Comisiwn Thomas ei gydnabod, rydym wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol dargyfeirio adnoddau a allai fel arall gael eu gwario ar swyddogaethau datganoledig, er mwyn helpu i gau'r bwlch a grëwyd gan Lywodraeth y DU o ran darpariaeth cyngor cyfreithiol am ddim. O dan y setliad presennol, yn y maes hwn y teimlwn y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf i'r rhai sydd angen help arnynt fwyaf.

**10.4 Gwasanaethau gwybodaeth a chyngor**

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydledig i gefnogi gwasanaethau gwybodaeth a chyngor fel bod rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael cyngor diduedd am ddim sydd ei angen arnynt i ddatrys problemau gyda dyled, cyflogaeth, tai, gwahaniaethu a budd-daliadau lles. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae hyn hefyd wedi cynnwys cefnogi pobl sy'n wynebu heriau penodol yn deillio'n gyntaf o Brexit (gweler y blwch drosodd) ac yna o bandemig Covid-19, ac rydym bellach yn mynd ati i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer ffoaduriaid sy'n cyrraedd o Wcráin.

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, rydym wedi ystyried ei bod yn angenrheidiol ehangu darpariaeth cyngor yn rhannol er mwyn llenwi'r bwlch a grëwyd yn sgil lleihau argaeledd cymorth cyfreithiol. Yn anffodus, bydd yr argyfwng costau byw presennol ond yn cynyddu'r galw am yr holl fathau hyn o wasanaethau cyngor.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'r ymrwymiad hwn drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2020. Mae grant y Gronfa yn ariannu fframwaith o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n strategol ledled Cymru sy'n darparu mynediad i gyngor cyffredinol/ arbenigol a mathau eraill o gyngor ar broblemau lles cymdeithasol.

## Cymorth i Ddinasyddion yr UE

Ers 2019 mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Newfields Law, cwmni cyfreithwyr mewnfudo arbenigol yng Nghymru, Cyngor ar Bopeth Cymru a sefydliad trydydd sector 'Settled' i ddarparu cyngor a chymorth am ddim i ddinasyddion yr UE ac AEE a Gwladolion y Swistir sydd am barhau i fyw a gweithio yng Nghymru ar ôl ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r cymorth am ddim hwn wedi galluogi dinasyddion yr UE a'u teuluoedd i gael cymorth digidol gyda'u ceisiadau am statws preswylydd cyn-sefydlog neu statws preswylydd sefydlog, cael help gydag ymholiadau sylfaenol am gymhwystra, cael cyngor ar faterion lles cymdeithasol a hawliau yn y gweithle, a chael cyngor mewnfudo arbenigol am ddim.

Er bod y terfyn amser ar gyfer gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE wedi darfod ar 30 Mehefin 2021, mae angen sylweddol am gymorth o hyd. Mae hyn bellach yn ehangach na chymorth gyda cheisiadau i'r Cynllun, gan gwmpasu ceisiadau hwyr, apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod cais, newid o statws preswylydd cyn-sefydlog i breswylydd sefydlog, ceisiadau i ymuno ag aelodau o'r teulu, hawliau a hawliadau a rhannu gwybodaeth gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr angen i barhau i ddarparu cymorth am ddim ac mae'n parhau i ariannu Newfields Law, Cyngor ar Bopeth Cymru a Settled tan o leiaf fis Hydref 2022.

Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i hwyluso cyfarfodydd o Grŵp Cydgysylltu Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr EU Cymru. Mae'r Grŵp hwn yn dwyn ynghyd sefydliadau allanol y trydydd sector a ariennir gan y Swyddfa Gartref, ynghyd â'r partneriaid a'r asiantaethau cyflawni allweddol eraill i gefnogi a chydgysylltu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth ar gyfer y Cynllun yn llwyddiannus yng Nghymru.

Mae model cyflawni arloesol a chydweithredol y Gronfa yn profi'n llwyddiannus o ran targedu cyngor i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae gwasanaethau'r Gronfa hefyd yn helpu pobl i ddelio ag amrywiaeth o broblemau. Ers cyflwyno'r Gronfa ym mis Ionawr 2020, mae 116,174 o bobl wedi cael cymorth gan un o wasanaethau'r Gronfa i ddelio â mwy na 532,534 o broblemau lles cymdeithasol ac mae pobl wedi cael eu helpu i hawlio incwm ychwanegol o fwy na £67 miliwn ac mae gwerth £20 miliwn o ddyledion wedi cael eu dileu. Mewn blwyddyn ariannol, mae Llywodraeth Cymru fel rheol yn darparu dros £11m o gyllid grant i ddarparu gwasanaethau cyngor drwy'r Gronfa. Caiff y cyllid sydd ar gael ei ddyrannu rhwng chwe gwasanaeth rhanbarthol a gwasanaeth cynghori o bell cenedlaethol.

Fel y nododd Comisiwn Thomas, mae angen y gwariant hwn gan Lywodraeth Cymru yn rhannol o leiaf oherwydd methiant Llywodraeth y DU i ddarparu cyllid digonol ar gyfer cyngor a chefnogaeth gyfreithiol ar ffurf cymorth cyfreithiol. Daw'r gwariant hwn o'r hyn a allai fel arall fod wedi cael ei fuddsoddi mewn swyddogaethau datganoledig. Fel yn achos gwariant arall o'r fath i wneud iawn am ddiffyg gwariant gan Lywodraeth y DU, mae'r sefyllfa yn cael ei gwaethygu gan y ffaith, os yw'r system gyfiawnder wedyn yn gwneud rhagor o arbedion (er enghraifft, am nad yw hawliadau gwan yn cyrraedd y llys neu fod rhai cryf yn destun proses gyfryngu lwyddiannus), na chaiff yr arbedion hynny eu hailfuddsoddi yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod rôl bwysig gwasanaethau cynghori yn galluogi pobl i gael gafael ar gyfiawnder sifil. Drwy'r Gronfa Gynghori Sengl mae Llywodraeth Cymru yn ariannu model darparu gwasanaethau cynghori integredig oherwydd gwyddom mai anaml y mae pobl ond yn wynebu un broblem lles cymdeithasol. Mae gwasanaethau'r Gronfa hon yn cynnwys cyngor ar faterion cyflogaeth a gwahaniaethu. Gall pobl y mae eu cyflogwr wedi gwahaniaethu yn eu herbyn gael cyngor arbenigol, gan gynnwys cynrychiolaeth gerbron Tribiwnlysoedd Cyflogaeth.

Yn adroddiad Thomas nodwyd, ar ôl sefydlu'r Gronfa, fod rhai darparwyr wedi nodi iddynt fethu â hawlio grantiau'r Gronfa oherwydd eu pŵer negodi cyfyngedig wrth ffurfio'r consortia rhanbarthol. Er mwyn llywio penderfyniadau yn y dyfodol ar gyllid grant ar gyfer gwasanaethau cynghori, cynhelir gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa yn

2022. Bydd y gwerthusiad hefyd yn archwilio dichonoldeb llif cyllid grant nad yw'n strwythuredig, a fyddai nid yn unig yn ategu fframwaith gwasanaethau cynghori prif ffrwd y Gronfa, ond hefyd yn dileu rhwystrau ymhellach sy'n atal darparwyr cyngor llai o faint rhag cael gafael ar gyllid grant Llywodraeth Cymru.

Mae'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol wedi datblygu Cynllun Gweithredu o ran Gwybodaeth a Chyngor ar y cyd â swyddogion o Lywodraeth Cymru sy'n blaenoriaethu sicrhau ansawdd ar draws y sector cynghori, cynnal dadansoddiad o anghenion i lywio'r gwaith o flaenoriaethu darpariaeth yn y dyfodol, cefnogi'r Rhwydweithiau Cynghori Cenedlaethol sydd wedi cael eu datblygu i helpu gyda chydweithredu effeithiol rhwng darparwyr a sicrhau bod cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod o wasanaethau cynghori.

Yn olaf, mae hefyd yn bwysig cydnabod rôl undebau llafur i ddarparu cyngor a chymorth i'w haelodau (gan gynnwys yn y system gyfiawnder). Mae hon yn rôl hanesyddol sydd wedi cael ei gwneud yn fwyfwy anodd, ond rydym yn sicr yn gweld rôl bwysig i'r gwasanaethau hyn mewn system gyfiawnder ddatganoledig yn y dyfodol o ran mynediad at gyfiawnder.

**10.5 Cyfiawnder teg a chyflym**

Gwadu cyfiawnder yw gohirio cyfiawnder.

Ac mae'n ddigon posibl na fu'r dywediad hwn erioed mor wir. Ni fydd y rhai a fu farw cyn 2021 ar ôl iddynt gael eu dedfrydu ar gam yn sgandal Horizon Swyddfa'r Post byth yn cael cyfiawnder. Ni fydd y rhai a welodd achos llwyddiannus yn y Llys Apêl i wrthdroi eu heuogfarn anghywir byth yn cael y degawdau a gollwyd o'u bywydau yn ôl ac mae'n bosibl y caiff unrhyw iawndal ei wario bron i gyd ar ffioedd cyfreithiol yn profi eu bod yn ddieuog.

Pan fydd oedi mawr cyn cychwyn a gorffen treialon, effeithir ar ddioddefwyr sy'n eu gweld yn mynd ar chwâl yn sgil colli tystion yn yr amser y mae'n ei gymryd cyn cychwyn yr achos llys, a hefyd ar dystion sy'n profi trawma wrth gofio'r hyn a ddigwyddodd.

Mae'r un mor wir na chaiff troseddwyr gyfiawnder, hynny yw efallai na allant gael y cymorth sydd ei angen arnynt i newid eu hymddygiad troseddol na mynd i'r afael â'r

amodau heriol mewn bywyd a wnaeth esgor ar eu hymddygiad. Gall y rhai a gyhuddir o drosedd gael eu cadw ar remánd am drosedd honedig y'u ceir yn ddieuog ohoni yn y pen draw, neu, os y'u ceir yn euog, na chânt ddedfryd o garchar mewn perthynas â hi. Yn ddiau bydd y fath brofiad yn newid bywydau llawer o bobl, yn enwedig plant, ond gall oedolion hefyd golli eu cartrefi am na allant weithio, gweld eu priodas yn chwalu, ac yn wir golli eu dyfodol cyfan.

Gan ddefnyddio Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid 2021-21 mae Penelope Gibbs o Transform Justice yn nodi nad yw tri chwarter yr holl blant ar remánd yn cael eu dedfrydu i'r ddalfa. Mae'r ffigur hwn yn codi i 86% ar gyfer achosion mewn llysoedd ynadon/ieuenctid[63]. Aiff ymlaen i ddweud “[perhaps] the most concerning of the statistics is not about over-use overall, but about over-use for specific groups. 4% of 15-17 year olds are black, but 34% of all children remanded are black. 60% of children in custody on remand are from minoritised communities.”

Drwy ei gwasanaethau cymdeithasol, bydd Llywodraeth Cymru yn anochel yn gorfod cynorthwyo dinasyddion Cymru sydd wedi profi oedi cyn cael cyfiawnder, y mae cyfiawnder wedi'i oedi neu y mae cyfiawnder wedi'i weinyddu'n anghywir, ac y cafwyd effaith sylweddol ac andwyol ar eu hamgylchiadau mewn bywyd. Mae hyn yn dangos pam mae mor bwysig bod Llywodraeth y DU yn hysbysu Llywodraeth Cymru o ystadegau'n ymwneud â dinasyddion Cymru sy'n rhan o'r system gyfiawnder a gedwir yn ôl.

Yn sgil gorfod cau'r llysoedd ledled y DU ym mis Mawrth 2020, gwnaeth y cydweithio agos rhwng y gwahanol asiantaethau o fewn y system cyfiawnder troseddol, drwy Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol newydd ei sefydlu, alluogi llysoedd troseddol yng Nghymru i ailagor cyn unrhyw ranbarth yn Lloegr. Felly bu modd i Gymru ymateb yn gyflymach na phob rhanbarth yn Lloegr i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn gysylltiedig â Covid-19 yn y llysoedd ynadon. Mae hyn yn dangos cryfder gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Mae'r Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r heddluoedd, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei

[63] Making child remand a last resort - Transform Justice

Mawrhydi a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Roedd yr arweinyddiaeth a ddangoswyd gan y Barnwyr Llywyddol a barnwyr eraill hefyd yn bwysig. Cadarnhaodd yr Arglwydd Brif Ustus, yng nghyd-destun ymateb rhyngwladol systemau cyfiawnder yn ystod argyfwng pandemig y coronafeirws, ei bod yn glir bod llysoedd Cymru a Lloegr yn arwain y ffordd ac, o fewn yr awdurdodaeth honno, ac yn benodol o fewn y system cyfiawnder troseddol, fod Cymru ar flaen y gad.

Gwnaeth camau mor gadarn i fynd i'r afael â'r ôl-groniad yn gysylltiedig â Covid-19 o fewn y llysoedd troseddol yng Nghymru brofi y gellid mynd i'r afael â'r ôl-groniad a fodolai cyn y pandemig o ran y llysoedd. Eto i gyd rhannwn bryderon Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yn ei adroddiad 'Reducing the Backlog in Criminal Courts' a nododd "The criminal courts' backlog of cases has rocketed, *both before* and since the onset of the Covid-19 pandemic [ein pwyslais ni]." Nid yw'n dderbyniol bod yr ôl-groniad o achosion llys cyn y pandemig byth yn gallu cael ei ystyried yn 'fusnes fel arfer'. Mae'r oedi sy'n gysylltiedig ag ôl-groniad o'r fath yn gwadu cyfiawnder i lawer ac yn atal cyfiawnder chwim. Ac nid yw ôl-groniadau yn gyfyngedig i'r llysoedd troseddol ychwaith. Er bod Llywodraeth Cymru yn barod i gefnogi pob ymdrech i leihau ôl-groniadau, rydym yn dal i bryderu bod hwn yn fater arall lle mai'r broblem sylfaenol yw hanes o dangyllido cyfiawnder gan Lywodraeth y DU.

**10.6 Hygyrchedd Cyfraith Cymru**

Mae'r problemau sy'n ymwneud â diffyg hygyrchedd deddfwriaeth yn y DU yn hysbys iawn, gan gynnwys gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwybodol o'r broblem ers sawl blwyddyn ac wedi bod yn cymryd camau (lle bu modd gwneud hynny) i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ers 2011.

Yn 2019, cyflwynodd y Senedd ddeddfwriaeth sy'n gosod rhwymedigaeth ar y Llywodraeth i weithredu. Diben Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (sy'n gweithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru[64]) yw gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Gwna ddarpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth

[64] Comisiwn y Gyfraith rhif 366, Hydref 2016

Cymru, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Er y bydd angen i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a thu hwnt gydweithio i ddatrys problemau cyfraith anhygyrch, y Cwnsler Cyffredinol sy'n gyfrifol am oruchwylio hygyrchedd cyfraith Cymru yn gyffredinol. Bwriedir i hyn gael ei gyflawni drwy ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol sicrhau bod cyfraith Cymru yn cael ei hadolygu'n barhaus, ac i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno rhaglen o brosiectau sydd wedi'u cynllunio i wneud y gyfraith yn fwy hygyrch. Mae hyn yn fodd i roi pwyslais hirdymor ar ymdrech barhaus i greu llyfr statud modern, trefnus a dwyieithog i Gymru.

Ar gyfer pob tymor o'r Senedd, rhaid i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu a chyflwyno rhaglen o weithgareddau sydd wedi'i chynllunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru. Mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ar y pryd fydd cynnwys penodol pob rhaglen, ond rhaid i bob rhaglen ddarparu ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi'i chodeiddio, hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru, a hwyluso defnydd o'r Gymraeg. Ceir manylion y rhaglen gyntaf isod.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr ar brosiectau yn ymwneud â chyfraith Cymru. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar Reoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru ym mis Mawrth 2022 ac fel y trafodwyd yn gynharach yn y papur hwn mae wedi cyhoeddi adroddiad ar ei waith ar Dribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru yn ddiweddar hefyd. Mae'r ddau brosiect yn ystyried y fframweithiau deddfwriaethol presennol ar gyfer y meysydd hyn ac yn gwneud argymhellion ynghylch sut y gall y gyfraith yn y meysydd hyn gael ei symleiddio, ei moderneiddio a'i datblygu.

Caiff prosiectau pellach eu nodi fel rhan o'n gwaith parhaus gyda'r Comisiwn, a allai gynnwys prosiectau diwygio'r gyfraith neu adolygiadau o feysydd technegol o'r gyfraith, megis y gyfraith etholiadol sy'n sail i etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd, neu'r gyfraith sy'n llywodraethu cyhoeddiad ar-lein statudau ac offerynnau statudol. Mae'r rhain yn enghreifftiau o rannau o'r gyfraith lle gallai Comisiwn y Gyfraith gefnogi uchelgeisiau'r Llywodraeth i symleiddio a moderneiddio'r gyfraith.

Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn adrodd ar hynt rhaglen y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru bob blwyddyn, gyda'r adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2022.

Cafwyd cyfraniad pwysig iawn, er yn un dros dro, at wneud y gyfraith yn fwy hygyrch drwy gyhoeddi canllawiau ar oblygiadau deddfwriaeth frys mewn ymateb i Covid-19. Er i lawer o lywodraethau ledled y byd lunio canllawiau i'w dinasyddion, roedd y canllawiau a luniwyd yng Nghymru yn arbennig o sylweddol, ac wedi'u teilwra ar gyfer ardaloedd lleol penodol pan oedd y cyfyngiadau yn amrywio ar draws ffiniau daearyddol, ac wrth gwrs roeddent hefyd yn ddwyieithog. Pan oedd y pandemig ar ei anterth, roedd rhai o dudalennau'r canllawiau yn cael cannoedd o filoedd o ymweliadau o fewn diwrnodau i'w cyhoeddi.

Er i gyflymder y broses o lunio'r canllawiau olygu, ar adegau, fod risg o orsymleiddio'r sefyllfa gyfreithiol, roedd yr adborth yn dangos yn gyson fod y canllawiau yn cael eu croesawu'n eang ac wedi helpu llawer iawn o bobl i ymdopi â'r cyfyngiadau ar fywyd beunyddiol na welwyd eu tebyg o'r blaen.

Yn 2021-26, bydd y Llywodraeth yn:

- Cyflwyno pedwar Bil cydgrynhoi, gan gynnwys un ar ddeddfwriaeth amgylchedd hanesyddol ac un ar gyfraith gynllunio. Mae Biliau Cydgrynhoi yn dwyn ynghyd yr holl ddeddfwriaeth (sylfaenol yn bennaf) neu'r rhan fwyaf ohoni ar bwnc penodol gan ei hailddatgan yn un Ddeddf newydd fel y gellir dod o hyd iddi'n hawdd a, thrwy foderneiddio ffurf a drafftio'r gyfraith, yn ei gwneud yn haws i'w deall a'i chymhwyso
- Cyflwyno Bil diddymu cyfraith statud (Bil yw hwn sy'n dileu darpariaethau darfodedig ac sydd wedi disbyddu o'r llyfr statud, felly mae'n helpu i dacluso deddfwriaeth)
- Ailgyflwyno nifer o offerynnau statudol (is-ddeddfwriaeth) er mwyn helpu i wella eu hygyrchedd mewn ffordd debyg i gydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol
- datblygu ac ehangu gwefan Cyfraith Cymru
- dosbarthu deddfwriaeth bresennol yn ôl pwnc ac ehangu nodweddion gwefan legislation.gov.uk (a weithredir gan yr Archifdy Gwladol), fel y gellir chwilio am gyfraith Cymru a dod o hyd iddi yn ôl pwnc testun
- sicrhau bod testunau Cymraeg a Saesneg cyfraith Cymru a geir ar wefan legislation.gov.uk ar gael ar ei ffurf fwyaf diweddar yn y ddwy iaith (ar hyn o bryd mae hyn ond yn wir am rai o destunau Saesneg ein deddfwriaeth)
- datblygu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn paratoi deddfwriaeth ddwyieithog, gan ddefnyddio technoleg ieithyddol i'w llawn botensial wrth inni geisio gwella effeithlonrwydd, parhau i sicrhau cysondeb a defnyddio cystrawen naturiol ac 'iaith glir'
- archwilio potensial defnyddio dysgu peirianyddol a deallusrwydd artiffisial i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch

Wrth i brosiectau eraill ddatblygu, cânt eu hychwanegu at y rhaglen.

### 10.7 Addysg gyfreithiol gyhoeddus a gwaith Pro Bono

Gyda'i gilydd, gobeithio bod y camau a amlinellir yn adrannau 8.5 ac 8.8 uchod yn gwella mynediad at gyfiawnder ac yn arbennig yn lleihau effaith y toriadau i gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, rydym yn llwyr sylweddoli nad ydynt yn ddigon i wneud iawn am y niwed a wnaed i fynediad at gyfiawnder. Fel y cyfryw, rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi ac archwilio meysydd eraill lle gallwn helpu pobl i ddeall y gyfraith a chael y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fo ei angen arnynt.

Un elfen o hyn yw addysg gyfreithiol gyhoeddus. Mae hyn yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau sy'n anelu at helpu pobl i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gyfraith, a meithrin eu sgiliau a chynyddu eu hyder i reoli materion cyfreithiol y gallant eu hwynebu. Mae cwmpas addysg gyfreithiol gyhoeddus yn eang. Gall gynnwys rhaglenni addysg yn yr ystafell ddosbarth a'r gymuned, ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, gwasanaethau ac adnoddau ar-lein, a thaflenni a fideos gwybodaeth.

Roedd adolygiad diweddar ‘Cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru’ yn ein hatgoffa o'r angen am addysg ar gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys drwy ymchwil, datblygu llawlyfrau neu ddeunyddiau hyfforddi, a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae gwefan Cyfraith Cymru, sy'n darparu gwybodaeth ac esboniad o gyfraith Cymru a chyfansoddiad Cymru, yn adnodd pwysig i'r perwyl hwn.

Mewn ysgolion, caiff y cwricwlwm newydd ei gyflwyno o fis Medi 2022 i ddechrau ar gyfer pob ysgol gynradd a'r ysgolion uwchradd hynny sydd am ei gyflwyno i flwyddyn 7. I ysgolion uwchradd ni fydd y cwricwlwm newydd yn orfodol tan 2023, pan fydd yn cael ei gyflwyno i Flynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ac yna flwyddyn i flwyddyn wedyn.

Mae cyd-destunau cyfreithiol yn rhan o'r Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, gan olygu eu bod yn ddysgu gorfodol i bob dysgwr a phob ysgol. Yn ategu hyn, mae'r canllawiau statudol, y mae'n rhaid i bob ysgol dalu sylw iddynt, yn nodi y dylai dysgwyr feithrin dealltwriaeth o sut mae systemau llywodraeth yng Nghymru yn gweithio ac yn effeithio ar fywydau pobl, a sut maent yn cymharu â systemau eraill. O fewn y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae

dysgu gorfodol er mwyn i ddysgwyr ddeall y mesurau diogelu a'r hawliau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth gydberthnasau a gwybod sut a ble i gael diogelwch a chymorth.

Mae'r cwricwlwm newydd yn ehangu dysgu, gan gefnogi ysgolion i fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau gweithredu, ac mae'n rhoi mwy o rym i arweinwyr ac ymarferwyr addysg, gan eu galluogi i fod yn arloesol ac yn greadigol. Mae'n rhoi fframwaith clir i ysgolion ond mae hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd iddynt ddiwallu anghenion eu dysgwyr penodol mewn cymunedau lleol. Rhan allweddol o'r hyblygrwydd hwnnw fydd galluogi ymarferwyr i benderfynu pa bynciau ac adnoddau fydd yn cyfrannu orau at feithrin dealltwriaeth eu dysgwyr.

Fel cyrff ymreolaethol, mae prifysgolion yng Nghymru yn gyfrifol am gwricwla addysg uwch ac am benderfynu pa raglenni a chyrsiau i'w cynnig. Serch hynny mae enghreifftiau o addysg gyfreithiol gyhoeddus wedi eu gweld mewn o leiaf dau o'n sefydliadau yng Nghymru drwy eu gwaith Cenhadaeth Ddinesig. Cysylltodd un sefydliad ag ysgol leol i roi cyfle i gymryd rhan mewn cynllun arloesol sy'n annog ac yn gwobrwyo pobl ifanc am roi cynnig ar weithgareddau newydd, gan alluogi'r disgyblion i gwrdd â staff, ymweld â'r campws a phrofi darlithoedd a gweithdai. Mae sefydliad arall yn cynnig dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith drwy weithdai ‘Cyfraith Stryd’ mewn ysgolion uwchradd a grwpiau cymunedol gyda'r nod o feithrin gwell dealltwriaeth o'r gyfraith a materion cyfreithiol. Drwy'r gweithdai rhyngweithiol, mae cynulleidfaoedd yn dysgu am faterion cyfreithiol sy'n berthnasol iddynt drwy amrywiaeth o weithgareddau.

Yn olaf, mae addysg gyfreithiol gyhoeddus yn cynnwys gwaith Llywodraeth Cymru i feithrin ymwybyddiaeth o hawliadau budd-daliadau lles drwy ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd cenedlaethol, ynghyd â'r gwaith i hyfforddi gweithwyr rheng flaen mewn asiantaethau amrywiol i gydnabod hawliadau lles eu cleientiaid a nodi help gyda'u llythrennedd ariannol.

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cyfreithwyr ledled Cymru yn mynd ati o'u gwirfodd i ddarparu cryn dipyn o gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol am ddim i ddinasyddion, grwpiau cymunedol ac elusennau. Er bod y gwaith cyfreithiol pro bono hwn yn rhan annatod o'r sector, gall ond diwallu rhywfaint o'r angen, felly ni all ond ategu system briodol o wasanaethau cyfreithiol a ariennir yn gyhoeddus, ac nid

cymryd lle hynny. Er enghraifft, mae gan Gymdeithas y Cyfreithwyr Siarter Pro Bono, sef datganiad cyhoeddus yn gwahodd cwmnïau cyfreithwyr, timau cyfreithiol mewnol a strwythurau busnes amgen i ymrwymo i wella mynediad at gyfiawnder.Enghraifft glodwiw o gynllun pro bono yng Nghymru yw Cardiff Lawyers Care, a enillodd Wobr LawWorks Cymru ym mis Rhagfyr 2021. Partneriaeth ydyw rhwng Cymdeithas Cyfreithwyr Caerdydd a'r Fro, Clinig y Gyfraith Prifysgol De Cymru, LawWorks Cymru ac The Wallich i ddarparu cymorth cyfreithiol pro bono i bobl ddigartref yng Nghaerdydd.

Mae Cyngor y Bar yn cefnogi'r elusen Advocate sy'n cynorthwyo bargyfreithwyr i ddarparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol pro bono heb dâl i'r rhai mewn angen. Mae Advocate wedi penodi ei weithiwr achos cyntaf yng Nghymru, i nodi'r angen pro bono yng Nghymru a datblygu cymorth i fargyfreithwyr yng Nghymru sydd am wneud mwy o waith pro bono. Mae Cylchdaith Cymru a Chaer o'r Bar mewn trafodaethau ag Advocate ynghylch cael bargyfreithwyr yng Nghymru i wneud mwy o waith pro bono.

Bwriedir cynnal cyfarfod bord gron o sefydliadau allweddol yn haf 2022 er mwyn ystyried sut y gall gwaith pro bono gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr a myfyrwyr y gyfraith gael ei gefnogi a'i gydgysylltu ymhellach yng Nghymru.

Mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr hefyd wrthi'n arwain dwy fenter i helpu i wella mynediad at gyfiawnder. Mae'r fenter gyntaf yn ystyried sut y gall technoleg helpu i ddileu rhwystrau i gael cyngor cyfreithiol, ac mae'n cael ei datblygu gan brifysgolion yng Nghymru a Lloegr. Prosiect addysg gyfreithiol gyhoeddus yw'r ail, a chaiff y fenter hon ei datblygu ar y cyd â rheoleiddwyr gwasanaethau cyfreithiol eraill a Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo. Bydd yn cynhyrchu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr i'r rhai sydd angen cyngor cyfreithiol ynghylch mewnfudo a lloches.

**10.8 Hyrwyddo a diogelu hawliau dynol**

Yn olaf, elfen bwysig o fynediad at gyfiawnder yw sicrhau y gall pobl ddibynnu ar eu hawliau dynol, a lle bo'n briodol eu gorfodi. Fel y nodir yn llawnach ym mhennod 4.4, ein bwriad yw cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru, gan gynnwys drwy ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl

a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod. Rydym yn ystyried datblygu'r rhain ar wahân neu ddilyn trywydd mwy cyfannol, megis Bil Hawliau Dynol i Gymru, ac mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ar ganllawiau ar hawliau dynol, addysg gyfreithiol gyhoeddus, asesiadau effaith a'r ffordd y mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn gweithredu.

Wrth inni gymryd camau yng Nghymru i geisio amddiffyn hawliau yn fwy cyffredinol, mae'n edifar gennym fod angen inni hefyd aros yn effro a nodi ac ymateb i'r posibilrwydd y caiff mynediad at gyfiawnder ei leihau ymhellach gan Lywodraeth y DU. Rydym yn dal i bryderu ynghylch bwriadau Llywodraeth y DU o ran cyfyngu ar adolygiadau barnwrol, ond y bygythiad mwyaf ar hyn o bryd o bosibl yw'r cynnig i ddisodli'r Ddeddf Hawliau Dynol.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ddatganiad ar y cyd ar 12 Ionawr 2022 yn ei gwneud yn glir na fydd Llywodraeth Cymru yn goddef unrhyw achos o wanhau hawliau, ac ymatebodd i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar 7 Mawrth. Nododd ein hymateb, ymhlith sawl pwynt arall,

- y caiff pobl agored i niwed a phobl dan anfantais eu targedu'n annheg gan y cynigion hyn, yr ymddengys eu bod yn gwanhau neu'n lleihau hawliau rhai grwpiau. Mae'n achos pryder penodol bod y cynigion yn ceisio gwahaniaethu rhwng pobl neu achosion "haeddiannol" ac "anhaeddiannol"
- mae cyfraniadau cadarnhaol y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn wedi cael eu bychanu. Rydym yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi anwybyddu cryn dipyn o'r dystiolaeth gadarnhaol a gasglwyd yn ystod yr Adolygiad Annibynnol o'r Ddeddf Hawliau Dynol a arweiniwyd gan Syr Peter Gross
- nid yw llawer o'r cynigion wedi eu hategu gan dystiolaeth, neu maent yn defnyddio tystiolaeth mewn ffordd annheg neu amhriodol, gan ddibynnu ar achosion eithafol i gyfiawnhau newid a chamgyfleu sut mae llysoedd y DU wedi gweithredu; sydd at ei gilydd mewn ffordd gymesur a chyfrifol wrth gymhwyso cyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol gan barchu cyfreithiau'r DU yn llawn

- mae'r ymgynghoriad yn colli cyfle i ystyried ymestyn hawliau cymdeithasol ac economaidd

Mae'r gofyniad bod yn rhaid i ddeddfwriaeth a gaiff ei phasio gan y Senedd fod yn gydnaws â'r Ddeddf Hawliau Dynol yn golygu bod y Ddeddf yn rhan sylfaenol o setliad datganoli Cymru (fel sy'n wir am setliadau datganoli eraill y DU). Fel y cyfryw, byddai'n peri cryn bryder petai Llywodraeth y DU yn ystyried gweithredu yn y maes hwn heb i holl ddeddfwrfeydd cenedlaethol y DU gytuno.

# Pennod 11: Sector cyfreithiol ac economi Cymru

Sector cyfreithiol cryf yw conglfaen system gyfiawnder deg ac effeithiol. Pa gamau bynnag a gymerir gan lywodraethau i atal pobl rhag dod i gysylltiad â'r systemau cyfreithiol a chyfiawnder, a beth bynnag a wnânt i symleiddio'r defnydd o'r systemau hynny, bydd bob amser lawer o amgylchiadau na all unigolion na busnesau fynd i'r afael â nhw heb gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol. Mae sector cyfreithiol bywiog yn hanfodol i sicrhau y gall pobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt pan fo eu hangen arnynt, ac i gefnogi ein gweledigaeth am well system gyfiawnder i bobl Cymru. Yn ogystal â bod yn bwysig yn gymdeithasol, mae'r sector cyfreithiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at economi Cymru. Yn y rhan hon nodir ein gwaith gyda'r sector cyfreithiol i dyfu ei bresenoldeb yng Nghymru a thu hwnt, cynyddu'r cyfraniadau hanfodol y mae'n eu gwneud at yr economi, a gwella cynaliadwyedd ac amrywiaeth y sector, a'i allu i ddiwallu anghenion pobl a busnesau.

### 11.1 Cyd-destun

Mae'r sector cyfreithiol yng Nghymru wedi wynebu cryn dipyn o heriau yn ystod y degawd diwethaf. Ym mhennod 10 nodwyd effeithiau uniongyrchol y lleihad sylweddol mewn cymhwystra a chyllid cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder, a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Yn ogystal ag atal pobl rhag cael y cymorth cyfreithiol sydd ei angen arnynt, mae'r fath leihad wedi cael effeithiau andwyol difrifol ar ddichonoldeb cwmnïau cyfreithwyr ac ymarferwyr cyfreithiol. Yn anochel, mae'r toriadau wedi cael yr effaith fwyaf ar gwmnïau cyfreithwyr llai o faint ar y stryd fawr mewn rhannau mwy anghysbell a llai cefnog o Gymru, gyda'u ffocws ar ddarparu gwasanaethau cyfreithiol cleientiaid preifat i bobl yn eu cymunedau lleol.

Er nad ymarfer cyfraith trosedd yw'r unig ran o'r sector yr effeithiwyd arni, mae'r newidiadau i gymorth cyfreithiol troseddol yn tanlinellu hyn. Tynnodd Syr Christopher Bellamy CF, yn ei adolygiad annibynnol o gymorth cyfreithiol troseddol, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 ac a drafodwyd ym mhennod 10 sylw at gyfyng gyngor sy'n wynebu ysgolion y gyfraith wrth gynghori myfyrwyr sy'n ystyried gyrfa

mewn gwaith cymorth cyfreithiol troseddol. A ddylai ysgolion y gyfraith annog myfyrwyr i gamu i faes heb fawr ddim cyfleoedd symudedd cymdeithasol na datblygu, neu a ddylid eu cynghori rhag gwneud hynny ac os felly, heb dalent newydd, mae risgiau difrifol i ddyfodol ymarferwyr amddiffyniad troseddol? Dyma fu'r realiti yng Nghymru ers 2013, gyda charfan o gyfreithwyr ar ddyletswydd sy'n lleihau ac yn heneiddio, fel y nodwyd mewn tystiolaeth i Gomisiwn Thomas. Un o ganfyddiadau trawiadol eraill y Comisiwn oedd bod data a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn dangos bod gwariant ar gymorth cyfreithiol troseddol y pen o'r boblogaeth 30% yn uwch yn Lloegr na Chymru (£15.00 yn Lloegr o gymharu ag £11.50 yng Nghymru).

Mae diwygiadau eraill i gyfiawnder a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU dros y degawd diwethaf hefyd wedi cael effeithiau andwyol difrifol ar y sector cyfreithiol yng Nghymru, yn bennaf y penderfyniad i gau nifer mawr o lysoedd. Wrth gwrs, mae maint yr heriau wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn sgil effeithiau sylweddol pandemig Covid-19.

### 11.2 Cyngor Cyfraith Cymru

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, ac achub ar bob cyfle i'r sector cyfreithiol yng Nghymru, mae angen gweithio mewn partneriaeth mewn modd cryf ac effeithiol. Am y rheswm hwn, blaenoriaethodd Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru newydd, a argymhellwyd gan Gomisiwn Thomas, cyn gynted â phosibl ar ôl i argyfwng Covid-19 leihau digon i allu canolbwyntio ar amcanion tymor hwy.

Lansiwyd Cyngor y Gyfraith ym mis Tachwedd 2021, gan ddwyn ynghyd uwch-gynrychiolwyr o'r proffesiynau cyfreithiol, ysgolion y gyfraith, y farnwriaeth ac eraill â budd yn y sector cyfreithiol yng Nghymru. Er ei fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, disgwyliwn i Gyngor y Gyfraith chwarae rôl flaenllaw wrth annog cydweithio agos drwy'r sector cyfan gyda'i allu i sbarduno prif elfennau'r gymuned gyfreithiol. Gwnaethom ymgysylltu â'r sector cyfreithiol o ddechrau 2020 er mwyn datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer Cyngor y Gyfraith. Yn seiliedig ar adborth clir a chyson gan y sector, mae ei gylch gwaith yn ymestyn y tu hwnt i addysg a hyfforddiant cyfreithiol, a hygyrchedd cyfraith Cymru, fel y'i rhagwelwyd

gan Gomisiwn Thomas, i gwmpasu datblygu economaidd y sector, a thechnoleg ac arloesi cyfreithiol.

Mae Cyngor y Gyfraith yn darparu fforwm hanfodol i alluogi cymuned gyfreithiol Cymru i ddod ynghyd i gytuno ar flaenoriaethau, sefydlu gweithgorau, a chydweithio i gefnogi twf y sector a datblygu buddiannau'r gyfraith yng Nghymru. Mae ei bwyllgor gweithredol yn cynrychioli prif elfennau'r sector er mwyn ei alluogi i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r sector yng Nghymru, a llunio ac olrhain hynt camau a gymerir ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau hynny. Disgwylir i Gyngor y Gyfraith bennu ei gyfansoddiad, ei drefniadau gwaith, a'i flaenoriaethau a'i raglen waith yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

### 11.3 Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector cyfreithiol

O ystyried ystod eang argymhellion Comisiwn Thomas ar gyfer cynyddu cryfder a chynaliadwyedd y sector cyfreithiol yng Nghymru, bydd angen inni barhau i flaenoriaethu sut rydym yn defnyddio adnoddau cyfyngedig Llywodraeth Cymru i gefnogi'r sector. Rhagwelwn weithio mewn partneriaeth agos â Chyngor y Gyfraith, a'r sector cyfreithiol ehangach, i gysoni'r blaenoriaethau hynny ag argymhellion allweddol Comisiwn Thomas yn ymwneud â'r canlynol:

- cymorth busnes i'r sector cyfreithiol: i gwmnïau masnachol, cwmnïau ar y stryd fawr, y Bar a lleoliadau mewnol
- addysg a hyfforddiant cyfreithiol, a llwybrau i'r proffesiynau cyfreithiol
- cynaliadwyedd y sector ac ymarfer cyfreithiol, yn enwedig mewn rhannau ôl-ddiwydiannol a gwledig o Gymru
- mewnfuddsoddi yn y sector, a hyrwyddo'r de fel canolfan gyfreithiol

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i feithrin cydberthnasau cryfach â rhanddeiliaid yn y sector cyfreithiol, gan gynnwys cyrff cynrychioliadol, rheoleiddwyr a'r farnwriaeth, er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi datblygiad hirdymor y sector. Er enghraifft:

- Rydym yn buddsoddi mewn seilwaith technoleg gyfreithiol yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau bod y sector yn gallu darparu gwasanaethau cyfreithiol mewn ffordd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae hyn yn cynnwys £3.9 miliwn o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop mewn rhaglen pedair

blynedd i gefnogi lansiad a gwaith Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru yn Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yn Abertawe.

- Rydym yn gweithio gyda'r sector i ddarparu £100,000 o gyllid i alluogi cwmnïau cyfreithwyr a siambrau bargyfreithwyr yng Nghymru i gael achrediad seiberddiogelwch drwy gynllun a reolir gan Gymdeithas y Cyfreithwyr. Wrth i seiberymosodiadau ddod yn fwyfwy cyffredin, bydd y buddsoddiad hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol at alluogi'r sector cyfreithiol i ddod yn fwy seiber gydnerth.

- Mae Busnes Cymru yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i gefnogi microfusnesau a BBaChau yn y sector cyfreithiol i ddod yn fwy cydnerth, arloesi a thyfu. Mae cymorth wedi'i dargedu ar gael drwy ddigwyddiadau a gwasanaethau cynghori mewn meysydd megis cael gafael ar gyllid, adnoddau dynol ac arferion cyflogaeth, tendro a chaffael, defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, marchnata a manteisio ar adnoddau digidol. Mae Busnes Cymru hefyd yn gweithio gyda busnesau yn y sector cyfreithiol i'w hysbysu a'u helpu i achub ar gyfleoedd ar draws y llywodraeth ac yn yr ecosystem cymorth busnes ehangach. Mae cymorth wedi'i deilwra ar gael drwy'r Rhaglen Cyflymu Twf i fusnesau sy'n wynebu twf esbonyddol.

- Rydym yn ystyried sut y gall llwybrau i'r proffesiynau cyfreithiol gael eu hymestyn er mwyn helpu mwy o bobl ifanc i ymuno â byd y gyfraith o amrywiaeth o gefndiroedd, gan fynd ati i wneud gweithlu'r sector cyfreithiol yn fwy amrywiol a chadw mwy o'n talent o Gymru yng Nghymru.

- Rydym wedi bod yn gweithio gyda Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol (CILEX), sy'n chwarae rôl bwysig wrth ddarparu mynediad anhraddodiadol at y proffesiwn cyfreithiol, ar gyflwyno dau gymhwyster CILEX newydd yng Nghymru: cymhwyster paragyfreithiol ar lefel 3; a chymhwyster paragyfreithiol uwch ar lefel 5. Yn dilyn ymgynghoriad ym mis Ionawr, cyflwynwyd fframwaith prentisiaethau newydd ar gyfer y cymwysterau hynny ym mis Ebrill 2022. Mae CILEX yn gweithio gyda ni a'r sector cyfreithiol ar

hyrwyddo'r llwybr gyrfa prentisiaethau newydd hwn, gyda'r nod o ddechrau recriwtio ddiwedd y gwanwyn a rhoi'r rhaglen ar waith ym mis Medi.

- Yn fuan byddwn yn comisiynu dadansoddiad o anghenion sgiliau'r gweithlu ar gyfer y sector cyfreithiol er mwyn asesu gwerth ychwanegol posibl prentisiaethau cyfreithwyr i'r sector, ac yn arbennig eu defnydd posibl mewn cwmnïau cyfreithwyr llai o faint mewn rhannau mwy anghysbell a llai cefnog o Gymru.
- Ar y cyd â swyddfa Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, rydym wedi datblygu cyfres gweminar ar arferion cyfreithiol ym meysydd cymorth busnes a digidol, seiberddiogelwch, a thechnoleg ac arloesi cyfreithiol, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021.

- Rydym wedi bod yn ymgysylltu â'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ynghylch yr Arholiad Cymhwyso Cyfreithwyr newydd a'i argaeledd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yr arholiad hwn ym mis Medi 2021 fel llwybr newydd i gymhwyso i gyfreithwyr. Fe'i cynlluniwyd i sicrhau safonau uchel cyson ar gyfer pob cyfreithiwr sy'n cymhwyso a dileu rhwystrau anghyfiawnadwy i fynediad, a dyma fydd yr asesiad cadarn ar gyfer pob darpar gyfreithiwr yng Nghymru a Lloegr. Yn dilyn ymgynghoriad helaeth yng Nghymru, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr wedi cadarnhau ei fod yn bwriadu cyflwyno'r arholiad yn Gymraeg fesul cam, gydag ymgeiswyr yn gallu sefyll yr arholiad cyfan yn Gymraeg erbyn 2024. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn cynnal cynllun peilot i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r arholiad, er mwyn rhoi'r profiad gorau i ymgeiswyr. Fel rhan o wneud hyn fesul cam, mae'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr wedi nodi y bydd yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau ategol i helpu ymgeiswyr sy'n sefyll yr arholiad yn Gymraeg ar ei wefan asesu. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a chyhoeddi rhestr o dermau cyfreithiol Cymraeg i'w defnyddio yn yr asesiadau.

- Rydym wedi parhau i ddatblygu'r broses o osod gwaith cyfreithiol ar gontract allanol. Mae Fframwaith Cyfreithwyr y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn

cynnwys panel o aelod-gwmnïau i gefnogi timau polisi a thimau gweithredol Llywodraeth Cymru ar brosiectau sy'n cynnwys elfennau sylweddol o gyfraith gyhoeddus, polisi cyhoeddus, neu agweddau amlddisgyblaethol na allant gael eu cefnogi'n llawn yn fewnol. Mae gennym banel ar wahân o fargyfreithwyr cymeradwy, a gafodd ei adnewyddu gennym ym mis Mawrth 2021, ac mae cyfran y bargyfreithwyr a leolir yng Nghymru wedi cynyddu o 39% i 47%.

- Ynghyd â hyn, rydym wedi cychwyn trafodaethau ag arweinwyr Cylchdaith Cymru a Chaer o'r Bar ynghylch tyfu'r Bar cyfraith gyhoeddus yng Nghymru. Rydym wrthi'n sefydlu gweithgor o uwch-gynrychiolwyr o'r Gylchdaith a'r sector cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu hyn ac atgyfnerthu cydberthnasau rhwng y sector cyhoeddus a'r Gylchdaith.

- Mae diwygiad wedi'i wneud i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, gan ychwanegu Rheol 7.1A newydd, i'w gwneud yn ofynnol i hawliadau a gaiff eu dwyn yn y Llys Gweinyddol yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn herio cyfreithlondeb eu penderfyniadau gael eu cyflwyno a'u gwrando yng Nghymru. Dyma un o'r argymhellion cyntaf o Gomisiwn Thomas a gyflwynwyd, ac un o'r canlyniadau yw cadw mwy o waith cyfreithiol yng Nghymru.

- Rydym wedi bod yn pwyso ar y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyson ynghylch cyflwr gwael a chyfleusterau gwael Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd, a'r angen cynyddol ddybryd am safle sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn ei lle, sy'n briodol ar gyfer ymgyfreithwyr, cyfreithwyr a barnwyr. Mae Canolfan Cyfiawnder Sifil sy'n gweddu i brifddinas yn rhan hanfodol o sector cyfreithiol bywiog sy'n tyfu yng Nghymru, a denu mwy o waith cyfreithiol i Gymru.

# Pennod 12: Llywodraethu, materion cyfansoddiadol a chyfraith Cymru

Yn y ddogfen hon rydym wedi ystyried y gwaith o ddatblygu gweledigaeth hirdymor ar gyfer cyfiawnder a chamau penodol y gellir eu cymryd cyn inni allu cyflawni'r weledigaeth honno. Hefyd mae gwelliannau i'r broses o lywodraethu materion yn ymwneud â chyfiawnder y gellir eu gwneud o dan y setliad datganoli presennol, y mae rhai ohonynt (megis creu Cyngor Cyfraith Cymru, neu roi mwy o annibyniaeth strwythurol i weinyddiaeth y tribiwnlysoedd datganoledig) wedi cael eu trafod mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon. Mae'r rhan hon yn ystyried gwelliannau eraill i lywodraethu nas trafodir mewn man arall yn barod.

**12.1 Arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru**

Argymhellodd Comisiwn Thomas fod yn “rhaid i arweinyddiaeth glir ac atebol ar gyfiawnder yn Llywodraeth Cymru gael ei sefydlu o dan y drefn ddatganoli bresennol”.[65] Nododd nifer o swyddogaethau gwahanol o fewn Llywodraeth Cymru a oedd naill ai'n ymwneud yn uniongyrchol â gweinyddu cyfiawnder (megis gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig) neu'n effeithio ar y system gyfiawnder (megis dylunio deddfwriaeth, neu atal gwahanol fathau o weithgarwch troseddol), a daeth i'r casgliad nad oedd y cyfrifoldebau hyn yn cael eu cyflawni mewn modd digon cydgysylltiedig, “yn rhannol am nad oes strwythur arwain clir”.[66]

Gwnaethom dderbyn yr argymhelliad hwn, a chymerwyd camau uniongyrchol i fynd i'r afael ag ef drwy greu Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder. Cyfarfu am y tro cyntaf ddechrau 2020, ac mae wedi cyfarfod o bryd i'w gilydd ers hynny. Cafodd ei gadeirio gan y Prif Weinidog i ddechrau, ac roedd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip a'r Cwnsler Cyffredinol ar y pryd hefyd yn mynychu. Nodau'r Is-bwyllgor yw

- darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer swyddogaethau cyfiawnder sydd wedi'u datganoli i Gymru ar hyn o bryd

[65] Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Argymhelliad 61

[66] Paragraff 12.71

- llywio holl weithgarwch y llywodraeth mewn ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru
- sicrhau synergedd ar draws portffolios er mwyn sicrhau bod dull cydgysylltiedig o ymdrin â materion cyfiawnder
- cytuno ar farn Llywodraeth Cymru ynghylch mentrau cyfiawnder o du Llywodraeth y DU
- arwain trafodaethau â Llywodraeth y DU ar ddatganoli cyfiawnder

Yn dilyn etholiadau'r Senedd yn 2021, cafodd y trefniadau llywodraethu eu hatgyfnerthu ymhellach pan ddyrannwyd yn glir y cyfrifoldeb am "bolisi cyfiawnder" i weinidog penodol – y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad (y cyfeirir ato fel "y Cwnsler Cyffredinol" yn unig o hyn ymlaen). Hefyd cafodd y Cwnsler Cyffredinol gyfrifoldeb am feysydd penodol o bolisi cyfiawnder, megis:

- yr ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder
- polisi tribiwnlysoedd
- cydgysylltu â'r sector cyfreithiol
- hygyrchedd cyfraith Cymru

Ers cael y cyfrifoldebau hyn, mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd wedi dod yn gadeirydd Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder. Aelodau sefydlog eraill Is-bwyllgor y Cabinet yw'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, sy'n gyfrifol am nifer o swyddogaethau eraill yn ymwneud â'r system gyfiawnder, gan gynnwys:

- cysylltiadau â Llywodraeth y DU o ran carchardai a'r gwasanaeth prawf
- cysylltiadau â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill
- diogelwch cymunedol
- glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a glasbrint Cyfiawnder Menywod
- Atal caethwasiaeth
- mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- cydraddoldeb a hawliau dynol
- Gwasanaethau Cynghori ac Eirioli

Mae gweinidogion eraill yn bresennol yn Is-bwyllgor y Cabinet fel y bo angen; er enghraifft, bu'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn bresennol i drafod cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol. Gellir hefyd wahodd rhanddeiliaid allweddol – er enghraifft, mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi bod yn bresennol. Drwy hyn, gallwn sicrhau bod yr holl safbwyntiau perthnasol yn cael eu cynrychioli wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y system gyfiawnder.

O fewn y gwasanaeth sifil, ceir hefyd, am y tro cyntaf, Is-adran Polisi Cyfiawnder fach ond penodedig sy'n cynorthwyo'r Cwnsler Cyffredinol ac Is-bwyllgor y Cabinet i oruchwylio'r ymateb i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, ac i geisio sicrhau dull cydgysylltiedig o ymdrin â materion cyfiawnder ar draws Llywodraeth Cymru.

### 12.2 Cydweithio ag elfennau eraill o'r system gyfiawnder

Ar sawl pwynt yn y ddogfen hon, rydym wedi rhoi enghreifftiau o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn rhyngweithio ag elfennau o'r system gyfiawnder – er enghraifft:

- drwy'r Bwrdd Partneriaeth Plismona a chynnal Uned Gyswllt yr Heddlu
- drwy gymryd rhan ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru
- drwy lywodraethu'r ddau Lasbrint
- drwy gymryd rhan yn y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol
- drwy'r cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a'r Arglwydd Brif Ustus ac (ar wahân) Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru
- drwy Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru, a gyd-gadeirir gan Lywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

Bydd Cyngor Cyfraith newydd Cymru, a drafodir ym mhennod 11, yn rhan bwysig arall o'r strwythur hwn.

Cyfrwng cydweithredu newydd arall fydd y grŵp rhyngweinidogol arfaethedig ar gyfiawnder rhwng pedair llywodraeth y DU, unwaith y caiff ei sefydlu. Cafodd y grŵp hwn ei greu yn sgil yr adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol gan y pedair llywodraeth, ac fel grwpiau eraill o'r fath ar iechyd, addysg ac ati, mae wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer gwell cydweithredu rhwng y llywodraethau – er yng

nghyd-destun cyfiawnder, mae Cymru ar y cyrion yn wir am nad oes gan ei llywodraeth fawr ddim dylanwad dros y ffordd y gweithredir ei system gyfiawnder.

Mae'r uchod yn golygu strwythur llywodraethu cymhleth, ac nid yw ychwaith yn cynnwys yr elfennau hynny o lywodraethu cyfiawnder sy'n cynnwys aelodau o'r system gyfiawnder sydd wedi'i chadw'n ôl yn unig, a lle nad yw Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan ynddi. Felly, cytunwn â Chomisiwn Thomas y dylid symleiddio'r broses lywodraethu, er mwyn gwella'r broses o wneud penderfyniadau a darparu llinellau atebolrwydd cliriach. Fodd bynnag, o ystyried rhaniad cyfrifoldebau rhwng Cymru a San Steffan, ni all Llywodraeth Cymru fynd ati i sicrhau symleiddio sylweddol ar ei phen ei hun.

Un gwelliant o ran atebolrwydd rydym wedi ei groesawu yw sefydlu pwyllgor clir yn y Senedd â chyfrifoldeb am oruchwylio materion cyfiawnder – y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Er bod gan y Pwyllgor hwnnw lu o gyfrifoldebau eraill, serch hynny mae'n rhan bwysig o'r seilwaith ar gyfer gwella canlyniadau cyfiawnder y dylai fod pwynt atebolrwydd i sefydliad democrataidd Cymru. Mae gan gynyddu maint y Senedd y potensial i gryfhau ymhellach ei gallu i graffu ar faterion cyfiawnder, a byddai hyn o fudd amlwg i Gymru.

**12.3 Arweinyddiaeth farnwrol a llywodraethu barnwrol**

Mae adroddiad Comisiwn Thomas hefyd yn sôn am strwythurau cyfredol llywodraethu barnwrol yng Nghymru. Fel y'u cyfansoddir ar hyn o bryd, materion i'r Arglwydd Brif Ustus yw'r rhain, ac eithrio’r Goruchaf Lys.

*Y Goruchaf Lys*

Caiff cyfansoddiad yr Uchel Lys ei bennu'n rhannol drwy statud, ac yn rhannol yn ôl disgresiwn y Llys wrth bennu'r ffactorau y bydd yn eu hystyried wrth recriwtio a dethol barnwyr newydd. Yn arbennig, mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i gomisiwn dethol “ensure that between them the judges will have knowledge of, and experience of practice in, the law of each part of the United

Kingdom"; ond mae'r Ddeddf yn mynd ymlaen i ddiffinio "parts of the United Kingdom" i olygu (a) yr Alban, (b) Gogledd Iwerddon ac (c) Cymru a Lloegr. [67]

Un o ganlyniadau anochel datganoli deddfwriaethol yw bod y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru wedi newid yn sylweddol i fod yn wahanol i'r gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr, a bydd yn parhau i fod yn wahanol. Credwn fod y fath wahaniaeth yn ddigon sylweddol yn barod i'w gwneud yn amhriodol ystyried bod cyfraith Cymru a Lloegr yn un endid, ac wrth gwrs dim ond tyfu a wna'r gwahaniaeth hwnnw. Gallai hyn ynddo'i hun gael ei ystyried yn ddigon o reswm i newid y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol, i ddarparu bod angen o leiaf un barnwr ar y Llys sydd â phrofiad o ymarfer yng Nghymru, a gwybodaeth am gyfraith Cymru.

Fodd bynnag, cydnabyddwn fod gwahaniaethau barn ynghylch a yw'r fath wahaniaeth mewn cyfreithiau yn ddigon i'w gwneud yn ofynnol cael cynrychiolaeth Gymreig benodol ar y Llys. Ar y llaw arall, yr hyn nad oes dadlau yn ei gylch yw bod gan y Llys rôl gyfansoddiadol bwysig yn pennu ffiniau setliadau datganoli'r DU, sy'n wahanol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y Goruchaf Lys, a dim ond y Goruchaf Lys, sy'n pennu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Nid yw'n ymarferol awgrymu y gallai dyfarniadau o'r fath gael eu gwneud yn rhesymol gan Lys heb unrhyw gynrychiolaeth Gymreig, a pharhau i gadw hyder pobl Cymru – pwynt a nodwyd gan Brif Weithredwr y Llys ar y pryd mewn adolygiad yn 2015.[68]

Er clod i'r Llys, mae wedi cydnabod hyn, ac rydym yn ddiolchgar i Lywyddion olynol y Llys am gynnal deialog â Llywodraeth Cymru ac am sicrhau bod dymunoldeb gwybodaeth am gyfraith ac ymarfer Cymru, a phrofiad o hynny, wedi bod yn ystyriaeth gan baneli dethol. Serch hynny, ar adeg ysgrifennu, ond oherwydd amgylchiadau eithriadol y tu allan i reolaeth y Llys, nid oes unrhyw farnwr â'r fath wybodaeth na phrofiad ar y Llys.[69]

[67] Adrannau 27(8) a 60(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

[68] Report of my review of the process followed by Selection Commissions making recommendations for appointment to The Supreme Court

[69] Mae'r Arglwydd Lloyd Jones a'r Arglwydd Thomas o Gwmgïedd ill dau ar y panel atodol sy'n golygu y gellir gofyn iddynt eistedd ar achosion penodol.

Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder, hyd yn oed o dan y cynllun datganoli presennol, y dylai Cymru fod mewn sefyllfa debyg i'r Alban a Gogledd Iwerddon yn y Goruchaf Lys o ran penodi barnwyr i'r Goruchaf Lys. Cytunwn, ac rydym wedi galw ar Lywodraeth y DU i weithredu ar hyn – hwyrach yn yr adolygiad o'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol y mae wedi ymrwymo iddo'n barod.

# ATODIAD: EIN RHAGLEN WAITH
# Yr hyn rydym wedi'i wneud a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud

## Atal ac ymyrryd yn gynnar

***Noder:** nid yw'r holl weithgareddau o dan y pennawd hwn yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfiawnder, ond maent yn enghreifftiau o weithgarwch sy'n cyfrannu at sicrhau cyfiawnder cymdeithasol, lleihau lefelau troseddu a lleihau'r galw ar y system gyfiawnder.*

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyflwyno'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Hyrwyddo dull Plentyn yn Gyntaf.

Datblygu'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i gefnogi Gweinidogion wrth iddynt roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Sefydlu Swydd Comisiynydd Plant Cymru.

Sefydlu rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

Cefnogi sefydlu Canolfan Gymorth i Gymru ar gyfer pobl sydd wedi cael Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Cefnogi'r gwaith o fabwysiadu Rheolaeth Achosion Uwch ar gyfer pobl ifanc sy'n dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd.

Gwahardd cosbi plant yn gorfforol drwy ddiddymu amddiffyniad cosb resymol.

Datblygu fframwaith ar ymgorffori ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol.

Dargyfeirio £2 miliwn yn ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a'r gymuned.

Buddsoddi tua £2 miliwn y flwyddyn yn Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Parhau i ariannu'r Ganolfan Gymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE) tan o leiaf 2025.

Datblygu Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE).

Cefnogi gwaith ar fframwaith ymarfer newydd sy'n ystyriol o drawma.

Ystyried sut y gellid cynnwys plant sy'n gadael y ddalfa yn y cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal.

Gweithio gyda'r Uned Atal Trais ar brosiect cysylltu data i ddeall cysylltiadau rhwng ffactorau risg addysgol a gweithgarwch troseddol.

Datblygu fframwaith atal ar gyfer pobl ifanc sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r system gyfiawnder.

Gweithio gyda phartneriaid ar y camau nesaf ar gyfer y rhaglen Fraenaru i Fenywod ac ymwreiddio ymhellach weithgarwch atal a dargyfeirio yng Nghymru.

# CYDRADDOLDEB A CHYFIAWNDER

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Pasio Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Ymgynghori ar Strategaeth Genedlaethol i atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr.

Ariannu 13 o gyfleusterau gwrandawiadau llys o bell ledled Cymru ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Sefydlu Straen Trawmatig Cymru.

Sefydlu tair Uned Dystiolaeth i gasglu a monitro data Cymru ar gydraddoldeb, gwahaniaethau hiliol ac anghyfartaleddau anabledd.

Datblygu ac ymgynghori ar Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol , gan gynnwys cyfiawnder troseddol.

Rhedeg Bwrdd Casineb a Thensiwn Cymunedol Cymru.

Ariannu prosiectau megis y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol a Chanolfan Cymorth Casineb Cymru.

Ymgynghori ar Gynllun Gweithredu LHDTC+ drafft.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl a'r Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod yng nghyfraith Cymru.

Ystyried yr achos dros Fil Hawliau Dynol i Gymru.

Bwrw ymlaen ag argymhellion ymchwil a arweinir gan Brifysgol Abertawe i Gryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Cyhoeddi a hyrwyddo camau gweithredu sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder o fewn y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol derfynol y cytunwyd arni a sefydlu'r glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cyhoeddi a hyrwyddo camau gweithredu sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder o fewn y Cynllun Gweithredu LHDTC+ terfynol y cytunwyd arno.

Cyhoeddi a hyrwyddo camau gweithredu sy'n ymwneud â'r system gyfiawnder o fewn Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol, a dwyn y system cyfiawnder troseddol i gyfrif am ei Chynllun Gwrth-hiliaeth ei hun.

Ehangu'r defnydd o gyfleusterau gwrandawiadau llys o bell ar gyfer tystion sy'n agored i niwed mewn achosion teuluol ac achosion sifil eraill.

Ystyried yr achos dros ganiatáu i reithgorau mewn treialon troseddol drafod yn Gymraeg.

# CYFIAWNDER TEULUOL

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Creu a rhedeg y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol i fonitro perfformiad a gweithrediad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru.

Monitro awdurdodau lleol yn erbyn Cynlluniau Disgwyliadau Lleihau.

Ariannu gwasanaethau "Myfyrio" gyda'r nod o geisio peidio ag anfon plant a menywod i'r system gofal a chyfiawnder.

Darparu mynediad am ddim i gyrsiau digidol a gynlluniwyd i atal neu reoli achosion lle mae rhieni'n gwahanu.

Sefydlu cynllun peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Edrych ar ddiwygiadau radical i'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.

Parhau i weithredu Cynllun Strategol y Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol.

Monitro a gwerthuso cyrsiau digidol ar rieni'n gwahanu.

Cymryd rhan yn y Gweithgor Cyfraith Breifat a sefydlwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol, ac ym mhroses werthuso prosiect braenaru'r Gogledd.

Gwerthuso cynllun peilot y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol ac ystyried cyflwyno'r cynllun yn ehangach.

# PLISMONA A DIOGELWCH CYMUNEDOL YNG NGHYMRU

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Gweithio gyda phedwar heddlu Cymru i sicrhau bod rheoliadau Covid-19 yn cael eu gorfodi'n llwyddiannus.

Buddsoddi dros £22 miliwn y flwyddyn i ariannu 600 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru.

Darparu cyllid i sefydlu Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru.

Cydweithio â heddluoedd yng Nghymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Llunio Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Mynd ar drywydd darparu cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer prentisiaethau'r heddlu.

Sefydlu Gan Bwyll / Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru i gefnogi ardaloedd peilot 20mya a pharthau allyriadau isel 50mya.

Gweithio gyda heddluoedd ar strategaeth atal a lleihau hunanladdiadau.

Creu swydd Cydlynydd Troseddau Gwledig a Bywyd Gwyllt Cymru Gyfan

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Mynd ar drywydd datganoli plismona mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU.

Ariannu cynllun cymorth rhianta y tu allan i'r llys i rieni sy'n defnyddio cosb gorfforol.

Ailgomisiynu Canolfan Cymorth Casineb Cymru am 3 blynedd arall.

# CYFIAWNDER TROSEDDOL: SWYDDOGAETHAU DATGANOLEDIG

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Cytuno ar y cyd ar Gytundeb Partneriaeth ar gyfer Iechyd mewn Carchardai.

Cyhoeddi'r Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini y mae risg y byddant yn troseddu yng Nghymru, a ddatblygwyd ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi yng Nghymru.

Cytuno ar Brotocol Cymru Gyfan i leihau troseddoli plant ac oedolion ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Datblygu manyleb gwasanaeth ddiwygiedig ar gyfer y Gwasanaeth Triniaeth ac Ymgynghori Fforensig ar gyfer pobl ifanc yn y system gyfiawnder.

Ariannu Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu er mwyn darparu cymorth ataliol a dargyfeiriol i blant o fewn y system cyfiawnder ieuenctid neu sydd mewn perygl o fynd i'r system.

Cynllunio a gweithredu prosiect 'Cefnogi Pontio Personél Milwrol' (SToMP) i gefnogi cyn-filwyr sydd wedi'u dal yn y system cyfiawnder troseddol.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Bwrw ymlaen â'r Fframwaith Strategol Llety yng Nghymru.

Cynyddu capasiti gwasanaethau Tai yn Gyntaf ledled Cymru, gan gynnwys ar gyfer pobl sydd yn y carchar.

Datblygu ein cyfrifoldebau o dan y Cytundeb Partneriaeth ar Iechyd Carchardai, gan gynnwys safonau y cytunwyd arnynt ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, datblygu Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau newydd ar gyfer carchardai a gwaith ar Reoli Meddyginiaethau.

Cyhoeddi a gweithredu Polisi Addysg Carchardai Cymru.

Sicrhau y gall pobl ifanc mewn sefydliadau diogel gael at y cymorth sydd ar gael drwy'r Warant i Bobl Ifanc, ac elwa o'r cymorth hwnnw.

Edrych ar ddatblygu cymorth cyflogadwyedd wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sydd i fod i adael carchar.

Edrych ar y cyfle i garcharorion allu manteisio ar raglenni cyflogadwyedd eraill tra'u bod yn dal yn y carchar.

Parhau i ddilyn yr argymhellion yn y gwerthusiad o'r prosiect SToMP.

# RHAGLENNI DIWYGIO CYFIAWNDER TROSEDDOL

**Yr hyn rydym ni a sefydliadau partner wedi'i wneud:**

Cytuno ar fframwaith i gefnogi newid positif i'r rheini sydd y mae risg y byddant yn troseddu yng Nghymru.

Cytuno ar Lasbrintiau Cyfiawnder Menywod a Chyfiawnder Ieuenctid a dechrau eu rhoi ar waith.

Ymwreiddio gwasanaethau dargyfeiriol i fenywod ledled Cymru.

Cyflwyno a gwerthuso'r fenter Fraenaru i Fenywod.

Sefydlu Cynadleddau Achos Braenaru i Fenywod ym mhob uned cyflawni prawf yng Nghymru.

Gwasanaeth "Ymweld â Mam" i fenywod sydd yng Ngharchar ei Mawrhydi Eastwood Park a Charchar ei Mawrhydi Styal.

Lansio Strategaeth Ymgysylltu â Dedfrydwyr, gan gynnwys hyfforddiant i weithwyr proffesiynol.

Cytuno ar weledigaeth ar gyfer plant Cymru mewn sefydliadau diogel.

Treialu dull amgen o remandio plant yn nalfa'r heddlu.

**Yr hyn y byddwn yn ei wneud:**

Agor y Ganolfan Breswyl gyntaf i fenywod fel cynllun peilot.

Ystyried beth y gellir ei wneud i ehangu'r defnydd o egwyddorion a chanllawiau Pontio Ieuenctid i Oedolion.

Datblygu gwaith ar fodelau yn y dyfodol ar gyfer darpariaeth ieuenctid ddiogel yng Nghymru.

Cydweithio â phartneriaid i leihau nifer y plant sy'n cael eu cadw ar remánd.

Datblygu fframwaith atal ymarferol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, gan nodi ac ymwreiddio ymhellach arferion da a chydweithio sydd eisoes yn digwydd.

Ymwreiddio ymhellach ddull sy'n ystyriol o drawma mewn amgylcheddau diogel i bobl ifanc yng Nghymru.

Pwyso am gynllun peilot datrys problemau mewn llysoedd yng Nghymru.

# LLYSOEDD A THRIBIWNLYSOEDD SIFIL A GWEINYDDOL YNG NGHYMRU

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Comisiynu Comisiwn y Gyfraith i adolygu'r tribiwnlysoedd datganoledig.

Dechrau datblygu'r polisi manwl i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Creu Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig i Gymru fel rhan o Wasanaeth Tribiwnlysoedd annibynnol strwythurol.

Creu Tribiwnlys Apeliadau i Gymru.

Trosglwyddo apeliadau yn erbyn gwaharddiadau ysgol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd (yn amodol ar ymgynghoriad).

Ehangu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

Ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o gynhyrchu a chyhoeddi data tribiwnlysoedd Cymru.

Paratoi ar gyfer effaith diwygiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar lwyth achosion Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid i fwrw ymlaen ag argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i gydlynu a rhesymoli datrys anghydfodau sifil a gweinyddol yng Nghymru.

Trafod gyda Llywodraeth y DU argymhellion Comisiwn Thomas sy'n ymwneud â gwasanaethau crwneriaid.

# MYNEDIAD AT GYFIAWNDER

## Yr hyn rydym wedi'i wneud:

Cyflwyno'r Gronfa Gynghori Sengl, gyda chyllid blynyddol o tua £11 miliwn, gan gefnogi gwasanaethau cynghori ledled Cymru i ryw 120,00 o bobl bob blwyddyn.

Gweithredu Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio.

Cyhoeddi ein rhaglen gyntaf o weithgareddau o dan y Ddeddf, gan nodi ein hymrwymiad i brosiectau i gyflawni'r nod hwnnw dros oes y Senedd.

Cynhyrchu ystod o ganllawiau ar reoliadau Covid-19.

## Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Gwerthuso'r Gronfa Gynghori Sengl ac edrych ar ddichonoldeb ffrwd ariannu grant anstrwythuredig.

Adrodd ar gynnydd yn erbyn ein rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Gweithio gyda Chomisiwn y Gyfraith (Cymru a Lloegr) i nodi prosiectau pellach sy'n ymwneud â chyfraith Cymru.

Cyflwyno'r achos dros werthuso canlyniadau gwrandawiadau o bell a thros strategaeth ar gyfer mynediad o bell a mynediad wyneb yn wyneb i lysoedd yng Nghymru.

Parhau i ddadlau'r achos dros weithredu argymhellion Adolygiad Annibynnol Syr Christopher Bellamy o Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn llawnach.

Gweithio gyda'r proffesiynau cyfreithiol i ehangu addysg gyfreithiol gyhoeddus a nodi'r ffordd orau o gefnogi gwasanaethau pro bono.

Gwrthwynebu unrhyw gynigion a fydd yn lleihau lefel y diogelu hawliau yn y Ddeddf Hawliau Dynol.

# Y SECTOR CYFREITHIOL AC ECONOMI CYMRU

**Yr hyn rydym wedi'i wneud:**

Gweithio gyda'r sector cyfreithiol i sefydlu Cyngor Cyfraith Cymru.

Buddsoddi £3.9 miliwn o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru.

Darparu cyllid i alluogi cwmnïau'r gyfraith yng Nghymru i ennill achrediad seiberddiogelwch.

Cyhoeddi fframwaith prentisiaeth newydd i gefnogi dau gymhwyster CILEX newydd yng Nghymru, ar lefelau paragyfreithiol a pharagyfreithiol uwch.

Cefnogi diwygiad i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil i'w gwneud yn ofynnol i hawliadau a gyflwynir yn y Llys Gweinyddol yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n herio cyfreithlondeb eu penderfyniadau, gael eu cyhoeddi a'u clywed yng Nghymru.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Cyfraith Cymru a'r sector cyfreithiol ehangach i nodi camau gweithredu allweddol i wella cynaliadwyedd y sector cyfreithiol yng Nghymru.

Comisiynu dadansoddiad o anghenion sgiliau'r gweithlu i ystyried yr achos dros ariannu prentisiaethau cyfreithwyr.

Datblygu gweithgor ar dyfu'r Bar cyfraith gyhoeddus yng Nghymru.

Parhau i ddadlau'r achos dros gael safle arall addas yn lle Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd.

# LLYWODRAETHU, MATERION CYFANSODDIADOL A CHYFRAITH CYMRU

### Yr hyn rydym wedi'i wneud

Creu Is-bwyllgor y Cabinet ar Gyfiawnder mewn ymateb i argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru i gael arweinyddiaeth glir ac atebol ar gyfiawnder.

Cydweithio ag asiantaethau cyfiawnder eraill i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru o dan y setliad datganoli presennol, gan gynnwys Bwrdd Plismona a Phartneriaeth Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru a'r Glasbrintiau ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddau Menywod.

Sefydlu deialog ryngweinidogol gyda Llywodraeth y DU ar argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru.

Croesawu goruchwyliaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad o faterion cyfiawnder, gan ddarparu pwynt atebolrwydd i'r Senedd.

### Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:

Parhau i gydweithio â rhannau eraill o'r system gyfiawnder, gan gynnwys grŵp rhyngweinidogol arfaethedig pedair gwlad y DU ar gyfiawnder.

Mynd ar drywydd yr achos dros warantu cynrychiolaeth o Gymru yn y Goruchaf Lys.

© Hawlfraint y Goron 2022
WG45161 ISBN digidol 978-1-80364-259-8